# Cynllun Blynyddol 2009/10

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 31 Mawrth 2009

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair | 2 |
| 1 | Crynodeb Gweithredol | 4 |
| 2 | Dull gweithredu strategol Ofcom | 8 |
| 3 | Rhaglen waith fanwl | 21 |
| 4 | Darparu gwasanaethau i ddinasyddion a defnyddwyr | 41 |
| 5 | Rhoi gwerth i randdeiliaid | 47 |

| Atodiad | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid | 48 |

# Rhagair

Cyhoeddir cynllun blynyddol eleni mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd aruthrol - digyffelyb hyd yn oed. Mae pob sector yn teimlo effeithiau'r dirywiad, gan gynnwys y diwydiannau cyfathrebu. Yr ydym eisoes wedi gweld nifer o becynnau darbodaeth a diswyddiadau yn y sector. Efallai y bydd mwy yn dilyn.

Yr ydym yn sylweddoli bod cwmnïau yn ein sector yn wynebu amgylchiadau llym. Ac eto, mae rhesymau da hefyd dros deimlo'n obeithiol ynghylch y dyfodol. Yn wahanol i nifer o sectorau eraill, mae'r sector cyfathrebu eisoes wedi goroesi cwymp honedig dotcom yn 2002. Ac ym mhob cwr o'r byd, gan gynnwys y DU, mae llywodraethau'n cydnabod gallu'r sector cyfathrebu i gefnogi adferiad a thwf economaidd ehangach.

Yr ydym yn croesawu menter *Prydain Ddigidol* llywodraeth y DU ac edrychwn ymlaen at ddatblygu'r amryw bwyntiau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn ei adroddiad interim. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i Ofcom barhau i ganolbwyntio'n ddiwyro ar fuddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

Gallwn fod yn dawel ein meddwl ein bod wedi cymryd camau i egluro cyflymderau band eang yn well, helpu i adfer hyder mewn rhaglenni ffonio-i-mewn ar y teledu a sicrhau bod darllediadau Manylder Uwch ar gael trwy erial teledu, i enwi ond ychydig o fentrau. Yn y dyfodol, mae angen i ni weithio'n galetach fyth i ofalu bod y farchnad gyfathrebu'n parhau i weithio'n effeithiol o safbwynt defnyddwyr a dinasyddion.

Mae'r sector cyfathrebu'n parhau i fod yn faes lle ceir newid ac arloesi aruthrol. Dros y flwyddyn a aeth heibio, gwelsom dwf cyflym band eang symudol, yn ogystal â phwysau cynyddol ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus darlledu-am-ddim wedi'i ariannu gan hysbysebion. Yn y meysydd hyn, ac mewn sawl maes arall yn ogystal, rhaid i Ofcom barhau i gadw cyswllt clos â thueddiadau technolegol a thueddiadau yn y farchnad ac ymysg defnyddwyr. Rhaid i ni fod yn barod i weithredu lle bo angen, i bennu llwybr clir o safbwynt cefnogi arloesi a rhaid i ni allu annog hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy. Mae hefyd yn hanfodol bwysig ein bod yn creu'r amodau iawn ar gyfer buddsoddi effeithlon ac amserol, yn enwedig o dan yr amgylchiadau economaidd presennol.

Mae ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn adlewyrchu'r gofynion hollbwysig hyn. Felly, wrth hybu cystadleuaeth ym maes teledu talu a thelegyfathrebiadau sefydlog, byddwn hefyd yn ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd o gryfhau mynediad a chynhwysiant yng nghyswllt cyfathrebu. Wrth gefnogi esblygiad radio ar gyfer yr oes ddigidol, yr ydym hefyd yn galluogi rheoleiddio clir o ran band eang cyflym iawn. Ac wrth i ni ryddhau mwy o sbectrwm ar gyfer gwasanaethau newydd, byddwn yn datblygu ein trefniadau o safbwynt diogelu cwsmeriaid.

Yn y dyddiau ansicr sydd ohoni, rhaid i Ofcom hefyd fod yn ddigon ystwyth i ymateb i ddigwyddiadau ac amgylchiadau sy'n newid. Mae'r Cynllun hwn yn egluro sut yr ydym yn barod i wynebu heriau nad oes modd i ni eu rhagweld ar hyn o bryd. Mae hefyd yn nodi sut y byddwn yn parhau i ddarparu a gwella'r gwasanaethau hynny y mae ein rhanddeiliaid yn dibynnu arnynt, o ddyrannu amrediadau rhifau ffôn newydd i gynllunio sbectrwm ar gyfer y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd yn Llundain.

Ym mhedair blynedd gyntaf oes Ofcom, yr oeddem wedi sicrhau gostyngiadau mewn termau real bob blwyddyn. I raddau helaeth yr oedd y rhain yn adlewyrchu'r buddion maint a etifeddwyd gennym yn sgil cydgyfeiriant ac ad-drefnu ein rheoleiddwyr blaenorol. Mae'r broses hon bellach wedi'i chwblhau i raddau helaeth iawn, ond byddwn yn parhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd pellach, a gwireddu'r arbedion hynny. Ein nod o hyd yw darparu'r gwerth am arian gorau posibl i'n rhanddeiliaid, gan gynnwys gostyngiad termau real pellach yn ein costau ar sail tebyg-am-debyg eleni.

Mae ein cynllun gwaith yn adlewyrchu barn y rhanddeiliaid hynny, yn ogystal â mewnbwn gan Banel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, pwyllgorau ymgynghori Ofcom dros Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac ar ran Pobl Hŷn a Phobl Anabl. Cafodd ein Cynllun Drafft hefyd ei drafod mewn digwyddiadau yng Nghaerdydd, yng Nghaernarfon ac yn Leeds, Glasgow a Belfast. Y sylwadau hyn, gyda'i gilydd, sydd wedi bod fwyaf defnyddiol wrth lunio fersiwn derfynol y cynllun hwn. Edrychwn ymlaen at weithio gyda phawb oedd yn gysylltiedig i'w roi ar waith dros y flwyddyn i ddod.

| | |
|---|---|
| **Colette Bowe** | **Ed Richards** |
| **Cadeirydd** | **Prif Weithredwr** |

## Adran 1

# Crynodeb Gweithredol

### Mae'r cynllun terfynol yn adlewyrchu'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid.

1.1 Yng nghynllun blynyddol Ofcom, nodir y rhaglen waith sydd wedi'i chynllunio ar gyfer y deuddeg mis o fis Ebrill 2009 i fis Mawrth 2010. Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, mae tabl sy'n dangos yr holl brosiectau a chanlyniadau sydd gennym ar y gweill wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.1

1.2 Cafodd Cynllun Blynyddol drafft ei gyhoeddi gennym ar gyfer ymgynghoriad o ddeng wythnos ar 4 Rhagfyr 2008. Yn ystod y cyfnod hwnnw, buom yn ymgynghori â nifer o randdeiliaid o amgylch y DU, yr oeddem wedi cyfarfod â chyrff cynghori Ofcom, ac wedi cynnal dadansoddiad pellach o ddatblygiadau yn y farchnad. Ar y cyfan, yr oedd yr ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad ar ein Cynllun Blynyddol drafft yn gefnogol i'n rhaglen waith arfaethedig. Yn gyffredinol, yr oedd rhanddeiliaid yn cytuno bod ein fframwaith tair blynedd yn berthnasol o hyd a bod y meysydd a bennwyd gennym fel prif flaenoriaethau ar gyfer 2009/10 yn iawn.

1.3 Codwyd nifer o gwestiynau penodol ynghylch agwedd Ofcom tuag at gynllunio a blaenoriaethu. Yr ydym wedi derbyn y sylwadau hyn ac wedi addasu'r cynllun blynyddol terfynol er mwyn adlewyrchu'r adborth hwn. Ar ben hyn, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys nifer o sylwadau ac awgrymiadau defnyddiol ar faterion polisi penodol. Yn Atodiad 1, ceir crynodeb o ymatebion Ofcom i'r adborth a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad.

### Gwelwyd newidiadau sylweddol yn y sector cyfathrebu

1.4 Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, gwelwyd nifer o ddatblygiadau pwysig yn y farchnad gyfathrebu ehangach. Mae amrywiaeth o wasanaethau newydd ac arloesol yn y farchnad wedi dod yn fwy poblogaidd, er enghraifft band eang symudol sy'n galluogi pobl i gael mynediad i'r rhyngrwyd yn hawdd wrth deithio. Rydym wedi cychwyn y broses o newid i'r digidol yn y DU yn llwyddiannus ac mae modelau busnes a chyfryngau traddodiadol a newydd erbyn hyn yn cydgyfeirio.

1.5 Ar yr un pryd, rydym nawr yn wynebu pwysau economaidd sylweddol ar raddfa fyd eang - ac nid yw'r sector cyfathrebu wedi'i warchod rhag y pwysau hyn. Mae ansicrwydd ac ansefydlogrwydd yr hinsawdd bresennol yn golygu bod angen inni fod yn barod i weithredu'n gyflym ac yn gadarn os bydd unrhyw niwed yn digwydd i ddefnyddwyr o ganlyniad. Fel mae nifer o randdeiliaid wedi nodi, mae amodau economaidd sy'n gwaethygu yn golygu bod mwy o frys o safbwynt rhai o'r gweithgareddau polisi sydd gennym yn yr arfaeth. Bydd goblygiadau pwysau economaidd yn ystyriaeth gyffredin gydol ein gwaith polisi yn 2009/10, wrth inni geisio hybu lefel gynaliadwy o gystadleuaeth yn yr holl farchnadoedd a reoleiddir gennym er mwyn bodloni anghenion dinasyddion a defnyddwyr.

1.6 Mae adolygiad y Llywodraeth, Prydain Ddigidol, sydd wedi cyhoeddi adroddiad interim ym mis Ionawr 2009, yn dangos pwysigrwydd cynyddol y sector cyfathrebu i economi cyffredinol y DU. Rydym yn croesawu'r fenter hon ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Llywodraeth dros y misoedd i ddod. Hefyd, byddwn yn parhau i

[1] http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/reports_plans/annual_plan0910/projects/

gysylltu â llywodraethau yn y gwledydd datganoledig i gefnogi cynlluniau perthnasol yn y sector cyfathrebu ym mhob rhan o'r DU.

1.7 Yn ogystal, mae'r adolygiad annibynnol o sector gwasanaethau post y DU a gomisiynwyd gan y llywodraeth[2] yn argymell bod Ofcom yn dod yn gyfrifol am reoleiddio'r gwasanaeth post. Byddai unrhyw newid o'r fath yn ein cyfrifoldebau yn galw am ddeddfwriaeth newydd. Ar hyn o bryd, mae goblygiadau'r argymhelliad hwnnw'n dal i amlygu'u hunain, ond byddwn yn cydweithio â'r Llywodraeth i sicrhau y bydd y gwaith o drosglwyddo cyfrifoldebau'n mynd rhagddo'n llyfn.

## Mae ein rhaglen waith ar gyfer 2009/10 yn adlewyrchu'r datblygiadau hyn

1.8 Mae ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol yn 2009/10 yn adlewyrchu'r adborth a gawsom gan randdeiliaid, datblygiadau yn y sector cyfathrebu ac yn adeiladu ar y cynnydd a fu hyd yma. Yn yr hinsawdd economaidd heriol hon, byddwn yn gweithio'n galed yn y flwyddyn i ddod i sicrhau bod buddiannau'r dinesydd a'r defnyddiwr yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu. Byddwn yn cyfrannu at gyflawni hyn drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer twf ac arloesi.

1.9 Ar y cyfan, roedd y rhai a ymatebodd i'n hymgynghoriad yn cefnogi ein rhaglen waith ar gyfer 2009/10. Mae'n seiliedig ar ein fframwaith strategol presennol, sy'n canolbwyntio ar bedwar maes:

- ysgogi dull gweithredu seiliedig-ar-y-farchnad ar gyfer sbectrwm;
- hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesed;
- sicrhau y cyflenwir amcanion budd y cyhoedd; a
- gwella grymuso, diogelwch a gorfodaeth ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr.

1.10 Cefnogir y pedwar amcan hwn gan themâu ychwanegol sy'n berthnasol i holl feysydd gwaith Ofcom. Mae'r rhain yn cynnwys:

- parhau i symleiddio a lleihau rheoleiddio lle bo'n briodol, a lleihau'r beichiau gweinyddol ar randdeiliaid;
- hyrwyddo i'r eithaf ein heffaith ar ddatblygu polisi rhyngwladol, i gynrychioli buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU yn y ffordd orau bosibl; a
- sicrhau bod ein datblygiadau polisi yn sensitif i ddatblygiadau sefydliadol ac amodau'r farchnad yn holl Wledydd y DU, ac yn eu hadlewyrchu.

1.11 Fel yr awgrymodd nifer o randdeiliaid, rhaid inni hefyd ystyried yn ddifrifol y newidiadau tymor hwy sy'n digwydd yn y sector cyfathrebu, gan adeiladu ar waith y Llywodraeth ar Brydain Ddigidol, ac adlewyrchu'r hinsawdd economaidd sydd wedi newid. Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn datblygu fframwaith strategol newydd, a fydd yn ein galluogi i gynllunio a chanolbwyntio'n hymdrechion y tu hwnt i 2010.


[2] Mae adroddiad terfynol yr adolygiad annibynnol o sector gwasanaethau post y DU i'w weld yn http://www.berr.gov.uk/files/file49389.pdf

## Mae gennym raglen waith fanwl ar gyfer 2009/10

1.12 O ganlyniad i ddatblygiadau diweddar a thueddiadau cyfredol, mae ein rhaglen waith eang yn cynnwys 19 maes gwaith o bwys, wedi'u grwpio dan bedwar amcan allweddol ein fframwaith strategol.

1.13 Mae ffigur 1 yn dangos rhai o'r prif feysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ceir diagram manwl o'n rhaglen waith ar dudalen 17.

**Ffigur 1: Diagram yn dangos meysydd gwaith allweddol Ofcom yn 2009/10**




1.14 O fewn ein rhaglen waith, rydym wedi dynodi deg blaenoriaeth ar gyfer Ofcom. Meysydd gwaith yw'r rhain lle mae canlyniadau llwyddiannus yn hanfodol yn 2009/10 i sicrhau bod Ofcom yn cyflawni'i fwriad tymor hwy o sicrhau y bydd dinasyddion a defnyddwyr ar draws y DU yn gallu cael y manteision gorau posibl o gydgyfeiriant.

1.15 Dyma'n blaenoriaethau polisi ar gyfer 2009/10:

| | |
|---|---|
| Rhyddhau sbectrwm, gan gynnwys y difidend digidol | Hyrwyddo mynediad a chynhwysiant |
| Hybu cystadleuaeth ym maes telegyfathrebiadau sefydlog | Paratoi ar gyfer dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus |
| Hybu cystadleuaeth ym maes teledu talu | Cefnogi esblygiad radio |
| Galluogi rheoleiddio clir ar gyfer mynediad cenhedlaeth nesaf a rhwydweithiau craidd | Hybu llythrennedd yn y cyfryngau |
| Asesu ein dull rheoleiddio yng nghyswllt y sector symudol | Datblygu a gorfodi polisïau diogelu defnyddwyr |

1.16 Mae natur y sectorau cyfathrebu'n golygu ei bod yn anochel y bydd materion annisgwyl yn codi yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae ein cyfraniadau at drafodaethau yn y diwydiant ynghylch torri hawlfraint ar-lein, a chyflymderau band eang, yn ddwy enghraifft o faterion a ddaeth i'r amlwg (ond nad oeddem wedi cynllunio ar eu cyfer) yn 2008/09. I sicrhau bod gan Ofcom ddigon o adnoddau i gyflawni tasgau

annisgwyl o'r fath heb beryglu ein gwaith parhaus, byddwn yn cadw cyfran o'n capasiti ar gyfer tasgau annisgwyl yn 2009/10.

## Byddwn hefyd yn cyflwyno gwasanaethau allweddol i'n holl randdeiliaid

1.17 Ar ben ein rhaglen gwaith polisi, mae Ofcom yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i randdeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys cadw'r tonfeddi'n rhydd rhag ymyrraeth, dyrannu amrediadau rhifau ffôn, darparu gwasanaethau gwybodaeth i'r farchnad a chynllunio ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain. Mae'r rhain yn wasanaethau gwerthfawr ar gyfer rhanddeiliaid ac rydym yn edrych ar sut y gallwn barhau i wella ar y gwaith o'u cyflwyno.

1.18 Wrth ddarparu ein gwasanaethau a'n rhaglen waith polisi i randdeiliaid, rydym yn dal wedi ymrwymo i fod mor effeithlon â phosibl, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Ein nod yw darparu'r gwerth am arian gorau posibl i'n rhanddeiliaid a byddwn yn mynd ar drywydd cyfres o fentrau i bennu cyfleoedd i fod yn fwy effeithlon ochr yn ochr â phroses drylwyr o adolygu cyllideb.

Adran 2

# Dull gweithredu strategol Ofcom

2.1 Mae'r adran hon yn ymhelaethu ar ein hagwedd tuag at reoleiddio ac yn trafod y prif feysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt sy'n deillio o'n fframwaith strategol. Roedd ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Blynyddol drafft yn cefnogi ein casgliad bod y fframwaith cyfredol yn dal yn berthnasol o safbwynt cyflawni amcanion Ofcom yn y flwyddyn i ddod. O ganlyniad, bydd ein rhaglen waith ar gyfer 2009/10 yn canolbwyntio ar hybu gwaith sydd eisoes ar y gweill ac, ar yr un pryd, ymateb i amodau'r farchnad sy'n esblygu.

## Mae ein rhaglen waith yn adlewyrchu pwysau economaidd

2.2 Crëwyd Ofcom yn 2003 i baratoi ar gyfer cydgyfeiriant yn y sector cyfathrebu ac i ymateb i'r newidiadau yn y diwydiannau a'r marchnadoedd cyfathrebu yn ystod y blynyddoedd oedd yn dilyn. Ers hynny, mae sector cyfathrebu'r DU wedi newid yn sylweddol, gan fwynhau twf parhaus ar y cyfan, er gwaetha'r gostyngiad yng ngwariant defnyddwyr oherwydd prisiau is. Yn fwy cyffredinol, mae'r diwydiannau cyfathrebu hefyd wedi cael budd o dwf cyson yn yr economi ehangach.

2.3 Am y tro cyntaf ers ei greu, mae Ofcom eleni'n cynllunio'i weithgareddau mewn cyfnod lle nodweddir yr hinsawdd economaidd gan ansicrwydd ac ansefydlogrwydd. Rydym yn ymwybodol y gallai hyn gynyddu'r risgiau o niwed i ddefnyddwyr a dinasyddion. Fel mae nifer o randdeiliaid wedi nodi, mae amodau economaidd sy'n gwaethygu yn golygu bod mwy o frys o safbwynt rhai o'r gweithgareddau polisi sydd gennym yn yr arfaeth. Yn gyson â'n hegwyddorion rheoleiddio, byddwn yn gweithredu'n gadarn ac yn gyflym os bydd angen. Bydd goblygiadau pwysau economaidd yn ystyriaeth gyffredin hefyd gydol ein gwaith polisi yn 2009/10, wrth inni geisio hybu cystadleuaeth gynaliadwy yn yr holl farchnadoedd a reoleiddir gennym, er mwyn bodloni anghenion dinasyddion a defnyddwyr.

## Agwedd Ofcom tuag at reoleiddio

2.4 Mewn amgylchedd o newid sydyn parhaus fel sy'n bodoli ar hyn o bryd, mae'n bwysig fod gan Ofcom ddull gweithredu clir yng nghyswllt cyflawni ei gylch gwaith rheoleiddio a'i ddyletswyddau tuag at ddinasyddion a defnyddwyr. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi nodi nifer o egwyddorion mewn perthynas â sut y byddem yn mynd ati i ddatblygu'r broses o reoleiddio a'i rhoi ar waith.

2.5 Mae ein hegwyddorion rheoleiddio (fel y'u nodir yn ffigur 2 ar y dudalen nesaf) yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn effeithiol â materion polisi, a hynny mewn modd amserol, cadarn a chynhwysfawr. Maent hefyd yn helpu i egluro agwedd Ofcom tuag at reoleiddio i'n rhanddeiliaid. Ar ein gwefan yn ddiweddar, rydym hefyd wedi integreiddio ein hegwyddorion rheoleiddio â'r rhai rydym yn disgwyl y bydd gofyn i ni lynu wrthynt yng nghyswllt rheoleiddio'r gwasanaethau post[3].

[3] Mae fersiwn ddiweddaraf egwyddorion rheoleiddio Ofcom, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i wasanaethau post, ar gael yn http://www.ofcom.org.uk/about/sdrp/

**Ffigur 2: Egwyddorion rheoleiddio Ofcom**

**Pryd fyddwn ni'n rheoleiddio**

- Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd tuag at beidio ag ymyrryd, ond, lle mae angen ymyrryd, byddwn yn gwneud hynny'n gyflym ac yn effeithiol.
- Bydd Ofcom yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio tuag at amcan polisi cyhoeddus na all marchnadoedd ei chyflawni ar eu pennau'u hunain.

**Sut rydym ni'n rheoleiddio**

- Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol o gyflawni ein hamcanion polisi.
- Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ein hymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran y trafodaethau a'r canlyniad.
- Bydd Ofcom yn rheoleiddio drwy gyfrwng cynllun blynyddol clir, a adolygir gan y cyhoedd, ag ynddo amcanion polisi dynodedig.

**Sut rydym ni'n cefnogi rheoleiddio**

- Bydd Ofcom yn ymchwilio'n gyson i farchnadoedd a bydd yn anelu at fod ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol.
- Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang gyda'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddiol cyn gosod rheoliadau ar farchnad.

2.6 Mae ein gogwydd tuag at beidio ag ymyrryd yn ceisio sicrhau nad ydym ond yn rheoleiddio lle mae hynny'n gwbl angenrheidiol. Gallai ymyrryd o'r fath ystumio neu lesteirio datblygiad marchnadoedd cystadleuol sy'n newid yn gyflym. Ond, lle mae angen ymyrryd, byddwn yn gwneud hynny'n gyflym ac yn gadarn. Er enghraifft, gallai pwysau economaidd ehangach gynyddu'r perygl o ddefnyddwyr yn dod yn destun sgamiau.

2.7 Mae'n rhaid i ni sicrhau bod rheoleiddio'n helpu yn hytrach nag yn rhwystro datblygiad marchnadoedd. I wneud hyn, ein hegwyddor yw defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol sy'n briodol i'r sefyllfa fel y gwnaethom, er enghraifft, yn ein gwaith diweddar mewn perthynas â hwyluso côd ymarfer oedd yn cael ei arwain gan y diwydiant ynglŷn â chyflymderau band eang a hysbysebir.

2.8 Rydym wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. I wneud hyn, mae'n rhaid i ni ddeall agweddau defnyddwyr, a byddwn yn cyflawni hyn drwy gyfrwng rhaglen gynhwysfawr o ymchwil marchnad, a deall datblygiadau yn y farchnad, a byddwn yn gwneud hyn drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad.

2.9 Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ymgynghori â'n holl randdeiliaid amrywiol, yn anffurfiol wrth i opsiynau polisi gael eu pennu a'u mireinio, ac yn ffurfiol drwy gyhoeddi dogfennau ymgynghori.

2.10 Mae cynnal asesiadau o effaith yn helpu i sicrhau ein bod yn dilyn arferion da wrth wneud penderfyniadau polisi. Mae asesiad o effaith yn golygu bod yn glir am y mater y mae angen rhoi sylw iddo, nodi ystod o opsiynau polisi a dadansoddi effeithiau pob

un. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cyfnod o newid cyflym yn y sector a'r economi ehangach.

2.11 Pan ffurfiwyd Ofcom, un o'r prif ddyletswyddau a roddwyd i ni gan y Senedd oedd hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, ac mae hynny'n golygu ei bod yn arbennig o bwysig ein bod yn deall sut y mae ein penderfyniadau'n effeithio ar y grwpiau hyn. Fel defnyddwyr, rydym yn cymryd rhan yn y farchnad, trwy brynu neu ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau. Fel dinasyddion, nid ein buddiannau unigol cul ni sy'n bwysig i ni, ond beth sydd orau i'r gymdeithas.

2.12 Weithiau gall buddiannau dinasyddion fod yn groes i fuddiannau o leiaf rhai defnyddwyr unigol. Er enghraifft, ychydig iawn o bobl sy'n gwylio'r holl fathau o raglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus sydd ar gael. Ac eto, mae'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod rhai mathau o raglenni – megis rhaglenni plant neu newyddion rhanbarthol – er budd pob dinesydd, er nad ydynt yn gwylio'r rhaglenni hynny eu hunain.

2.13 Felly, wrth wneud penderfyniadau polisi, mae'n bwysig ein bod yn nodi buddiannau dinasyddion a buddiannau defnyddwyr hefyd. Gallwn wedyn ddeall y cyfaddawdu sydd ynghlwm wrth ein penderfyniadau'n aml. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i ni ymateb i farchnadoedd sy'n cydgyfeirio ac sy'n mynd yn fwyfwy cystadleuol. Er enghraifft, ni fydd yr holl wasanaethau newydd ar gael i bawb. Gall hyn olygu bod effaith cydgyfeirio'n anwastad ar draws grwpiau gwahanol o ddinasyddion neu ddefnyddwyr. Yn yr achos hwn, byddai angen i ni weithio gyda'r llywodraeth i bennu pa wasanaethau, ym marn cymdeithas, ddylai fod ar gael yn fwy eang, gan gofio y gallai hyn arwain at rai defnyddwyr yn gorfod talu mwy am y gwasanaethau hynny. Bydd hefyd angen i ni sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau statudol sy'n golygu bod yn rhaid i ni hyrwyddo cydraddoldeb rhwng pobl o wahanol hil a rhyw a rhwng pobl ag anableddau a phobl gorfforol abl.

2.14 Mae proses gynllunio flynyddol Ofcom yn ceisio pennu ein rhaglen waith yn y dyfodol gan gadw'r agwedd hon tuag at reoleiddio mewn cof. Mae cynllun blynyddol y llynedd fwy neu lai ar y trywydd iawn, gyda chynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn nifer o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mynediad cenhedlaeth nesaf, teledu talu a rheoleiddio telegyfathrebiadau sefydlog. Mae nifer o feysydd gwaith o bwys eraill hefyd wedi'u cyflawni'n llwyddiannus, gan gynnwys ein gwaith yn hyrwyddo ymddiriedaeth yn y maes darlledu, sydd yn awr yn cael ei symud ymlaen gan y diwydiant.

## Mae ein fframwaith strategol yn pennu amcanion allweddol ein gwaith

2.15 Yng nghynllun y llynedd, gwnaethom nodi sut y mae cydgyfeiriant wedi siapio esblygiad y sector cyfathrebu: mae'r nifer sy'n defnyddio technolegau digidol yn dal i dyfu, mae gwasanaethau cydgyfeiriol bellach ar gael ar draws ystod eang o ddyfeisiau ac mae tueddiadau defnyddio'n awgrymu rhagor o reolaeth a chyfranogiad[4].

2.16 Mae cydgyfeiriant yn dod â heriau a chyfleoedd yn ei sgil, ond nod Ofcom yw cael y manteision gorau posibl ohono. I'r diben hwn, aethom ati i gynllunio fframwaith strategol tair blynedd yn 2006 oedd yn siapio cyfeiriad polisi Ofcom drwy ganolbwyntio ar bum prif faes:

[4] Gellir gweld trafodaeth ar y rhain a thueddiadau diweddar eraill yn y sector cyfathrebu yn yr adroddiad *UK Communications Market Report 2008*, http://www.ofcom.org.uk/research/cm/cmr08/

- ysgogi dull gweithredu seiliedig-ar-y-farchnad ar gyfer sbectrwm;
- hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesed mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio;
- sicrhau y cyflawnir amcanion budd y cyhoedd;
- grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfiad rheoleiddiol lle bo angen; a
- cefnogi datblygiad fframweithiau cyfreithiol ac economaidd ar gyfer rheoleiddio'r gwasanaethau cyfathrebu.


2.17 Yn ychwanegol i'r pum maes hyn, mae rhai themâu'n torri ar draws ein holl waith:

- lleihau rheoleiddio a beichiau gweinyddol; a
- hyrwyddo i'r eithaf ein heffaith ar ddatblygu polisi rhyngwladol, i gynrychioli orau gallwn fuddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU.

2.18 Am y tro cyntaf eleni, rydym yn bwriadu cyflwyno trydedd thema, i adlewyrchu'r ffaith y bydd angen i ni ddechrau paratoi fframwaith strategol newydd ar gyfer Ofcom o 2010 ymlaen. Bydd angen ystyried adolygiad Prydain Ddigidol y Llywodraeth yn ofalus wrth i ni feddwl sut y bydd rôl Ofcom yn esblygu a sut, yn strategol, y dylai Ofcom roi sylw i faterion allweddol y sector cyfathrebu o 2010 ymlaen.

2.19 Mae rhaglen waith Ofcom ar gyfer 2009/2010 yn canolbwyntio ar bedwar o bum maes allweddol y fframwaith strategol. Bydd gwaith a fyddai'n flaenorol wedi dod dan y thema '*datblygu fframweithiau ar gyfer rheoleiddio*' yn cael ei gynnwys yn y gwaith paratoi ar gyfer ein fframwaith strategol newydd a'n gwaith ar ymgysylltu â pholisi rhyngwladol.

## Ffigur 3: Fframwaith strategol presennol Ofcom



2.20 Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym wedi bod yn pwyso a mesur pa mor berthnasol yw ein fframwaith tair blynedd o gofio’r newidiadau parhaus sy'n digwydd yn y farchnad. Yn sgil ein dadansoddiad, daethom i’r casgliad fod y fframwaith yn dal i fod yn hynod berthnasol i'r gwaith o gyflawni amcan Ofcom i sicrhau ein bod yn manteisio i’r eithaf ar yr hyn sydd gan gydgyfeiriant i’w gynnig. Ar y cyfan, roedd ymatebion ein rhanddeiliaid i’r ymgynghoriad ar ein Cynllun Blynyddol Drafft yn cefnogi’r casgliad hwn.

2.21 Yn yr adran sy’n dilyn, ceir crynodeb o'r prif ddatblygiadau o dan bob un o bedair prif elfen y fframwaith y byddwn yn canolbwyntio arnynt eleni, a’r ffyrdd y mae'r rhain yn effeithio ar ein dull gweithredu strategol a'n rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Mae sbectrwm yn dal i fod yn adnodd allweddol ar gyfer y DU, a byddwn yn gyrru ein rhaglen rhyddfrydoli yn ei blaen**

2.22 Mae pwysigrwydd gwasanaethau a llwyfannau diwifr i ddefnyddwyr a diwydiant wedi bod yn thema allweddol ers creu Ofcom. Dengys tystiolaeth fod y galw am wasanaethau diwifr hen a newydd yn dal i dyfu. Mae’r defnydd o deledu digidol wedi cyrraedd 88%, ac yn awr y mae’r rhagolygon yn addawol iawn o safbwynt darparu teledu manylder uwch (HDTV) ar amrywiaeth o lwyfannau, gan gynnwys teledu daearol digidol (DTT) a lloeren. Mae gwasanaethau symudol yn fwy poblogaidd nag erioed: mae mwy o bobl wedi manteisio ar wasanaethau symudol na sydd wedi dewis llinellau sefydlog, ac mae dulliau newydd o ddefnyddio’r sbectrwm hwn, megis band eang symudol, yn cynyddu.

2.23 Mae cyflymder arloesi mewn gwasanaethau a llwyfannau diwifr yn golygu bod nifer y ffyrdd y gellir defnyddio'r un tonfeddi awyr (neu sbectrwm) yn tyfu. Mae sbectrwm yn adnodd allweddol ar gyfer cymdeithas ac economi'r DU ac, yn gyffredinol, teimlwn mai dull gweithredu seiliedig-ar-y-farchnad o reoli sbectrwm yw’r ffordd fwyaf addas o sicrhau y defnyddir yr adnodd hwn yn y ffordd orau.

2.24 Yn 2005, cyflwynasom raglen o ryddhau sbectrwm a rhyddfrydoli oedd yn caniatáu masnachu sbectrwm fel rhan o’n Hadolygiad o Fframwaith Sbectrwm[5]. Rydym yn awr ar gam olaf gweithredu’r rhaglen hon. Cynhaliwyd deuddeng arwerthiant sbectrwm yn y DU erbyn hyn, naw ohonynt gennym ni ers 2006.

2.25 Yn ystod 2008, penderfynasom gychwyn ar y broses o ddyfarnu’r band 2.6 GHz, sbectrwm nad yw’n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, ac sy’n bwysig ar gyfer datblygu rhagor ar wasanaethau band eang diwifr. Fodd bynnag, nid yw’r dyfarniad wedi’i roi eto oherwydd heriau cyfreithiol. Band sbectrwm hanfodol arall ar gyfer cyflwyno gwasanaethau diwifr newydd neu well yw’r difidend digidol, y sbectrwm a fydd ar gael ar ôl trosglwyddo i'r digidol, ac rydym yn bwrw ‘mlaen â’r gwaith o ryddhau'r band hwn. Rydym hefyd yn bwriadu gwneud rhagor o waith yng nghyswllt masnachu sbectrwm a rhyddfrydoli.

2.26 Rydym yn cydlynu ein gwaith ar ryddfrydoli’r sbectrwm a ddefnyddir eisoes gan wasanaethau symudol yn y bandiau 900 a 1,800 MHz â Phrydain Ddigidol. Mae’r llywodraeth wedi nodi[6] pa mor bwysig ydyw bod y mater hwn yn cael ei ddatrys ar fyrder a rhoddodd tan ddiwedd mis Ebrill 2009 i'r diwydiant gytuno ar set o werthiannau sbectrwm. Rydym wedi cyhoeddi ymgynghoriad[7] yn ddiweddar sy’n

[5] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/sfr/sfr/
[6] Fel y nodir yn yr Adroddiad Interim ar Brydain Ddigidol: http://www.culture.gov.uk/images/publications/digital_britain_interimreportjan09.pdf
[7] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/spectrumlib/

nodi cynigion Ofcom parthed sut beth fyddai ateb rheoleiddiol gorfodol, pe bai'r diwydiant yn methu cytuno ar ffordd dderbyniol o symud ymlaen erbyn diwedd Ebrill 2009.

**Mae hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd yn dal yn ganolog i sicrhau manteision i ddefnyddwyr**

2.27 Mae hyrwyddo cystadleuaeth yn rhan bwysig o waith Ofcom yng nghyswllt cyflwyno manteision cydgyfeiriant i holl ddinasyddion a defnyddwyr y DU. Mae datblygiadau yn y farchnad dros y flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu manteision cystadleuaeth yn y sector cyfathrebu. Mae gwariant cartrefi ar wasanaethau cyfathrebu wedi bod yn gostwng mewn termau real ers 2004, tra bo'r niferoedd sy'n eu derbyn ac yn eu defnyddio yn dal i dyfu.

2.28 Mae hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol, nid yn unig i ddefnyddwyr, ond hefyd i gwsmeriaid busnes. Er enghraifft, mae agor y seilwaith i ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu eraill a buddsoddi mewn LLU (Dadfwndelu Dolenni Lleol -Local Loop Unbundling) wedi cynyddu argaeledd band eang a dewis, i ddefnyddwyr a busnesau, mewn rhannau helaeth o'r DU. Ond mae anghenion busnesau a chwsmeriaid preswyl yn gallu amrywio'n fawr, ac mae'n bwysig ein bod yn mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar y ddau grŵp. Oherwydd hyn, bwriadwn ymgymryd â meysydd gwaith newydd a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar ein defnyddwyr busnes.

2.29 Yn y maes darlledu, mae llawer o'r prif gyfranogwyr wedi lansio gwasanaethau ar lwyfannau newydd: mae gwasanaethau dal i fyny â rhaglenni teledu ar-lein yn dod yn boblogaidd iawn, ac mae'r BBC ac ITV hefyd wedi lansio Freesat, gwasanaeth lloeren darlledu-am-ddim sy'n cynnig sianeli teledu manylder uwch (HDTV). Rydym wedi dechrau aildrefnu amlblecsau Teledu Daearol Digidol (DTT) a fydd yn gadael i wylwyr gael sianeli teledu manylder uwch ar Freeview hefyd. Mae'r heriau a nodwyd gennym yn y farchnad teledu talu y llynedd yn dal i fod yn berthnasol, ac yn awr mae Ofcom yn ystyried a ddylem barhau â'r cynigion a nodwyd gennym yn y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Medi 2008.

2.30 Wrth i ddarlledwyr ehangu'u gwasanaethau ar amrywiaeth o lwyfannau digidol, gall cwmnïau telegyfathrebiadau ddefnyddio technolegau band eang sefydlog a diwifr newydd i gyflwyno cymwysiadau arloesol. Yn y misoedd diwethaf, cyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn band eang cyflym iawn. Mae BT yn gobeithio cyflwyno mynediad cenhedlaeth nesaf[8] i ryw 10 miliwn o gartrefi yn y DU erbyn 2012, ac mae Virgin Media eisoes wedi dechrau cynnig 50Mbps i'w gwsmeriaid cebl. Mae cwmnïau sy'n newydd i'r farchnad hefyd yn targedu rhannau arbennig ac mae nifer o awdurdodau lleol a chymunedau yn dangos mwy a mwy o ddiddordeb mewn darparu band eang cyflym iawn ar gyfer eu hardaloedd.

2.31 Wrth i ni symud tuag at newid i rwydweithiau ffibr newydd a'r defnydd effeithiol ohonynt, mae'n bwysig fod Ofcom yn ymdrechu i roi fframwaith rheoleiddio NGA a luniwyd yn ddiweddar ar waith, er mwyn sicrhau y gall defnyddwyr barhau i fwynhau manteision cystadleuaeth, arloesedd a dewis. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae Ofcom wedi ymrwymo o hyd i gyflwyno cywerthedd yn llawn ym maes telegyfathrebiadau, lle mae'n rhaid i BT gynnig mynediad llawn i ddarparwyr eraill at

[8] Term cyffredinol yw 'mynediad cenhedlaeth nesaf' sy'n cyfeirio at y technolegau telegyfathrebu amrywiol sy'n gallu darparu band eang cyflym iawn. Yn achos BT, mae cyflwyno mynediad cenhedlaeth nesaf yn golygu cyfnewid gwifrau copr am geblau ffibr optig sy'n gallu darparu band eang yn gyflymach.

ei rwydweithiau ar sail gyfartal. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn ymateb i'r heriau newydd o ran cyflwyno cywerthedd effeithiol o ganlyniad i'r trawsnewid i rwydweithiau ffibr newydd.

2.32 Y sector symudol yw'r farchnad fwyaf a reoleiddir gan Ofcom, sy'n rhoi cyfrif am dros chwarter o'r holl refeniw cyfathrebu manwerthol. Ar hyn o bryd mae 40% o'r holl funudau llais yn alwadau symudol ac mae lefel SMS (negeseuon testun) yn dal i dyfu'n gyflym. Ochr yn ochr â'r twf parhaus mewn gwasanaethau symudol traddodiadol, mae donglau band eang symudol wedi gweld twf uchel iawn yn y flwyddyn a aeth heibio.

2.33 Er bod y sector yn tyfu ac yn arloesi, amlygodd y ddogfen gyntaf a gyhoeddwyd gennym fel rhan o'n Hasesiad o'r Sector Symudol[9] rai meysydd pryder yng nghyswllt diogelu defnyddwyr, derbyniad gwael mewn rhai ardaloedd yng Ngwledydd y DU ac allgau cymdeithasol. Yn ystod 2009/10 byddwn yn edrych ar y rhain a materion tymor hwy eraill sy'n gysylltiedig â datblygu rheoleiddio yn y sector symudol, gan gynnwys ffioedd am derfynu gwasanaeth symudol.

**Mae cyflenwi amcanion budd y cyhoedd yn dal yn hanfodol yn y sectorau cyfathrebu sy'n cydgyfeirio.**

2.34 Mae agweddau pobl at dechnoleg cyfathrebu a'u defnydd ohoni yn dod yn fwyfwy amrywiol. Mewn rhai ffyrdd, mae'n haws sicrhau canlyniadau ar gyfer y cyhoedd oherwydd mwy o gystadleuaeth a dewis. Mewn ffyrdd eraill, mae'r modelau cyfredol ar gyfer cyflenwi budd y cyhoedd yn wynebu heriau difrifol. Enghreifftiau o hyn yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus a dyletswyddau gwasanaeth i bawb (USO).

2.35 Mae ein Hadolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus wedi amlygu llawer o'r materion hyn - gan gynnwys economeg heriol rhaglenni teledu i blant, darparu newyddion rhanbarthol a'r pwysau ariannol ehangach a wynebir gan Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus Masnachol.

2.36 Mae'r sector radio hefyd yn wynebu anawsterau sylweddol a ddaw yn sgil amodau economaidd llym a thechnolegau sy'n newid. Yn benodol, mae economeg DAB yn dal yn llawn her i'r rhai sy'n gweithredu ar y llwyfan hwn. Mae'r Gweithgor Radio Digidol a'r adolygiad Prydain Ddigidol wedi gwneud argymhellion cychwynnol am ddyfodol radio digidol, a dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i gefnogi'r gweithgareddau hyn.

2.37 Mae Ofcom yn cael mwy a mwy o geisiadau am gymorth gyda'r gwaith o sicrhau bod materion budd y cyhoedd yn cael lle yn y cyfryngau ar-lein. Un enghraifft o hyn yw pan ymatebon ni i wahoddiad gan y diwydiannau cerddoriaeth, ffilm a darparu gwasanaeth rhyngrwyd i gefnogi eu trafodaethau ar gamau i'w cymryd i fynd i'r afael â rhannu ffeiliau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr anghyfreithlon. Wrth gyflawni gweithgareddau o'r fath mae gan Ofcom rôl i'w chwarae o hyd o ran sicrhau bod buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn cael eu hadlewyrchu'n effeithiol yn unrhyw benderfyniad y mae'n rhaid i ni ei wneud.

2.38 Gyda datblygiadau mewn technolegau digidol o ran niferoedd ac argaeledd, mae materion sy'n ymwneud â mynediad a chynhwysiant yn dal yn hollbwysig ar draws y sector cyfathrebu ac yn ein gwaith polisi. Er enghraifft, mae gwahaniaethau yn y niferoedd sy'n derbyn gwasanaethau cyfathrebu a'r defnydd ohonynt rhwng rhai grwpiau penodol yn y boblogaeth, sy'n codi rhagor o bryderon ynghylch cynhwysiant

[9] *Mobile citizens, mobile consumers* - http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/msa08/

digidol. Mae defnyddwyr hŷn, yn ogystal â phobl anabl a rhai ar incymau is, yn aml ar ôl gweddill cymdeithas yng nghyswllt derbyn gwasanaethau newydd. Rydym yn sylweddoli bod gwelliannau mewn cynhwysiant digidol o fudd i unigolion ac i'r gymdeithas i gyd.

2.39 Mae bylchau hefyd o ran derbyniad gwasanaethau symudol mewn sawl rhan o'r DU; mae rhai ardaloedd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn arbennig yn teimlo effeithiau'r problemau sy'n deillio o hyn. Mae heriau hefyd o ran argaeledd llwyfannau newydd, megis technoleg band eang cyflym iawn, a fydd yn bell o fod ar gael i bawb yn y tymor byr, a sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer gwasanaeth i bawb.

2.40 Yn ystod 2009/10, bwriadwn roi sylw i broblemau argaeledd daearyddol a'r niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaethau, a hyrwyddo'r defnydd effeithiol o wasanaethau a thechnolegau trwy wella llythrennedd yn y cyfryngau.

### Mae cydymffurfiad a grymuso defnyddwyr mor bwysig ag erioed mewn cyfnod o amodau economaidd llym

2.41 Mae cydymffurfiad a grymuso defnyddwyr mor bwysig ag erioed mewn cyfnod o amodau economaidd llym. Mae'n annhebygol y bydd sector cyfathrebu'r DU yn cael ei warchod rhag y pwysau economaidd sylweddol a deimlir ar hyn o bryd ar raddfa fyd eang. Gall hinsawdd o ansefydlogrwydd ac ansicrwydd sbarduno cymhellion i gamymddwyn gyda'r nod o fanteisio'n annheg ar ddefnyddwyr anwybodus. Felly, mae'n bwysig iawn sicrhau bod mesurau effeithlon ar waith i roi sylw i unrhyw arferion ar ran darparwyr gwasanaethau a allai beri niwed neu golled i ddefnyddwyr.

2.42 Mewn marchnad lle mae nifer y cynigion newydd yn tyfu'n gyson a lle mae cynigion gwasanaeth yn fwyfwy cymhleth, mae angen i ni sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus ac yn gallu symud yn hawdd rhwng gwasanaethau. Ym maes gwasanaethau telegyfathrebu, mae nifer y defnyddwyr sy'n newid darparwyr yn cynyddu, ond mae'n dal yn cynrychioli lleiafrif o'r holl ddefnyddwyr. Ar ben hyn, ceir rhwystrau gwahanol i newid darparwr mewn rhannau gwahanol o'r sector. Serch hynny, mae gwelliannau wedi bod yn lefel ymwybyddiaeth defnyddwyr ac yn y nifer sy'n symud rhwng gwasanaethau, ac mae'n rhaid i ni sicrhau y bydd hyn yn parhau.

2.43 Mae angen inni hefyd ganolbwyntio mwy ar lythrennedd yn y cyfryngau. Fel yr oedd adroddiad interim Prydain Ddigidol yn pwysleisio, bydd gan gymdeithas sy'n llythrennog yn y cyfryngau'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i wneud defnydd llawn o'r cyfleoedd a gynigir gan wasanaethau cyfathrebu newydd a thraddodiadol. Bydd hefyd yn galluogi pobl i ddiogelu'u hunain a'u teuluoedd rhag y peryglon posibl a gyflwynir gan wasanaethau newydd, neu gan ddarparwyr gwasanaeth yn camymddwyn. Mewn ymateb i'r galw am newid sylfaenol ym maes llythrennedd yn y cyfryngau yn adroddiad interim Prydain Ddigidol, rydym wedi sefydlu gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o nifer o sefydliadau i ddechrau ar y gwaith o greu Cynllun Cenedlaethol Llythrennedd yn y Cyfryngau.

### Mae rhai themâu cyffredin yn ymddangos yn yr holl feysydd polisi a ddisgrifir uchod

2.44 Yn ogystal â'r meysydd a drafodwyd uchod, mae ein fframwaith strategol yn cynnwys tri maes ffocws trawsbynciol a fydd yn berthnasol yn 2009/10:

- **Symleiddio rheoleiddio a lleihau beichiau gweinyddol i'r eithaf:** Bydd Ofcom yn parhau â'i ymrwymiad i leihau rheoleiddio a'r beichiau gweinyddol ar y busnesau a reoleiddir gennym er budd dinasyddion a defnyddwyr. Ceisiwn

wneud hyn ym mhob rhan o'n gwaith polisi, gan symleiddio rheolau lle bo angen a chael gwared ag ymyrraeth ddiangen a all lesteirio datblygiad ac arloesedd y farchnad. Gan fod y pwysau economaidd presennol yn debygol o gyflwyno heriau ychwanegol i lawer o'n rhanddeiliaid, mae'n hanfodol fod Ofcom yn lleihau unrhyw feichiau diangen a achosir gan reoleiddio

- **Hyrwyddo i'r eithaf ein heffaith ar ddatblygiadau polisi Ewropeaidd a rhyngwladol ehangach:** mae datblygiadau allanol ehangach dros y blynyddoedd diwethaf wedi dangos bod angen canolbwyntio mwy ar reoleiddio gwasanaethau cyfathrebu a llunio polisïau yn y maes ar lefel ryngwladol. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, rydym wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â sefydliadau'r UE mewn cynlluniau deddfwriaethol amrywiol, megis yr adolygiad o'r Fframwaith Ewropeaidd ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu electronig. Bu cynnydd mewn perthynas â hyn a bydd y cam gweithredu'n cychwyn yn y man. Nodweddir 2009/10 gan lefel debyg o ymgysylltiad rhyngwladol. Mae Ofcom wedi ymrwymo'n ddi-ildio i ddull rheoleiddio sy'n fyd-eang ei agwedd, gan fod llawer o'n rhanddeiliaid bellach yn rhan o weithrediadau rhyngwladol. Oherwydd hyn, byddwn yn parhau i groesawu, a, lle bo'n briodol, rhannu arferion gorau gyda'n cymheiriaid yn rhyngwladol, y tu hwnt i Ewrop.

- **Paratoi fframwaith strategol newydd Ofcom:** wrth i ni gamu i flwyddyn olaf gweithrediad ein fframwaith strategol presennol, rydym yn sylweddoli mai dyma'r amser i ystyried datblygu fframwaith strategol newydd ar gyfer Ofcom, a fydd yn ein galluogi i gynllunio a chanolbwyntio'n hymdrechion yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae'r gwaith hwn ar y gweill a bydd ganddo gyswllt agos â'r gefnogaeth a roddwn i adolygiad Prydain Ddigidol y Llywodraeth.

## Prydain Ddigidol

2.45 Cyfeiriodd nifer o'r rhai a ymatebodd i'n hymgynghoriad at bwysigrwydd adolygiad Prydain Ddigidol y Llywodraeth, a gofyn beth oedd goblygiadau'r adroddiad interim o safbwynt rhaglen waith Ofcom. Mae'r adolygiad hwn, dan arweiniad y Llywodraeth, ac a oruchwylir gan Arglwydd Stephen Carter, y Gweinidog dros Gyfathrebu, Technoleg a Darlledu, wedi'i noddi ar y cyd gan DCMS a BERR.

2.46 Fel rheoleiddiwr annibynnol, cynrychiolir Ofcom ar Fwrdd Llywio Prydain Ddigidol sy'n rhoi mewnbwn i'r adolygiad wrth iddo fynd rhagddo.

2.47 Mae'r adroddiad interim, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2009, yn rhoi'r dasg benodol i ni o gynnal asesiad o'n cyfrifoldebau presennol yng nghyswllt llythrennedd yn y cyfryngau a, gan weithio gyda'r BBC ac eraill, argymell diffiniad ac uchelgais newydd ar gyfer Cynllun Cenedlaethol Llythrennedd y Cyfryngau. Mae mwy o fanylion am y gwaith sydd gennym yn yr arfaeth ym maes llythrennedd yn y cyfryngau ar dudalen 28.

2.48 Byddwn hefyd yn cefnogi'r rhaglen waith ehangach a nodwyd yn yr Adroddiad Interim yn ôl y galw. Yn benodol, pan mae materion yn uniongyrchol gysylltiedig â'n cyfrifoldebau ni, byddwn yn rhoi gwybodaeth am y farchnad a chymorth arall i dîm Prydain Ddigidol. Er enghraifft, mae mynediad cenhedlaeth nesaf, rhannu ffeiliau'n anghyfreithlon a dyletswyddau gwasanaeth i bawb yn berthnasol iawn i'n gwaith ni.

2.49 Rydym yn disgwyl adroddiad terfynol gan Brydain Ddigidol yn hwyrach ymlaen yn y gwanwyn. Unwaith y caiff ei gyhoeddi, byddwn yn mynd ati i roi unrhyw ganfyddiadau neu gasgliadau sy'n effeithio ar ein cyfrifoldebau a'n rhanddeiliaid ar waith yn y modd mwyaf effeithlon posibl.

## Rheoleiddio’r post

2.50 Yn dilyn argymhelliad Adroddiad Hooper i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r sector gwasanaethau post i Ofcom, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â'r Llywodraeth ar y gwaith o baratoi'r Mesur Gwasanaethau Post. Cyflwynwyd y Mesur yn Nhŷ’r Arglwyddi ar 26 Chwefror 2009 ac rydym yn disgwyl cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2009 ac y trosglwyddir pwerau'n ffurfiol o Postcomm i Ofcom ym mis Hydref 2009.

2.51 Yn amodol ar y ddeddfwriaeth, disgwylir y bydd gan Ofcom dri phrif nod o safbwynt gwasanaethau post:

- ein dyletswydd gyffredinol i gyflawni ein swyddogaethau mewn perthynas â’r gwasanaethau post mewn modd fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau y darperir gwasanaeth post o’r un safon i bawb;
- dyletswyddau’n ymwneud â hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, gan gynnwys, lle bo hynny’n briodol, trwy gystadleuaeth; a
- dyletswyddau i hyrwyddo buddsoddi effeithlon a phrisiau fforddiadwy.

## Mae rhaglen waith arfaethedig Ofcom wedi’i chynllunio i ystyried y datblygiadau hyn

2.52 Mae’r datblygiadau a ddisgrifir uchod yn cynnig addewid o fathau newydd o fudd i’r defnyddiwr, a ffyrdd newydd o gael dinasyddion i ymgysylltu mewn cymdeithas. Ond maent hefyd yn cyflwyno nifer o heriau penodol o ran rheoleiddio. Gall heriau ychwanegol godi yn sgil yr ansicrwydd cynyddol ynghylch y rhagolygon economaidd ehangach. Oherwydd y cynnydd sylweddol mewn ansicrwydd economaidd, yn ystod 2009/10 byddwn yn gweithio i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer twf ac arloesedd er budd dinasyddion a defnyddwyr.

2.53 Dengys y dadansoddiad yn yr adran flaenorol bod prif elfennau ein fframwaith strategol presennol yn berthnasol o hyd. O ganlyniad, prif ffocws ein rhaglen waith yn 09/10 fydd parhau â gwaith sydd eisoes ar y gweill, ac, ar yr un pryd, ymateb i'r amodau yn y farchnad sy'n newid.

2.54 Fel y gwelir yn Ffigur 3 ar dudalen 17, yn fras, mae dau fath o weithgareddau, sef:

- **Gweithgareddau sy’n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd:** gweithgareddau yw’r rhain sy’n deillio o brosiectau polisi yn y gorffennol sydd yn awr yn cael eu rhoi ar waith; er enghraifft, gwaith Ofcom ar y newid i'r digidol a hyrwyddo cystadleuaeth ym maes telegyfathrebiadau sefydlog, yn dilyn ein hadolygiad strategol o delethrebiadau. Er bod gwaith datblygu polisi o bwys wedi'i gwblhau mewn rhai achosion, mae ein ffocws ar roi'r polisïau hyn ar waith yn ddidrafferth yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau rheoleiddio.
- **Datblygiadau polisi cyfredol:** mae’r categori hwn yn cynnwys meysydd datblygu polisi yn 2009/10; er enghraifft, ein gwaith yn ymwneud â materion ar-lein megis preifatrwydd a thorri amodau hawlfraint, a materion sy’n wynebu marchnadoedd busnes.

**Ffigur 3: Fframwaith polisi strategol a meysydd gwaith o bwys ar gyfer 2009/10**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Elfennau'r fframwaith** | **Annog dull gweithredu seiliedig-ar-y-farchnad ar gyfer sbectrwm** | **Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio** | **Cyflenwi budd y cyhoedd wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio** | **Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfiad rheoleiddiol lle bo angen** |
| **Gweithredu polisi** | • Rhyddhau sbectrwm, gan gynnwys y Difidend Digidol<br>• Cyflawni nodau sbectrwm rhyngwladol | • Hyrwyddo cystadleuaeth mewn telegyfathrebiadau sefydlog<br>• Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu | • Hyrwyddo mynediad a chynhwysiant<br>• Cefnogi'r Newid i'r Digidol | • Hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau<br>• Datblygu a gorfodi polisïau diogelu'r defnyddwyr<br>• Gorfodi cystadleuaeth a datrys anghydfodau |
| **Datblygu polisi** | • Cefnogi datblygiad rhyddfrydoli a masnachu sbectrwm | • Galluogi rheolaeth glir ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf<br>• Asesu ein dull rheoleiddio yng nghyswllt symudol<br>• Marchnadoedd Busnes | • Paratoi ar gyfer dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus<br>• Cefnogi datblygiad radio<br>• Cefnogi dulliau newydd ar gyfer materion ar-lein | • Hyrwyddo gwybodaeth defnyddwyr a gwella'r drefn newid darparwyr |

**Symleiddio rheoleiddio a lleihau'r beichiau gweinyddol i'r eithaf**

**Hyrwyddo i'r eithaf ein heffaith ar ddatblygiadau polisi Ewropeaidd a Rhyngwladol ehangach**

**Paratoi fframwaith strategol newydd Ofcom**

**Gwella gallu Ofcom i gyflwyno mewn meysydd allweddol hanfodol**

2.55 Mae ein dadansoddiad o ddatblygiadau yn y farchnad yn awgrymu bod sawl maes lle mae cyflawni'n hanfodol yn y tymor byr. Ar yr un pryd, mae cydgyfeiriant yn rhoi heriau i Ofcom y mae angen rhoi sylw iddynt ar draws y bwrdd. I sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i gyflawni ein hymrwymiadau i ddinasyddion a defnyddwyr, rydym wedi edrych ar ein gallu i gynllunio a chanolbwyntio ar y gwaith mwyaf hanfodol.

2.56 Drwy wneud hyn, rydym wedi nodi nifer o flaenoriaethau pwysig yn ein rhaglen waith sy'n allweddol, yn ein barn ni, ar gyfer cyflawni ein hamcanion strategol. Byddwn hefyd yn cadw wrth gefn gyfran o gapasiti Ofcom yn benodol ar gyfer delio gyda materion annisgwyl sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

**Mae nifer o feysydd gwaith yn hanfodol i anghenion hirdymor dinasyddion a defnyddwyr**

2.57 Mae’n hanfodol fod Ofcom yn cyflawni holl feysydd y rhaglen waith er mwyn bodloni ei ddyletswyddau statudol yng nghyswllt dinasyddion a defnyddwyr. Fodd bynnag, o fewn y rhaglen hon, mae nifer o faterion a fydd yn arbennig o bwysig i ddinasyddion, defnyddwyr, ein rhanddeiliaid ac Ofcom yn y flwyddyn i ddod. Y rhain yw elfennau ein gwaith a allai ddarparu’r manteision mwyaf i ddinasyddion a defnyddwyr, y rhai sy’n rhoi sylw i'r risgiau mwyaf o safbwynt dinasyddion a defnyddwyr, a'r meysydd hynny sydd fwyaf sensitif o ran amser.

2.58 Rydym wedi nodi sawl maes blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac fe'u dangosir yn Ffigur 4 isod. Dewiswyd y rhain ar ôl cael mewnbwn gan gyrff cynghori statudol Ofcom sy’n edrych ar elfennau penodol o fuddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

**Ffigur 4: Prif feysydd blaenoriaeth 2009/10**

| Elfennau'r fframwaith | Annog dull gweithredu seiliedig-ar-y-farchnad ar gyfer sbectrwm | Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd sy’n cydgyfeirio | Cyflenwi budd y cyhoedd wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio | Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfiad rheoleiddiol lle bo angen |
|---|---|---|---|---|
| Prif faes blaenoriaeth | • Rhyddhau sbectrwm, gan gynnwys y Difidend Digidol | • Hyrwyddo cystadleuaeth mewn telegyfathrebiadau sefydlog<br>• Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu<br>• Galluogi rheoleath glir ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf<br>• Asesu ein dull rheoleiddio yng nghyswllt symudol | • Hyrwyddo mynediad a chynhwysiant<br>• Paratoi ar gyfer dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus<br>• Cefnogi datblygiad radio | • Hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau<br>• Datblygu a gorfodi polisïau diogelu’r defnyddwyr |

2.59 Bydd Ofcom yn gweithio i sicrhau bod y prif feysydd blaenoriaeth hyn yn derbyn digon o adnoddau i sicrhau bod ein cynlluniau'n cael eu cyflawni. Pan fydd gofynion ychwanegol o ran adnoddau’n codi yn ystod y flwyddyn oherwydd datblygiadau annisgwyl, bydd y meysydd hyn yn cael blaenoriaeth dros feysydd gweithgarwch eraill.

2.60 Serch hynny, nid yw dynodi prif feysydd blaenoriaeth yn golygu nad yw meysydd polisi eraill a gwaith gweithredol arall a bennwyd ar gyfer 2009/10 yn bwysig hefyd.

Mae'r holl feysydd polisi a nodwyd gennym wedi cael eu dynodi yn ystod ein proses gynllunio fel meysydd sy'n allweddol er mwyn i ni gyflawni ein dyletswyddau tuag at ddinasyddion a defnyddwyr. Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod ein cynlluniau yn holl feysydd ein rhaglen waith yn cael eu cyflawni i'r safon uchaf bosibl, ochr yn ochr â sicrhau canlyniadau yn y meysydd hanfodol a nodwyd.

### Mynd i'r afael yn effeithiol â materion newydd sy'n codi yn ystod y flwyddyn

2.61 Mae ein profiad yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi dangos, er bod ein fframwaith strategol yn ein galluogi i bennu meysydd allweddol i roi sylw iddynt yn yr hirdymor, bod cymhlethdod a chyflymder y newid yn y sector cyfathrebu yn golygu bod materion annisgwyl yn siŵr o godi.

2.62 Rydym wedi gorfod addasu ein cynlluniau mewn sawl maes dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd datblygiadau allanol annisgwyl. Mae'r rhain yn cynnwys ein gwaith ar rannu ffeiliau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr anghyfreithlon a chyflymderau band eang.

2.63 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, byddwn yn cadw rhywfaint o gapasiti wrth gefn ar gyfer gwaith annisgwyl, i'n galluogi i ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i unrhyw faterion brys yn ymwneud â dinasyddion a defnyddwyr sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

### Dylai ein dull gweithredu fod yn gyson ar draws ein gwaith polisi

2.64 Yn ogystal â'r meysydd gwaith penodedig hyn, bydd yr egwyddorion isod yn dal yn bwysig gydol ein prosiectau polisi yn 2009/10:

a) **Ystyried y polisi fel y mae'n berthnasol i bob gwlad yn y DU**. Dylanwadir fwyfwy ar waith Ofcom gan oblygiadau newidiadau sefydliadol a gwahaniaethau yn y gwledydd y mae'n rhaid i'n gwaith polisi fod yn sensitif iddynt.

b) **Cydymffurfio â phecyn buddiannau defnyddwyr Ofcom.** Cyflwynwyd hwn gan Banel Defnyddwyr Ofcom yn 2006 fel dull o sicrhau bod Ofcom yn canfod, ac yn rhoi sylw i fuddiannau defnyddwyr wrth ddatblygu a gweithredu polisïau. Mae'n cynnwys cyfres o gwestiynau y dylai pob tîm prosiect polisi mewnol eu gofyn i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i ddefnyddwyr.

c) **Ystyried rhwystrau newydd posibl a allai beri oedi a meysydd pryder o ran rheoleiddio**. Cafodd hwn ei nodi'n flaenorol fel prosiect polisi ar ei ben ei hun yng nghynllun 2008/09, ond cytunwyd gan lawer fod hwn yn nodwedd hanfodol o lawer o'n gwaith polisi.

d) Bydd **Ymgynghori'n agored gyda phaneli a phwyllgorau cynghori Ofcom** ar wahanol adegau yn y broses llunio polisi yn helpu i sicrhau bod ein gwaith polisi'n ystyried nifer o oblygiadau o safbwynt bob Gwlad, pobl hŷn a phobl anabl, a defnyddwyr, gan gynnwys defnyddio sbectrwm yn effeithlon, lle bo'n briodol.

## Adran 3

# Rhaglen waith fanwl

3.1 Mae’r adran hon yn disgrifio:

- y gwaith y bwriadwn ei wneud dan bob un o’r meysydd polisi â blaenoriaeth; a
- trosolwg o’r gweithgareddau sy’n cael eu cynnig dan feysydd gwaith sylweddol eraill, wedi'u grwpio yn ôl prif elfennau ein fframwaith strategol.

## Meysydd polisi â blaenoriaeth yn 2009/10

### Ffigur 5: Prif feysydd blaenoriaeth 2009/10

| Elfennau’r fframwaith | Annog dull gweithredu seiliedig-ar-y-farchnad ar gyfer sbectrwm | Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd sy’n cydgyfeirio | Cyflenwi budd y cyhoedd wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio | Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfiad rheoleiddiol lle bo angen |
|---|---|---|---|---|
| Prif faes blaenoriaeth | • Rhyddhau sbectrwm, gan gynnwys y Difidend Digidol | • Hyrwyddo cystadleuaeth mewn telegyfathrebiadau sefydlog<br>• Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu<br>• Galluogi rheolaeth glir ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf<br>• Asesu ein dull rheoleiddio yng nghyswllt symudol | • Hyrwyddo mynediad a chynhwysiant<br>• Paratoi ar gyfer dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus<br>• Cefnogi datblygiad radio | • Hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau<br>• Datblygu a gorfodi polisïau diogelu’r defnyddwyr |

### Rhyddhau sbectrwm, gan gynnwys y difidend digidol

3.2 Rhyddhau sbectrwm ar gyfer defnyddiau newydd yn y farchnad yw un o'r ffyrdd pwysicaf y gallwn helpu i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Sbectrwm yw’r adnodd anweledig allweddol ar gyfer pob math o gyfathrebu diwifr ac mae'n hanfodol ar gyfer datblygu arloesedd a chystadleuaeth mewn sectorau megis darlledu a chyfathrebu symudol.

3.3 Rydym wedi rhoi blaenoriaeth i ddatblygu a gweithredu ein strategaeth sbectrwm ers i Ofcom gael ei greu. Cynhaliwyd deuddeng arwerthiant sbectrwm yn y DU erbyn hyn, naw ohonynt gennym ni ers 2006. Gan edrych ymlaen, mae dau fand sbectrwm hollbwysig naill ai’n barod i'w rhyddhau neu wedi mynd yn bell iawn ar hyd y ffordd i gael eu rhyddhau.

3.4 Y cyntaf o’r rhain yw’r band 2.6 GHz. Mae hwn yn cynnwys oddeutu 205 MHz o sbectrwm safon uchel rhwng 2500-2690 MHz a 2010-2025 MHz. Mae’r sbectrwm hwn yn bwysig ar gyfer y genhedlaeth nesaf o dechnolegau band eang symudol, oherwydd ei fod yn cynnwys llawer o sbectrwm symudol ac yn creu cyfle allweddol i gyflwyno technolegau newydd gyda lledau band uchel megis Esblygiad Tymor Hir (Long Term Evolution) neu LTE a WiMAX. Mae’r olaf eisoes yn cael ei ddefnyddio yn yr Unol Daleithiau ac mewn rhai marchnadoedd eraill. Mae’r sbectrwm hwn hefyd yn

cynnig y posibilrwydd o fynediad newydd i’r farchnad cyfathrebiadau symudol. Roedd y band 2.6GHZ i’w ddyfarnu yn 2008, ond mae oedi wedi bod gyda'r dyfarnu oherwydd heriau cyfreithiol sydd wedi cael eu cyflwyno gan ddau weithredwr symudol sydd mewn bodolaeth ar hyn o bryd. Bydd amser dechrau’r dyfarniadau, pan fyddwn yn gwahodd ceisiadau, yn dibynnu ar ganlyniad y cyfreithiad hwn. Does fawr ddim defnydd o'r sbectrwm ar hyn o bryd ac mae ar gael ar gyfer defnyddiau masnachol a defnyddwyr newydd yn y DU yn awr.

3.5 Yr ail fand yw’r difidend digidol. Hwn yw’r sbectrwm a fydd yn cael ei ryddhau ar ôl y newid i'r digidol, a fydd yn dod i ben yn 2012. Bydd dau fath gwahanol o sbectrwm yn cael eu rhyddhau fel rhan o'r difidend digidol. Un o'r rhain yw’r sbectrwm a fydd yn cael ei glirio ar draws y DU erbyn diwedd 2012, yn bennaf oherwydd y newid i'r digidol: cyfanswm o 128 MHz. Yr ail yw’r bandiau a fydd ar gael o fewn y 256 MHz o sbectrwm a fydd yn cael ei ddefnyddio gan chwech amlblecs teledu daearol digidol a fydd yn gweithredu adeg y newid i’r digidol: Cyfeirir at hwn fel y sbectrwm rhyngddalennog, neu ofod gwyn.

3.6 Cyflwynasom ein strategaeth ar gyfer rhyddhau’r difidend digidol ddiwedd 2007, ac rydym yn awr ar ganol ei rhoi ar waith. Rydym wedi cynnig bod y sbectrwm yn cael ei ryddhau cyn gynted ag y bo modd, gyda rhaglen o ddyfarniadau a ddechreuodd yn gynharach eleni ar ffurf arwerthiant oedd yn cynnig dau becyn sbectrwm rhyngddalennog oedd yn addas ar gyfer teledu lleol yn ardaloedd Manceinion a Chaerdydd. Bydd rhyddhau'r difidend digidol yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol allweddol ar gyfer Ofcom, i’w gyrru ymlaen yn ystod 2009-10, yn arbennig o gofio ein cynigion i gysoni rhan o’r sbectrwm gyda’r difidendau digidol sy’n dod i'r amlwg fwy a mwy mewn gwledydd eraill yn Ewrop.

3.7 Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith ar fandiau sbectrwm eraill y gellir eu rhyddhau ar gyfer defnyddiau newydd. Mae hwn yn cynnwys rhai bandiau llai lle rydym yn paratoi cynigion manwl, yn benodol y band 872-876/917-921 MHz. Byddwn hefyd yn gweithio’n agos gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gefnogi ei chynlluniau i ryddhau sbectrwm sy’n cael ei ddefnyddio gan y Weinyddiaeth ar hyn o bryd, gan gynnwys sbectrwm yn y band 3.4-3.6 GHz pwysig. Mae gwaith eisoes ar y gweill o ran archwilio’r opsiynau ar gyfer bandiau mawr eraill sy'n cael eu rheoli gan y sector cyhoeddus, megis 2.7-3.1 GHz. Yn 2009, rydym hefyd yn disgwyl canlyniad y broses Ewropeaidd sydd bellach ar waith parthed dyfarnu sbectrwm ar gyfer rhwydweithiau daearol a lloeren newydd yn y bandiau 2 GHz, nesaf at yr amleddau a werthwyd gan y Llywodraeth ar gyfer 3G yn 2000.

### Hyrwyddo cystadleuaeth mewn telegyfathrebiadau sefydlog

3.8 Mae egwyddorion cywerthedd a gwahanu swyddogaethol yn hanfodol er mwyn sicrhau cystadleuaeth effeithiol lle mae rhwystrau parhaus yn y farchnad telegyfathrebiadau sefydlog. Mae dros dair blynedd wedi mynd heibio ers y daeth Ymrwymiadau BT i rym ac mae llawer wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod hwnnw. Serch hynny, mae rhai cerrig milltir pwysig yng nghyswllt yr Ymrwymiadau i’w cyflawni eto. Ar ben hynny, bydd datblygiad rhwydweithiau mynediad a chraidd cenhedlaeth nesaf yn cyflwyno nifer o heriau newydd, a allai gael effaith ar weithrediad ymarferol cywerthedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda phob parti i hyrwyddo cystadleuaeth deg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau mynediad i’r cynnyrch rhwydweithiau mynediad a chraidd cenhedlaeth nesaf sydd eu hangen ar weithredwyr i ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr terfynol.

3.9 Yn 2009/10 byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

1) Sicrhau bod BT Group plc yn gweithredu'i Ymrwymiadau'n effeithiol drwy:

   - fonitro cynlluniau defnyddio rhwydweithiau mynediad a chraidd cenhedlaeth nesaf BT i sicrhau nad yw'r datblygiadau hyn yn atal cyflwyno ymrwymiadau'n effeithiol o ran mynediad i rwydweithiau a chywerthedd cynnyrch;

   - monitro cynnydd BT yn erbyn y cerrig milltir a gytunwyd ar gyfer gwahanu systemau gweithredol; ac

   - adolygu effeithiolrwydd Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Gwarantau Lefel Gwasanaeth Openreach a ddaeth i rym yn ystod haf 2008 a oedd yn ceisio sicrhau bod cymhellion Openreach yn fwy cydnaws â chyflenwi gwasanaethau o safon uchel.

2) Cwblhau ein gwaith ar fframwaith prisio newydd Openreach. Bydd hyn yn pennu trefniadau rheoli taliadau diwygiedig ar gyfer y cynnyrch mynediad rheoledig allweddol mae Openreach yn eu cyflenwi, gan gynnwys cynnyrch Dadfwndelu Dolenni Lleol a Rhentu Llinell Gyfanwerthol Yn eu tro, bydd gan y cynnyrch rheoledig hwn rôl allweddol i'w chwarae yng nghyswllt ategu cystadleuaeth mewn marchnadoedd llais a band eang.

3) Cwblhau ein gwaith ar y drefn rheoli taliadau llinellau ar brydles, a fydd yn gosod capiau ar brisiau rhyngwyneb cyfanwerthu traddodiadol BT a gwasanaethau llinellau ar brydles trwy'r Ether-rwyd ar gyfer y 4 blynedd nesaf, yn y marchnadoedd lle mae gan y gwasanaeth SMP. Ymysg pethau eraill, bydd y trefniadau rheoli hyn yn helpu i sicrhau bod cost cylchedau ôl-gludo yn mynd i lawr, yn sgil buddsoddiad BT mewn technoleg WDM mwy effeithiol. Rhagwelwn y bydd gan y gwaith hwn rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi datblygiad gwasanaethau band eang lled band uwch, yng nghyswllt marchnadoedd sefydlog a symudol.

4) Hyrwyddo cystadleuaeth yn y marchnadoedd band cul (llais) manwerthu a chyfanwerthu a fydd yn cynnwys cwblhau'r adolygiadau marchnad perthnasol a'r adolygiad o'r drefn rheoli taliadau rhwydwaith. Ymysg pethau eraill, bydd hyn yn cynnwys ystyried i ba raddau erbyn hyn y gellir cyfnewid gwasanaethau teleffoni sefydlog a symudol am ei gilydd, a'r ffordd orau i drin trosglwyddiad arfaethedig BT i'w Rwydwaith 21C newydd.

5) Monitro effaith ein polisïau newydd yn y marchnadoedd cysylltedd busnes a band eang cyfanwerthol. Cwblhawyd adolygiadau o'r farchnad mewn perthynas â'r marchnadoedd hyn yn ystod 2008, felly nid ydym yn bwriadu ymgymryd ag unrhyw fentrau newydd mawr yn y 12 mis nesaf. Serch hynny, byddwn yn cadw golwg barcud ar esblygiad y marchnadoedd hyn.

6) Datblygu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf, fel y nodir isod.

**Galluogi rheolaeth glir ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf**

3.10 Mae band eang cyflym iawn yn prysur ddod yn rhywbeth go iawn yn y DU. Lansiodd Virgin Media gynnyrch band eang 50 Mbps ym mis Rhagfyr 2008, cadarnhaodd BT ei gynlluniau i gyflenwi mynediad cenhedlaeth nesaf i oddeutu 10 miliwn o aelwydydd yn y DU erbyn 2012 ac mae sawl cwmni newydd yn y maes wedi cyhoeddi cynlluniau manwl ar gyfer cyflenwi rhwydweithiau mynediad cenhedlaeth nesaf, er eu bod i gyd â chwmpas daearyddol ac amserlenni gwahanol. Yn y 12 mis diwethaf, rydym hefyd

wedi gweld newid sylweddol yn niddordeb awdurdodau lleol a chymunedau mewn darparu band eang cyflym iawn yn eu hardaloedd. Ar ddechrau 2009, roedd mwy na 30 prosiect lleol ar waith yn y DU1011, er bod y mwyafrif ohonynt yn dal ar y camau cyntaf.

3.11 Ar 3 Mawrth 2009, cyhoeddwyd datganiad gennym ar fand eang cyflym iawn12, ac ynddo yr ydym wedi nodi ein safbwyntiau polisi a'n fframwaith rheoleiddiol. Mae hyn yn galluogi buddsoddi preifat mewn mynediad cenhedlaeth nesaf i fynd rhagddo trwy roi'r sicrwydd y mae rhanddeiliaid ei angen i wneud penderfyniadau masnachol doeth. Trwy gydol y flwyddyn i ddod, bydd Ofcom yn parhau i gymryd rhan mewn materion a chwestiynau mwy manwl fydd yn codi'u pennau ynghyd â datblygiadau pellach yn y farchnad, yn enwedig yng nghyswllt hybu cystadleuaeth gynaliadwy.

3.12 Yn yr un modd, bydd y drafodaeth gyhoeddus ar fand eang a band eang cyflym iawn yn ennill momentwm wrth i'r rhwydweithiau newydd gael eu defnyddio. Byddwn yn parhau i gyfrannu at hyn; er enghraifft, drwy gyfrannu at ddatblygu polisïau cyhoeddus ehangach yng nghyswllt cynlluniau mynediad cenhedlaeth nesaf y Llywodraeth, gan gynnwys parhau i gyfrannu at feysydd gwaith Prydain Ddigidol. Bydd hyn yn cynnwys cadw mewn cysylltiad clos â'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill er mwyn deall cwmpas tebygol buddsoddiad y sector preifat ac ystyried a oes angen cynnwys y sector cyhoeddus er mwyn dod â manteision band eang cyflym iawn i fwy fyth o bobl.

3.13 Hefyd, disgwylir cynnydd sylweddol yn natblygiad rhwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf: mae BT yn bwriadu lansio amrywiaeth o gynnyrch cyfanwerthol cenhedlaeth nesaf fel rhan o'i gynlluniau Rhwydwaith 21ain Ganrif (21CN) ac mae disgwyl hefyd i weithredwyr rhwydweithiau symudol a sefydlog barhau gyda'r broses o symud i dechnolegau cenhedlaeth nesaf.

3.14 Mae'n debyg y bydd y datblygiadau hyn yn ysgogi trafodaeth frwd am reoleiddio cynnyrch 21CN BT, gan gynnwys esboniad ynghylch sut y bydd Cywerthedd Cynnyrch (EOI) yn cael ei gymhwyso, y goblygiadau posibl o ran Ymrwymiadau BT a'r cysylltiadau rhwng rheoleiddio rhwydweithiau mynediad a chraidd cenhedlaeth nesaf.

3.15 Mae gweithgareddau penodol Ofcom yn y maes blaenoriaeth hwn yn cynnwys:

- Cefnogi cyflenwadau cynnar o rwydweithiau gyda rheoleiddio hyblyg a phragmatig gan barhau i hyrwyddo cystadleuaeth yr un pryd.
- Rhoi'r cynllun gweithredu a nodwyd yn ein datganiad ar fand eang cyflym iawn ar waith: mae hyn yn cynnwys gweithredu ein penderfyniad ar ôl yr ymgynghoriad ynghylch yr amrywiad Ymrwymiadau arfaethedig sy'n galluogi Openreach i gynnig cynnyrch mynediad cenhedlaeth nesaf EOI Byddwn hefyd yn bwydo penderfyniadau polisi perthnasol i mewn i adolygiadau o'r farchnad sydd yn yr arfaeth, a gweithgareddau datblygu polisi eraill.
- Cyfrannu at ddatblygu syniadau'r Llywodraeth yng nghyswllt cynlluniau yn ymwneud â pholisi cyfathrebiadau band eang cyflym iawn. Bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan yn y drafodaeth â'n holl rhanddeiliaid ynghylch cael y sector

[10] http://www.communicationsconsumerpanel.org.uk/Local initiatives on Next Generation Access in the UK.pdf
[11] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/nga_future_broadband/statement/
[12] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/fttc/

cyhoeddus i gyfrannu yn y rhannau hynny o'r DU lle mae dulliau sy'n cael eu harwain gan y farchnad yn unig yn annhebygol o fod yn ddigon o sbardun i ddatblygu band eang ymhellach.

- Ymateb yn rhagweithiol i faterion newydd wrth iddynt godi yn sgil lansio a threialu gwasanaethau band eang cyflym iawn.

- Cyhoeddi dogfen ymgynghori ar y materion rheoleiddio a godir pan fydd rhwydweithiau cenhedlaeth nesaf yn cael eu cyflwyno ac ategu hon â phroses o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyhoeddiad arall yn ystod blwyddyn gynllunio 2009/2010. Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth ynghylch sut dylai cynnyrch sy'n cael ei reoleiddio esblygu mewn amgylchedd rhwydweithiau cenhedlaeth nesaf, y materion fydd yn codi o safbwynt y defnyddiwr yn sgil y newid i rwydweithiau newydd, a goblygiadau tymor hwy rhwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf o ran cystadleuaeth a rhyng-gysylltiad.

**Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu**

3.16 Gwelwyd twf sylweddol yn y farchnad teledu talu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bellach mae'n werth £4 biliwn y flwyddyn. Bellach mae refeniw tanysgrifiadau'n bwysicach na refeniw hysbysebu fel ffynhonnell cyllid i'r diwydiant darlledu. Yn ddiweddar, mae'r diwydiant wedi gweld nifer o ddatblygiadau sylweddol a fydd yn siapio'r sector am flynyddoedd i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llwyfannau newydd yn ymddangos ar gyfer darparu gwasanaethau teledu talu (DTT, IPTV, Teledu Symudol);

- cyfnerthu, ailstrwythuro ac ail-frandio'r llwyfan cebl presennol; a

- mesurau gan y Comisiwn Ewropeaidd i newid y ffordd y mae hawliau pêl-droed allweddol (y rheini yn Uwch Gynghrair y Gymdeithas Pêl-droed) yn cael eu gwerthu er mwyn i fwy o ddarparwyr allu dod i mewn i'r farchnad; ac

3.17 Yn gynnar yn 2007 derbyniasom gais gan bedwar o brif randdeiliaid y diwydiant: BT, Setanta, Top Up TV a Virgin Media. Yn y cyflwyniad, gofynnwyd i ni ymchwilio i'r diwydiant teledu talu ac ystyried a ddylid gwneud cyfeiriad marchnad i'r Comisiwn Cystadleuaeth dan Ddeddf Menter 2002. Ym mis Ebrill 2007 derbyniasom gynnig gan Arqiva / Sky i gael gwared â'r tair sianel darlledu-am-ddim y mae Sky yn eu darparu ar hyn o bryd ar deledu daearol digidol, a'u disodli gyda phum sianel teledu talu fel rhan o wasanaeth "Picnic" Sky.

3.18 Cyhoeddwyd ymgynghoriadau cychwynnol ar y meysydd hyn gennym ddiwedd 2007, ac ynddynt roeddem yn nodi rhai pryderon cychwynnol. Cyhoeddwyd mwy o ymgynghoriadau gennym ym mis Medi 2008 oedd yn ystyried y pryderon hynny'n fwy manwl, ac yn nodi ein cynigion ar gyfer rhoi sylw iddynt. Roedd y cynigion hyn yn cynnwys defnyddio dyletswydd 'Rhaid Cynnig yn Gyfanwerthol' oedd yn nodi y byddai rhai sianeli premiwm a reolir gan Sky yn cael eu darparu ar sail gyfanwerthol ar delerau wedi'u rheoleiddio.

3.19 Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried a ydym am fynd ymlaen â'r cynnig hwn. Os felly, byddem yn cyhoeddi ymgynghoriad pellach lle bydden yn cynnig amodau cyflenwi penodol. Rydym hefyd yn debygol o ymgynghori os ydym yn penderfynu bwrw ymlaen mewn rhyw ffordd arall. Os ydym yn penderfynu peidio â chymryd camau pellach, rydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r perwyl

hwnnw. Bwriadwn gyhoeddi'r ymgynghoriad pellach hwn / datganiad yn ystod hanner cyntaf 2009.

### Asesu ein dull rheoleiddio yng nghyswllt y sector symudol

3.20 Mae'r sector symudol yn wynebu newid sylweddol. Felly, yn 2008, aethom ati i asesu ein dull gweithredu cyffredinol o reoleiddio'r sector. Mae'r gwaith hwn yn ceisio ateb pedwar prif gwestiwn:

- Beth yw goblygiadau newid yn y farchnad i wasanaethau symudol a diwifr?
- Sut yr effeithir ar ddinasyddion a defnyddwyr gan ddatblygiadau yn y sector symudol?
- Beth yw pwrpas rheoleiddio'r sector symudol a lle dylai'r ffocws fod?
- A oes lle i ddadreoleiddio, cystadleuaeth ac arloesedd yn y sector symudol?

3.21 Ar 28 Awst 2008, cyhoeddasom yr ymgynghoriad cyntaf ar ein Hasesiad o'r Sector Symudol, a ddaeth i ben ar 6 Tachwedd 2008. Roedd y cam cyntaf yn canolbwyntio'n bennaf, ond nid yn unig, ar y tri chwestiwn cyntaf. Amlygodd nifer o faterion yr ydym yn awr yn gweithredu arnynt:

- Mae canran fechan ond pwysig o'n cleientiaid yn anfodlon. Mae pryderon yn cynyddu cryn dipyn ymysg defnyddwyr ynghylch materion megis biliau y mae anghydfod yn eu cylch, gwasanaeth gwael i gwsmeriaid ac, mewn rhai achosion, arferion annerbyniol fel cam-werthu.
- Rydym yn sylwi bod derbyniad gwael neu anwastad (*not-spots*) yn dal i fodoli, er gwaethaf cystadleuaeth. Mae profiadau ardaloedd gwahanol yn y DU yn wahanol iawn, er enghraifft, i ba raddau y mae 3G wedi cael ei gyflwyno. Mae'r problemau hyn yn arbennig o amlwg mewn rhai ardaloedd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.
- Mae'n bosibl y bydd rhai grwpiau'n cael eu heithrio rhag gwneud defnydd llawn o wasanaethau symudol. Er enghraifft, mae pobl hŷn, a'r rhai sy'n anabl, yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaeth symudol.
- Mae arnom eisiau addasu ein proses reoleiddio wrth i gydgyfeirio ddigwydd. Ein pryder yw y gall rheoleiddio, heb y gofal dyladwy, droi'n rhwystr i arloesedd a chystadleuaeth. Rydym eisiau symud yn gyflym wrth i dechnolegau newydd ein galluogi i gael gwared â rheolau neu eu haddasu.

3.22 Gwelwn hefyd fod angen trafodaeth eang am yr hyn ddylai ddigwydd ar ôl 2011, pan ddaw trefn bresennol cyfraddau terfynu gwasanaethau symudol i ben. Y cyfraddau terfynu yw'r ffioedd y mae gweithredwyr rhwydweithiau'n eu codi ar ei gilydd i gwblhau galwadau. Rydym yn cyfrannu'n rhagweithiol at y drafodaeth Ewropeaidd ac yn dadansoddi dulliau gweithredu posibl.

3.23 O ganlyniad i'n hymgynghoriad cyntaf ac ymchwil pellach, ein nod yw cyhoeddi cynigion a fydd yn ateb cwestiwn olaf cwmpas cychwynnol yr asesiad hwn: A oes lle i ddadreoleiddio, cystadleuaeth ac arloesedd yn y sector symudol?

3.24 Bwriadwn gyhoeddi'r cynigion hyn mewn ymgynghoriad pellach ar ddechrau 2009/10. Byddwn yn rhoi sylw i'r pwyntiau penodol mae ymatebwyr wedi'u gwneud yn eu hymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Blynyddol a'r Asesiad o'r Sector

Symudol ei hun, e.e. o ran cystadleuaeth yn y farchnad (gan gydnabod nad ydym wedi cynnal adolygiad o'r farchnad), prisio gwasanaethau, ein hagwedd tuag at bolisïau defnyddwyr a'i nodau a'i amcanion. Byddwn hefyd yn edrych ar fynediad a chynhwysiant, gan ganolbwyntio ar bobl anabl a phobl hŷn, yn ogystal â hyd a lled derbyniad symudol.

3.25 Ochr yn ochr â hyn, byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymgynghoriad cyntaf ar ein hadolygiad o drefniadau Rheoli Ffioedd Terfynu Gwasanaeth Symudol.

**Hyrwyddo mynediad a chynhwysiant**

3.26 Mae dyletswydd Ofcom i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn golygu ein bod yn ymwneud ag argaeledd gwasanaethau cyfathrebu digidol, a chyda'r nifer o ddinasyddion a defnyddwyr sy'n manteisio ar y gwasanaethau hyn ac yn eu defnyddio'n effeithiol, gan eu galluogi i gymryd rhan yn yr economi, democratiaeth a chymdeithas fel cyfangorff.

3.27 Y tri phrif faes rydym wedi bod yn gysylltiedig â hwy yn bennaf hyd yma yw: teleffoni, teledu a llythrennedd yn y cyfryngau, ac mae bob maes yn bwysig ynddo'i hun a bydd ein gwaith yn y meysydd hyn yn parhau. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r Côd Gwasanaethau Mynediad i Deledu. Bydd yr Adolygiad yn ystyried y fframwaith presennol ar gyfer darparu gwasanaeth is-deitlo, iaith arwyddion a disgrifiad sain yng ngoleuni datblygiadau technegol ac economaidd er mwyn sicrhau bod y Côd yn parhau i ddarparu gwasanaethau mynediad i ddinasyddion a defnyddwyr mewn ffordd gymesur ac effeithiol. Trafodir ein gwaith ym maes Llythrennedd yn y Cyfryngau ar dudalen 28.

3.28 Fodd bynnag, o gofio'r datblygiadau pwysig sydd wedi bod yng nghyswllt technolegau digidol a'r chwyldro yn y defnydd cymdeithasol ac economaidd o dechnolegau o'r fath, ac mewn gwasanaethau symudol a band eang yn arbennig, rydym wedi adolygu ein hagwedd gyffredinol at fynediad a chynhwysiant ac wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar 18 Mawrth 2009[13] ynghylch lle y dylem ganolbwyntio ein hymdrechion. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'r drafodaeth arfaethedig ynghylch ymrwymiad gwasanaeth i bawb ar gyfer band eang sy'n cael ei harwain gan y Comisiwn Ewropeaidd a menter Prydain Ddigidol Llywodraeth y DU.

3.29 Fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad, yn 2009/10 byddwn yn gwneud mwy o waith yn y meysydd canlynol: D

- **Argaeledd band eang a'r niferoedd sy'n manteisio arno:** Rydym yn bwriadu cael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau i gynnydd mewn argaeledd band eang a'r nifer sy'n manteisio arno a chydweithio ag eraill, gan gynnwys prosiect Prydain Ddigidol y Llywodraeth, er mwyn eu goresgyn. Fel rhan o hyn, byddwn yn cyhoeddi ymchwil i'r rhesymau pam mae grwpiau allweddol o bobl wedi dewis peidio â manteisio ar wasanaeth rhyngrwyd gartref a beth ellid ei wneud i hybu'r niferoedd sydd yn manteisio ar y cyfleuster.

- **"galwadau 999 ar ffonau symudol wrth grwydro":** Yn y DU, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i wneud galwad frys dros unrhyw rwydwaith symudol sydd ar gael pan fyddwch y tu allan i ddalgylch derbyniad eich rhwydwaith eich hun. Mae Ofcom yn cydweithio a gweithredwyr rhwydweithiau symudol, yr awdurdodau brys ac

[13] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/access/

asiantaethau trin galwadau i gyflwyno hyn i'r DU. Yn amodol ar brofi llwyddiannus, cyflwynir hyn yn hwyrach ymlaen eleni.

- **Gwasanaethau ar gyfer pobl anabl :** Rydym yn bwriadu adolygu'r anawsterau mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau cyfathrebu. Un agwedd benodol fydd asesu'r achos polisi ar gyfer gwella'r gwasanaeth gyrru a derbyn trwy ffôn testun sy'n bodoli ar hyn o bryd ac sy'n galluogi pobl ag anawsterau clywed a siarad i ddefnyddio'r ffôn.

- **Adolygu'r Ddyletswydd Gwasanaeth i Bawb bresennol:** Rydym yn bwriadu asesu'r ffordd mae'r Ddyletswydd Gwasanaeth i Bawb yn gweithio ar hyn o bryd: pa mor addas i'r pwrpas ydyw a maint unrhyw faich ariannol a osodir ganddo.

- **Llythrennedd yn y Cyfryngau:** Mae hwn yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth, fel y nodir ar dudalen 28.

3.30 Byddwn yn cyhoeddi datganiad ar ein blaenoriaethau mynediad a chynhwysiant a chynllun gwaith sy'n ymgorffori'r ymatebion a gawsom i'n hymgynghoriad.

**Paratoi ar gyfer dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus**

3.31 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn cynnal adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus bob pum mlynedd o leiaf. Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau ein hail *Ad*olygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus ac wedi cyhoeddi datganiad terfynol ac argymhellion ar 21 Ionawr 2009.

3.32 I grynhoi, roedd y datganiad terfynol yn nodi beth, yn ein barn ni, yw'r pedair prif flaenoriaeth ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol:

- **Cynnal swyddogaeth a chyllid y BBC** ar gyfer ei raglenni a'i wasanaethau wrth galon y system gyffredinol.

- Cefnogi buddsoddiad mewn rhaglenni gwreiddiol o ansawdd uchel a rhaglenni newyddion rhyngwladol a newyddion y DU a sicrhau eu bod ar gael yn eang, trwy ddynodi **gwasanaethau Sianel 3 a Sianel 5 yn rhwydweithiau masnachol gydag ymrwymiad cyfyngedig i wasanaeth cyhoeddus**, gan gydbwyso manteision trwydded cymedrol ag ymrwymiadau priodol ar sail gynaliadwy.

- Cynllunio yn awr ar gyfer sicrhau y cyflenwir **dewis o newyddion o ansawdd uchel ochr yn ochr â'r BBC yn y gwledydd datganoledig ac yn rhanbarthau Lloegr**. Dylai hyn gynnwys llunio cynigion ar gyfer dull gweithredu newydd sy'n seiliedig ar gonsortia newyddion a gyllidir yn annibynnol.

- Sicrhau bod **darparwr cynnwys gwasanaeth cyhoeddus arall ar gael ochr yn ochr â'r BBC**, gyda Sianel 4 wrth galon hyn, gorau oll os yw'n seiliedig ar bartneriaethau, mentrau ar y cyd neu uno cwmnïau, ar y raddfa angenrheidiol i gynnal y gwaith o gyflenwi dibenion cyhoeddus yn effeithiol ar draws pob cyfrwng digidol. Bydd yn hanfodol cael cylch gwaith a threfn lywodraethu ac atebolrwydd newydd.

3.33 Rydym hefyd yn deall gwerth dewis yng nghyswllt cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i blant ac yn y gwledydd datganoledig. Os nad oes modd diwallu'r anghenion hyn yn ddigonol trwy'r argymhellion hyn, yna rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn ystyried cyllid penodol ar gyfer rhaglenni i blant, a'r achos dros ddull gweithredu

penodol ym mhob un o'r gwledydd datganoledig ar gyfer darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus arall heblaw newyddion.

3.34 Trwy weithredu yn awr, credwn fod cyfle i'r llywodraeth a'r Senedd sefydlu system gwasanaeth cyhoeddus iach ar gyfer y dyfodol. Roedd ein datganiad terfynol yn nodi ein hargymhellion ar gyfer cyflawni hyn.

3.35 Ochr yn ochr â'r gwaith mae'r llywodraeth yn ei wneud yn y maes hwn i ystyried ein hargymhellion ymhellach, mae Ofcom yn gyrru gwaith yn ei flaen mewn sawl maes, gan gynnwys:

- Gweithredu'r penderfyniadau tymor byr mewn perthynas ag amodau trwydded a nodwyd yn y ddogfen a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'n datganiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.
- Lle bo angen, dadansoddi a gwerthuso cynigion partneriaeth y BBC ymhellach, e.e. Prosiect Canvas a rhannu iPlayer â darlledwyr eraill.
- Cynnal asesiad o ymarferoldeb cyfryngau lleol fel cyfangorff yn y dyfodol a nodi pa ddulliau polisi a fyddai'n addas ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny, teledu lleol. Bydd hyn yn galw am ymchwil manwl, dadansoddi'r farchnad ac ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid. Bwriadwn gyhoeddi yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn.
- Gweithio gyda'r llywodraeth a'i adolygiad Prydain Ddigidol ar draws ystod o faterion, gan gynnwys goblygiadau ac opsiynau modelau partneriaeth newydd yn cynnwys Sianel 4, cynnal lluosogrwydd newyddion rhanbarthol, a chefnogi radio digidol ar draws y DU a chynnal natur leol y cyfrwng ar yr un pryd.
- Rydym hefyd i fod i gynnal adolygiad o'r rheolau perchnogaeth mewn perthynas â chyfryngau sy'n berthnasol i'r maes hwn. Ceir mwy o fanylion ar dudalen 33.

3.36 Bydd Adolygiad nesaf Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn digwydd oddeutu'r adeg y cwblheir y trosglwyddiad i'r digidol a thua diwedd y trwyddedau darlledu digidol cyfredol. Bydd hon yn adeg bwysig i asesu a fu newidiadau a wnaed i'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn llwyddiannus yng nghyswllt llywio'r newid o analog i'r digidol ac, yn bwysicach na dim, o safbwynt diwallu anghenion cynulleidfaoedd ar hyd a lled y DU.

### Cefnogi esblygiad radio

3.37 Byddwn yn parhau i gydweithio â'r adolygiad Prydain Ddigidol er mwyn bwrw ymlaen â chanlyniadau'r Gweithgor Radio Digidol. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar y goblygiadau i reoleiddio radio analog a digidol yn y dyfodol. Pe bai'r llywodraeth yn penderfynu bwrw ymlaen â gwaith pellach ar ddeddfwriaeth newydd mewn perthynas â chanlyniadau Prydain Ddigidol, byddwn yn rhoi cyngor ac yn cyfrannu fel sy'n briodol.

3.38 Ar bob achlysur, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant radio, i ateb yr heriau sylweddol a ddaw yn sgil technoleg sy'n newid ac amodau economaidd mwy llym.

3.39 Yn ogystal â'r gwaith a nodir uchod, byddwn yn ymgymryd â rhaglen waith mewn perthynas â thrwyddedu a rheoleiddio darlledu radio. Disgrifir hyn ymhellach ar dudalen 34.

## Hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau

3.40 Bwriad gwaith Ofcom wrth hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau yw:

- rhoi'r cyfle a'r cymhelliant i bobl ddatblygu cymhwysedd a hyder i chwarae eu rhan mewn cymdeithas ddigidol, a
- grymuso a galluogi pobl i reoli eu gweithgarwch eu hunain o ran y cyfryngau (defnyddio a chreu).

3.41 Y dull gweithredu a ddefnyddiwyd gennym, ac sy'n dal i gael ei ddefnyddio, yw darparu arweiniad a dylanwadu ar randdeiliaid (gan gynnwys gwneuthurwyr polisi, addysg, diwydiant a'r trydydd sector) i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau ar gyfer pob aelod o'r gymdeithas ar hyd a lled y DU. Rydym yn gweithredu'n uniongyrchol ac yn gadarnhaol lle bo hynny'n ofynnol ac yn briodol er mwyn cyflawni ein nod o hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau.

3.42 Mae adroddiad interim Prydain Ddigidol yn galw ar Ofcom i asesu ei gyfrifoldebau cyfredol mewn perthynas â llythrennedd yn y cyfryngau a, drwy gydweithio â'r BBC ac eraill, argymell diffiniad ac uchelgais newydd ar gyfer Cynllun Cenedlaethol Llythrennedd yn y Cyfryngau. Rydym wedi sefydlu Gweithgor Llythrennedd yn y Cyfryngau, dan gadeiryddiaeth Stewart Purvis, y Partner Bodlonrwydd a Safonau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o adrannau perthnasol yn y llywodraeth, asiantaethau addysg a hyfforddiant, Gwledydd, diwydiant, a darparwyr addysg i oedolion er mwyn mynd â'r gwaith hwn rhagddo.

3.43 Bydd y Cynllun Cenedlaethol Llythrennedd yn y Cyfryngau yn amlinellu sail cyfraniad Ofcom i'r newid sylfaenol mewn llythrennedd yn y cyfryngau y mae Adroddiad Interim Prydain Ddigidol yn galw amdano.

3.44 Roedd Adolygiad Byron14 yn argymell creu Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd (UKCCIS). Byddwn yn cyfrannu at y ffrydiau gwaith a nodwyd gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Rhagfyr 2008 fel blaenoriaethau cychwynnol y Cyngor. Byddwn hefyd yn cyfrannu at y rhaglen ymchwil i gefnogi gwaith y Cyngor.

3.45 Wrth i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau gynyddu mewn pwysigrwydd mewn byd cydgyfeiriedig, mae angen cynyddol i ymdrechu i'r eithaf i ddeall a rhannu dysg am faterion sy'n dod i'r amlwg ar lefel Ewropeaidd ac yn rhyngwladol. Mae sefydliadau blaenllaw sydd â diddordeb mewn hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau yn Awstralia, Canada, Iwerddon, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau wedi ymuno ag Ofcom fel aelodau sylfaenol Fforwm Rhyngwladol Ymchwil Llythrennedd yn y Cyfryngau. Bydd y Fforwm yn hyrwyddo rhannu gwybodaeth ac arferion gorau ymysg ymchwilwyr, academyddion, gwneuthurwyr polisi a rheoleiddwyr ar draws y gwledydd hynny sy'n gweithio yn y maes.

3.46 Yn 2009/10 byddwn hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys darparwyr addysg, canolfannau UK Online, llyfrgelloedd a rhwydweithiau cymorth eraill, i sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau telegyfathrebu a'r cyfryngau'n cael ei darparu i'r rhannau hynny o gymdeithas nad ydynt eto ar-lein, ac a all fod yn anodd eu cyrraedd.

[14] http://www.dcsf.gov.uk/byronreview/

**Datblygu a gorfodi polisïau diogelu'r defnyddwyr**

3.47 Mae'r gwaith hwn yn cynnwys sefydlu dull gweithredu strategol ar gyfer grymuso defnyddwyr, gan sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n ddigonol a chymryd camau gorfodi lle nad oes cydymffurfiad digonol.

3.48 Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu rhag y posibilrwydd o gam-werthu gwasanaethau llais llinell-sefydlog, ac yn cwblhau ein hadolygiad sy'n ceisio canfod a oes angen gwella'r rheoliadau presennol. Byddwn hefyd yn parhau i fynd i'r afael â'r arfer o symud cwsmeriaid o un cwmni i gwmni arall yn ddiarwybod iddynt a heb gael eu caniatâd penodol i wneud hynny ('slamio').

3.49 Mae'r maes blaenoriaeth hwn hefyd yn cynnwys ein gwaith ar gostau ychwanegol ac, yn benodol, sut rydym yn disgwyl i ddarparwyr gydymffurfio â'r rheoliadau ar Delerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr. Mae'r telerau'n cynnwys taliadau heb fod yn daliadau debyd uniongyrchol, taliadau am derfynu contract yn gynnar a gosod isafswm cyfnod newydd a bennir yn awtomatig ar gyfer contractau.

3.50 Ar ben hyn, mae'r maes gwaith hwn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth o arferion rheoli dyled darparwyr a beth sy'n achosi biliau annisgwyl o uchel ynghyd â llunio polisïau i fynd i'r afael â'r niwed i ddefnyddwyr sy'n codi o wasanaethau cyfradd premiwm. Efallai y bydd materion newydd hefyd yn codi yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i gwynion ac yn sgil canlyniadau dulliau eraill o ddatrys anghydfodau, a byddwn yn cadw cyfran o'n capasiti wrth gefn fel bod modd i ni ymateb yn effeithiol iddynt.

## Rhaglen waith ehangach ar gyfer 2009/10

3.51 Yn ychwanegol at y blaenoriaethau polisi a nodwyd uchod, rydym wedi cynnwys nifer o feysydd gwaith pwysig eraill yn ein rhaglen waith arfaethedig. Yng ngweddill y bennod hon, rydym yn eu trafod drwy eu grwpio dan bob un o bedair elfen allweddol ein fframwaith strategol, sef:

- ysgogi dull gweithredu seiliedig-ar-y-farchnad ar gyfer sbectrwm;
- hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio;
- sicrhau y cyflenwir amcanion budd y cyhoedd; a
- grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfiad rheoleiddiol lle bo angen.

## Ffigur 6: Rhaglen waith Ofcom ar gyfer 2009/10

| Elfennau'r fframwaith | Annog dull gweithredu seiliedig-ar-y-farchnad ar gyfer sbectrwm | Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio | Cyflenwi budd y cyhoedd wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio | Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfiad rheoleiddiol lle bo angen |
|---|---|---|---|---|
| Gweithredu polisi | • Rhyddhau sbectrwm, gan gynnwys y Difidend Digidol<br>• Cyflawni nodau sbectrwm rhyngwladol | • Hyrwyddo cystadleuaeth mewn telegyfathrebiadau sefydlog<br>• Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu | • Hyrwyddo mynediad a chynhwysiant<br>• Cefnogi'r Newid i'r Digidol | • Hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau<br>• Datblygu a gorfodi polisïau diogelu'r defnyddwyr<br>• Gorfodi cystadleuaeth a datrys anghydfodau |
| Datblygu polisi | • Cefnogi datblygiad rhyddfrydoli a masnachu sbectrwm | • Galluogi rheolaeth glir ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf<br>• Asesu ein dull rheoleiddio yng nghyswllt symudol<br>• Marchnadoedd Busnes | • Paratoi ar gyfer dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus<br>• Cefnogi datblygiad radio<br>• Cefnogi dulliau newydd ar gyfer materion ar-lein | • Hyrwyddo gwybodaeth defnyddwyr a gwella'r drefn newid darparwyr |
| Symleiddio rheoleiddio a lleihau'r beichiau gweinyddol i'r eithaf | | | | |
| Hyrwyddo i'r eithaf ein heffaith ar ddatblygiadau polisi Ewropeaidd a Rhyngwladol ehangach | | | | |
| Paratoi fframwaith strategol newydd Ofcom | | | | |

### Sbarduno dull gweithredu seiliedig-ar-y-farchnad ar gyfer sbectrwm

3.52 Yn 2009/10 byddwn yn parhau â'n gwaith o ddatblygu dull gweithredu sy'n seiliedig ar y farchnad ar gyfer rheoli sbectrwm, er mwyn i'r adnodd gwerthfawr hwn gael ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl ac er mwyn manteisio i'r eithaf ar y buddion a geir o gystadleuaeth ac arloesedd yn y gwasanaethau diwifr. Trwy adael i ddefnyddwyr bennu'r defnydd gorau o sbectrwm, byddwn yn ysgafnhau'r baich rheoleiddio sydd ynghlwm wrth reoli sbectrwm.

3.53 Yn 200910, rydym yn ymrwymo i'r rhaglen waith isod:

- **Rhyddhau sbectrwm, gan gynnwys y difidend digidol -** Trafodwyd manylion y maes gwaith â blaenoriaeth hwn yn gynharach yn yr adran hon.

- **Cefnogi datblygiad rhyddfrydoli a masnachu sbectrwm -** Yn ystod y flwyddyn nesaf bwriadwn fwrw ymlaen â rhyddfrydoli sbectrwm sydd eisoes wedi'i ddyfarnu. Blaenoriaeth uchel iawn yn y cyd-destun hwn yw datrys dyfodol y bandiau 900 a 1,800 MHz, sydd wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd i dechnoleg 2G GSM. Yn ei adroddiad interim ar Brydain Ddigidol[15], nododd y llywodraeth bwysigrwydd datrys y mater hwn ar fyrder, fel bod modd ailddefnyddio'r sbectrwm a chynnal marchnad gystadleuol yr un pryd. Mae'r llywodraeth o'r farn y gallai ystod o werthiannau sbectrwm y mae'r diwydiant wedi cytuno arnynt gynnig ateb gwell a chynt nac ateb a orfodir ar y diwydiant trwy reoleiddio. Rhoddodd tan ddiwedd Ebrill 2009 i'r diwydiant gytuno ar ffordd ymlaen, neu bydd y Llywodraeth yn cefnogi ateb a orfodir. Byddai Ofcom hefyd yn croesawu cynnig gan y diwydiant mewn perthynas ag ystod o werthiannau sbectrwm a fyddai'n mynd i'r afael ag unrhyw ystumio posibl mewn cystadleuaeth a allai godi o ryddfrydoli sbectrwm 2G, ac a fyddai'n hyrwyddo defnydd effeithiol o'r sbectrwm

[15] http://www.culture.gov.uk/images/publications/digital_britain_interimreportjan09.pdf

hwn, er budd defnyddwyr. Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi ymgynghoriad[16] a fwriadwyd i roi gwell eglurder o safbwynt pryderon Ofcom yn y cysylltau hyn, a thrwy hynny'r hyn y byddem yn disgwyl i ateb gwirfoddol ei gyflawni. Ynddo hefyd nodir cynigion Ofcom mewn perthynas â sut beth allai ateb rheoleiddiol fod pe bai'r diwydiant yn methu cytuno ar ffordd dderbyniol ymlaen erbyn diwedd Ebrill 2009. Mae'r ddogfen hon yn cynnig bod 2x500MHz o'r sbectrwm 900 MHz yn cael ei ryddhau gan ddeiliaid presennol y sbectrwm a bod Ofcom yn ailddyfarnu'r gyfran honno. Rhagwelir y byddai'r dyfarniad yn cael ei gynnal yn 2010 ac y byddai'r sbectrwm yn cael ei ryddhau i'w ddefnyddio yn 2011.

- **Cyflawni nodau sbectrwm rhyngwladol** - Byddwn yn parhau i weithio i hyrwyddo dull gweithredu sy'n seiliedig ar y farchnad ar gyfer sbectrwm yn rhyngwladol, gan adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud, yn enwedig yn Ewrop, a datblygu fframwaith rhyngwladol sefydlog fel sail i'n rhaglen dyfarnu sbectrwm. Bydd y rhaglen waith yn cynnwys cyfranogi'n weithredol mewn fforymau rhyngwladol perthnasol ar lefel Ewropeaidd (Yr Undeb Ewropeaidd a'r Pwyllgor ar Weinyddiaethau Post a Thelathrebu Ewrop - CEPT) ac ar lefel ryngwladol (Yr Undeb Telathrebu Rhyngwladol - ITU). Dyma rai o'r amcanion penodol:

    - mabwysiadu a gweithredu fframwaith UE newydd ar gyfer gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebu electronig;
    - hyrwyddo cysondeb yng nghyswllt fforymau rhyngwladol a phenderfyniadau sbectrwm Ewrop trwy ddefnyddio dulliau gweithredu gwasanaeth-niwtral a thechnoleg-niwtral er mwyn hwyluso argaeledd sbectrwm ar sail gyffredin a hyblyg;
    - datblygu cytundebau rhyngwladol a dwyochrog er mwyn darparu sicrwydd rheoleiddiol ar gyfer ein dyfarniadau sbectrwm ac ar gyfer y newid i'r digidol;
    - ymestyn i wledydd eraill yr egwyddorion a fabwysiadwyd yn y DU mewn perthynas â rheoli'r sbectrwm sector cyhoeddus yn effeithiol; a
    - paratoi i gyflawni nodau'r DU yng Nghynhadledd Radio Byd yr ITU yn 2011, gan gynnwys annog defnyddio mwy o hyblygrwydd yn yr amgylchedd rheoleiddio rhyngwladol.

3.54 Yn ogystal â'r uchod, rydym hefyd yn bwriadu rhoi'r prosiectau ychwanegol isod ar waith yn 2009/10:

- gweithredu argymhellion Archwiliad Cave, yn arbennig drwy ddiffinio hawliau mynediad cyrff cyhoeddus i sbectrwm;
- annog gwell defnydd o sbectrwm yn y sectorau awyrofod a morol;
- rhoi dull trwyddedu newydd ar waith ar gyfer sbectrwm a ddefnyddir i gefnogi gweithrediadau busnes, gyda mwy o gyfle ar gyfer masnachu a hyblygrwydd o safbwynt defnyddio;
- darparu gwybodaeth well am y defnydd presennol o sbectrwm; a

[16] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/spectrumlib/

- cloriannu'r system bresennol o brisio sbectrwm, sydd wedi cael ei datblygu dros y degawd diwethaf, i sicrhau ei bod yn effeithiol ac wedi'i chynllunio'n dda.

3.55 Mae'r rhestr lawn o brosiectau a chanlyniadau a fwriedir parthed ein gwaith gyda sbectrwm, ynghyd ag enwau cyswllt perthnasol yn Ofcom, ar gael ar ein gwefan[17]

**Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio**

3.56 Daw cystadleuaeth â buddion i ddefnyddwyr ar ffurf mwy o ddewis, arloesedd a chyfleuster. Felly, mae hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol yn hanfodol os yw Ofcom i gyflawni'i ddyletswyddau.

3.57 Yn 2009/10 rydym yn ymrwymo i'r rhaglen waith isod:

- **hyrwyddo cystadleuaeth ym maes telegyfathrebiadau sefydlog;**
- **galluogi rheoleiddio clir yng nghyswllt rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf;**
- **hyrwyddo cystadleuaeth ym maes teledu talu; ac**
- **asesu ein dull rheoleiddio yng nghyswllt y sector symudol.** Trafodwyd manylion y meysydd gwaith hyn yn gynharach yn yr adran hon.
- **Defnyddwyr busnes** – byddwn yn lansio ffrwd waith newydd er mwyn deall profiadau defnyddwyr busnes o wasanaethau telegyfathrebu ac asesu a oes angen i Ofcom wneud mwy i sicrhau bod anghenion cwsmeriaid busnes yn cael eu diwallu. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn rhoi rhaglen ymchwil ar waith i ganfod a yw anghenion defnyddwyr busnes yn cael eu diwallu'n ddigonol yng nghyswllt gwasanaethau telegyfathrebu, a byddwn hefyd yn pwyso a mesur i ba raddau y mae polisïau Ofcom yn cael eu targedu'n ddigonol at roi sylw i unrhyw gystadleuaeth neu bryderon sydd gan ddefnyddwyr.

Yn ogystal â'r uchod, rydym hefyd yn bwriadu rhoi'r **prosiectau ychwanegol** isod ar waith yn 2009/10:

- adolygu ein dull gweithredu hirdymor ar gyfer y cynllun rhifo yng ngoleuni angen defnyddwyr am dryloywder o ran gwasanaethau a phrisiau;
- cwblhau'r adolygiad cyfredol o'r farchnad yng nghyswllt marchnadoedd manwerthu a chyfanwerthu ar gyfer gwasanaethau teleffoni band cul (llais) sefydlog, ynghyd ag unrhyw drefn rheoli taliadau rhwydwaith cysylltiedig; bydd yr adolygiadau hyn hefyd yn ystyried goblygiadau rheoleiddiol cynlluniau BT ar gyfer gwasanaeth llais 21CN; ac
- asesiadau o effaith ar y farchnad mewn perthynas â gwasanaethau newydd sy'n cael eu datblygu gan y BBC, yn ôl penderfyniad Ymddiriedolaeth y BBC.

3.58 Mae'r rhestr lawn o brosiectau a chanlyniadau a fwriedir mewn perthynas â'n gwaith gyda sbectrwm, ynghyd ag enwau cyswllt perthnasol yn Ofcom, ar gael ar ein gwefan[18]

---

[17] http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/reports_plans/annual_plan0910/projects/spectrum/

**Cyflenwi budd y cyhoedd, wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio**

3.59 Rhaid ystyried datblygu a gweithredu polisïau a rheoliadau ar gyfer cyflawni amcanion budd y cyhoedd mewn amgylchedd sy'n newid o hyd.

3.60 Yn 2009/10, dyma ein rhaglen waith arfaethedig:

- **hyrwyddo mynediad a chynhwysiant**
- **paratoi ar gyfer dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus;** a
- **cefnogi esblygiad radio:**
  Trafodwyd manylion y meysydd gwaith hyn yn gynharach yn yr adran hon.
- **Cefnogi'r newid i'r digidol** – byddwn yn helpu Digital UK, y corff a sefydlwyd i reoli'r broses o newid i'r digidol yn y DU, a'r Llywodraeth, i sicrhau y trosglwyddir yn ddidrafferth i deledu digidol. Bydd y broses yn cyflymu'n arw yn 2009 pan fydd rhanbarthau Granada, Border a De Orllewin Lloegr yn cwblhau'r newid a phan fydd Cymru'n dechrau'r newid. Byddwn yn cefnogi'r broses hon ar draws ein gweithgareddau ym meysydd trwyddedu, rheoli sbectrwm a chydlynu sbectrwm rhyngwladol yn ogystal â mewn gweithgareddau ymchwil a pholisi perthnasol.
- **Cefnogi dulliau newydd o ddelio â phroblemau ar-lein** – mae defnyddio'r Rhyngrwyd i gyflwyno cynnwys a chymwysiadau, yn ogystal â gwasanaethau cyfathrebu, yn dod â nifer o broblemau newydd heriol yn ei sgil o safbwynt dinasyddion, defnyddwyr, diwydiant ac Ofcom. O'n rhan ni, mae Ofcom yn awyddus i gefnogi twf gwasanaethau newydd cyfreithlon, sy'n cael eu cyflwyno o fewn fframweithiau rheoleiddio call sy'n diogelu buddion dinasyddion a defnyddwyr. Yn ddelfrydol, cyflawnir hyn trwy gyfrwng mentrau sy'n cael eu harwain gan y diwydiant. Rydym yn fwy na pharod, os cawn wahoddiad, i gefnogi mentrau o'r fath lle bo hynny'n briodol. Enghraifft ddiweddar o hyn yw pan fu i ni ymateb i wahoddiad gan y prif labeli cerddoriaeth, stiwdios ffilmiau Hollywood a phrif ddiwydiannau'r sector darparu gwasanaeth rhyngrwyd yn y DU am gefnogaeth i'w trafodaethau ar gamau i daclo rhannu ffeiliau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr anghyfreithlon. Wrth ymgymryd â gweithgareddau o'r fath, mae gan Ofcom rôl i'w chwarae o hyd o safbwynt sicrhau bod buddion dinasyddion a defnyddwyr yn cael eu hadlewyrchu'n effeithiol yn unrhyw benderfyniad a wneir gennym. I symud ymlaen, mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ynghylch camau cyfreithiol i fynd i'r afael â rhannu ffeiliau'n anghyfreithlon ac rydym yn disgwyl y bydd gennym ryw fath o rôl i'w chwarae o hyd, ond mae union natur y rôl honno'n amodol ar ymgynghoriad.

3.61 Yn ogystal â'r uchod, rydym hefyd yn bwriadu rhoi'r **prosiectau ychwanegol** isod ar waith yn 2009/10:

- **Adolygu'r Côd Darlledu** - Yn 2008/09, yr oeddem wedi ymrwymo i ddatblygu'r Côd Darlledu ymhellach er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y gymdeithas ac yn yr amgylchedd darlledu a rheoleiddio. Rydym yn awr wedi cychwyn adolygiad targedig o'r Côd Darlledu er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas; hynny yw, ei fod yn diogelu dinasyddion a defnyddwyr yn ddigonol, ac yn cynnig fframwaith rheoleiddio cadarn a chyson i ddarlledwyr.

---

[18] http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/reports_plans/annual_plan0910/projects/comp/

- Bydd yr adolygiad wedi'i anelu at reolau sy'n galw am wneud newidiadau gorfodol yng ngoleuni deddfwriaeth Ewropeaidd newydd (Y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweled) a rhannau o'r Côd sydd, yn ein tyb ni, angen eu hadolygu. Er mwyn darparu sail well ar gyfer yr Adolygiad o'r Côd , rydym yn comisiynu darn o waith ymchwil defnyddwyr ar agweddau tuag at ddelweddau rhywiol a chyfeiriadau masnachol ym maes radio. Byddwn yn cyhoeddi'r gwaith ymchwil hwn, ynghyd ag ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Adolygiad o'r Côd , yn Haf 2009. Byddwn hefyd yn comisiynu gwaith ymchwil defnyddwyr ar agweddau tuag at iaith anweddus fel canllaw ar gyfer cymhwyso rheolau yn y maes hwn. Cyhoeddir yr ymchwil hwn, ynghyd â datganiad ar yr Adolygiad o'r Côd , a'r Côd diwygiedig ym mis Rhagfyr 2009.

- **Adolygiad o'r rheolau parthed perchnogaeth o'r cyfryngau –** mae gan Ofcom ddyletswydd statudol dan adran 391 y Ddeddf Cyfathrebiadau i adolygu gweithrediad y Rheolau Perchnogaeth o'r Cyfryngau ac anfon adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys ein hargymhellion ynglŷn ag a ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol arfer ei bwerau i newid Rheolau Perchnogaeth o'r Cyfryngau. Rhaid i Ofcom ddarparu adroddiad bob tair blynedd o leiaf. Cynhaliwyd ein hadolygiad diwethaf ym mis Tachwedd 2006. Rhaid i ni adrodd i'r Ysgrifennydd Cartref unwaith eto erbyn 13 Tachwedd 2009. Rydym wedi dechrau gweithio ar yr adolygiad ac rydym yn disgwyl ei gyhoeddi yn hwyrach ymlaen eleni.

- **Hyrwyddo i'r eithaf y defnydd effeithlon o'r sbectrwm DTT i'r eithaf –** ym mis Ebrill 2008 cyflwynasom gynllun i ad-drefnu gwasanaethau ar amlblecsau teledu daearol digidol (DTT) er mwyn uwchraddio Amlblecs B i alluogi gwasanaethau newydd, gan gynnwys gwasanaethau manylder uwch (HD). Ym mis Gorffennaf daeth deddfwriaeth i rym a oedd yn rhoi'r hawl i Ofcom weithredu'r cynllun hwn. Dechreusom ei roi ar waith drwy gynnal proses dendro gystadleuol a arweiniodd atom yn cadw lle ar yr amlblecs sydd wedi'i uwchraddio ar gyfer Channel4/S4C a thrwyddedigion ITV i ddarparu dau wasanaeth Manylder Uwch (yn ychwanegol at un gwasanaeth gan y BBC) a pharhau i gefnogi'r rhaglen weithredu ymarferol sy'n cael ei harwain gan y BBC.

  Ein prif ffocws yn 2009/10 fydd cwblhau'r fframwaith rheoleiddio, gan gynnwys trwyddedu'r gwasanaethau newydd ac aildrefnu'r gwasanaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd ar deledu daearol digidol. Rydym hefyd yn disgwyl dyfarnu lle ar gyfer pedwerydd slot HD, parhau â'r gwaith o gydlynu peilot technegol DVB-T2 a monitro cynnydd y rhaglen weithredu.

3.62 **Trwyddedu darlledu radio** – yn ychwanegol at ein gwaith yn cefnogi datblygiad radio, rydym wedi cynllunio rhaglen waith sylweddol yng nghyswllt trwyddedu a rheoleiddio darlledu radio sy'n cynnwys:

- paratoi ar gyfer ail-hysbysebu (drwy arwerthiant) yn y dyfodol y tair trwydded radio masnachol analog cenedlaethol; byddwn hefyd yn bwrw ymlaen ag ail-hysbysebu trwyddedau radio masnachol analog lleol presennol fel y daw eu cyfnod i ben;

- lle bo'n briodol, ymestyn ac adnewyddu trwyddedau radio masnachol analog lleol presennol i gynyddu eu cyfnod yn unol â gofynion statudol – yn ystod 2009/10, byddwn hefyd yn dymuno ystyried y broses ar gyfer adnewyddu'r drwydded amlblecs radio genedlaethol gyntaf; a

- cwblhau ail rownd trwyddedu gwasanaethau radio cymunedol newydd ac ystyried ar ba ffurf y gall unrhyw drwyddedau radio cymunedol eraill fod;

3.63 **Trwyddedu darlledu ar y teledu** – byddwn yn parhau i ymgymryd â rhaglen waith ar drwyddedu darlledu ar y teledu:

- trwyddedu gwasanaethau darlledu ar y teledu nad ydynt yn rai'r BBC, gan gynnwys sianelau ar lwyfannau Freeview a Sky;

- ystyried ceisiadau gan drwyddedigion am amrywio eu trwyddedau e.e. newid y gwasanaethau sydd ar gael ar wasanaeth amlblecs teledu daearol digidol; a

- sicrhau bod pob trwydded berthnasol yn hwyluso'r broses o newid i'r digidol yn ddidrafferth.

3.64 Mae'r rhestr lawn o brosiectau a chanlyniadau a fwriedir mewn perthynas â'n gwaith budd cyhoeddus, ynghyd ag enwau cyswllt perthnasol yn Ofcom, ar gael ar ein gwefan[19]

## Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfiad rheoleiddiol lle bo angen

3.65 Mae grymuso defnyddwyr a dinasyddion yn un o'r pethau rydym yn canolbwyntio arnynt yn ein gwaith. Yr unig ffordd y gall dinasyddion a defnyddwyr elwa yw os ydynt yn gallu gwneud dewisiadau doeth sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae hefyd yn debygol y bydd ein gallu i gynnal a gwella cydymffurfiad rheoleiddiol yn cynyddu gydag amser, wrth i ansicrwydd ac anwadalrwydd y sefyllfa economaidd ehangach effeithio fwy a mwy ar y sector cyfathrebu.

3.66 Yn 2009/10 rydym yn ymrwymo i'r rhaglen waith a nodir isod:

- **Hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau**;

- **Datblygu a gorfodi polisïau diogelu'r defnyddiwr**.
  Trafodwyd manylion y meysydd blaenoriaeth hyn yn gynharach yn yr adran hon.

- **Hybu gwybodaeth defnyddwyr a gwella gweithdrefnau newid darparwr** – mae'r maes gwaith hwn yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

  - Byddwn yn gweithio i wella'r wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr drwy weithredu ein cynllun achredu ar gyfer gwefannau cymharu prisiau. Rydym wedi achredu dwy wefan cymharu prisiau ym mis Mehefin eleni.

  - Hefyd, byddwn yn gweithio i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth Ansawdd Gwasanaeth perthnasol i'w grymuso i wneud dewisiadau gwybodus yn y farchnad. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu cynllun Topcomm.

  - Byddwn hefyd yn bwrw 'mlaen â'n gwaith ar wella prosesau newid darparwyr er mwyn sicrhau nad yw'r prosesau cyfredol yn llesteirio gallu defnyddwyr i newid - ar gyfer symud unwaith ac yng nghyswllt cynigion cynhyrchion wedi'u bwndelu. Byddwn yn parhau i weithio

[19] http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/reports_plans/annual_plan0910/projects/public/

gyda'r diwydiant ar archwilio'r achos dros well cysondeb ymysg prosesau newid darparwr.

- **Gorfodi cystadleuaeth a datrys anghydfodau** – byddwn yn parhau â'n gwaith ar anghydfodau ac ymchwiliadau sy'n ymwneud â chystadleuaeth, ac yn rhoi sylw i unrhyw faterion newydd a ddaw i'r amlwg yn 2009/10. Mae Ofcom yn sylweddoli pwysigrwydd ei rôl yng nghyswllt datrys anghydfodau masnachol: mae'n ddyletswydd statudol arnom i gyflawni'r swyddogaeth hon a byddwn yn gofalu bod digon o adnoddau ar gael i sicrhau bod y swyddogaeth hon yn cael ei chyflawni'n amserol.

3.67 Mae'r rhestr lawn o brosiectau a chanlyniadau a fwriedir mewn perthynas â'n gwaith ym maes grymuso'r defnyddiwr, ynghyd ag enwau cyswllt perthnasol yn Ofcom, ar gael ar ein gwefan[20]

## Symleiddio rheoleiddio ac ysgafnhau'r baich gweinyddol gymaint ag y bo modd

3.68 Gan fod y pwysau economaidd presennol yn debygol o gyflwyno heriau ychwanegol i lawer o'n rhanddeiliaid, mae'n bwysig ein bod yn lleihau unrhyw feichiau diangen a achosir gan reoleiddio. Rydym yn ceisio gwneud hyn, mewn modd sy'n gyson â'n hegwyddorion rheoleiddio, a lle bo'n briodol er mwyn hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Isod ceir amlinelliad o'r meysydd gwaith allweddol sydd gennym ar y gweill yn 2009/10 i symleiddio ac ysgafnhau'r baich rheoleiddiol.

- Fel rhan o'r adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, buom yn adolygu ac yn ymgynghori ynghylch y goblygiadau sydd ynghlwm â thrwyddedau Sianel 3. O ganlyniad, gwnaethom newidiadau i'r trwyddedau hyn er mwyn galluogi ITV i wneud arbedion o oddeutu £54m y flwyddyn, i adlewyrchu'r gostyngiad yng ngwerth trwyddedau Channel 3.

- Ym mis Mawrth 2009, darparwyd rhagor o eglurder gennym ar ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer rheoleiddio'r defnydd o fynediad cenhedlaeth nesaf (NGA). Mae ein dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r defnydd o Fynediad Cenhedlaeth Nesaf (NGA) yr ydym yn ei gynnig yn y DU yn hyblyg, er mwyn hybu'r gwaith o ddatblygu a threialu cynnyrch a gwasanaethau newydd, ac mae'n ddigon ysgafn ei gyffyrddiad i ganiatáu arbrofi gyda modelau busnes a phrisio, gan hyrwyddo cystadleuaeth a diogelu cwsmeriaid ar yr un pryd.

- Bwriad ein gwaith yn ymestyn eithriadau trwydded ar gyfer amrediad ehangach o gyfarpar radio yw lleihau beichiau rheoleiddio a galluogi'r defnydd o dechnolegau newydd arloesol, y ddau yn rhan o roi ein Hadolygiad o Sbectrwm ar waith. Rydym wedi cyhoeddi rheoliadau yn ymwneud ag eithriadau trwydded ym mis Medi 2008 ac mae mwy o waith ar y gweill ar gyfer flwyddyn nesaf.

3.69 Mae ein Cynllun Symleiddio diweddaraf, a gyhoeddwyd ar 11 Rhagfyr 2008[21], yn rhoi rhagor o fanylion am ein hymdrechion yn y maes hwn.

---

[20] http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/reports_plans/annual_plan0910/projects/empower/

[21] http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/simpl08/

## Hyrwyddo i’r eithaf ein heffaith ar ddatblygiadau polisi Ewropeaidd a rhyngwladol ehangach

3.70 Mae datblygiadau allanol ehangach yn y blynyddoedd diwethaf wedi dangos bod angen i ni ganolbwyntio ar lunio polisïau cyfathrebu ar lefel ryngwladol. O safbwynt ein rhaglen waith, ar Ewrop yr ydym yn canolbwyntio’n bennaf o hyd. Byddwn yn ymgysylltu â rheoleiddwyr cyfathrebu mewn gwledydd eraill yn Ewrop, trwy gyfrwng ein rhwydweithiau rheoleiddio ac yn ddwy ochrog er mwyn dilyn, lle bo’n briodol, defnyddio dull gweithredu cydlynus a chydgysylltiedig o reoleiddio gwasanaethau cyfathrebu rhyngwladol.

3.71 Byddwn hefyd yn parhau i gyfrannu’n weithgar at ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth UE. Mae sawl maes datblygu polisi pwysig ar lefel UE i ni ganolbwyntio arnynt yn 2009/10. Er mwyn rhoi sylw i 'r rhain, byddwn yn:

- parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ac ymgysylltu ar lefel Ewropeaidd i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr a dinasyddion y DU yn cael eu cynrychioli’n llawn yn yr Adolygiad o’r Fframwaith Ewropeaidd ar gyfer cyfathrebu electronig, yn ogystal â chynlluniau eraill sydd ar y gweill sy’n effeithio ar y sector cyfathrebu, megis y *Rheoliad ar Grwydro*[22] a'r adolygiad o Gyfraith Defnyddwyr yr UE.

- cyfrannu’n rhagweithiol, yn uniongyrchol a, lle bo'n briodol, drwy’r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd, at ddatblygiadau polisi’r Comisiwn yn y dyfodol a’r gwaith dilynol yng nghyswllt y fenter i2010, yn arbennig mewn meysydd â blaenoriaeth allweddol o ran Ofcom, megis Mynediad Cenhedlaeth Nesaf (NGA), cyfraddau terfynu, gwasanaeth i bawb, mynediad a chynhwysiant, llythrennedd yn y cyfryngau, a chynnwys ar-lein; a

- cyfrannu, os bydd y Comisiwn yn cyflwyno cynigion, at adolygu’r *Gyfarwyddeb E-fasnach*[23] a'r *Gyfarwyddeb Mynediad Amodol.*[24]

3.72 Rydym yn ymwybodol bod llawer o’n rhanddeiliaid bellach yn rhan o weithrediadau rhyngwladol a marchnadoedd cyfathrebu o gwmpas y byd, ac yn gorfod addasu i’r heriau economaidd cyfredol. Oherwydd hyn, mae deall y dulliau gweithredu amrywiol a’r datblygiadau ar lefel fyd-eang yn rhan allweddol o’n gwaith rhyngwladol. Bydd hyn yn cynnwys monitro datblygiadau yn y farchnad a datblygiadau rheoleiddiol, cyfrannu at drafodaethau ar faterion blaenoriaeth allweddol a fydd yn sail i’r penderfyniadau a wnawn ni, a lle bo modd, rhannu arferion gorau gyda’n cymheiriaid rhyngwladol.

3.73 Yn ystod 2009/10, bwriadwn gryfhau'r berthynas ddwyffordd gyda Gogledd America, China, Japan ac eraill, a byddwn yn canolbwyntio mwy ar adeiladu fforwm ar gyfer cynnal deialog gyda marchnadoedd eraill sy’n tyfu’n gyflym yn India, De America a Rwsia, llawer ohonynt yn arwain y ffordd gyda gwasanaethau a chymwysiadau newydd ar raddfa anhygoel.

---

[22] http://ec.europa.eu/information_society/activities/roaming/regulation/index_en.htm#new_rules
[23] Rheoliadau Cyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb y GE) 2002 - http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=CELEX:32000L0031:EN:HTML
[24] Directive 98/84/EC of the European Parliament and of the Council of 20 November 1998 – http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=CELEX:31998L0084:EN:HTML

## Paratoi fframwaith strategol newydd Ofcom

3.74 Yn 2009/10 byddwn yn sefydlu fframwaith strategol newydd ar gyfer datblygu rhaglen waith a blaenoriaethau Ofcom yn y tymor canolig. Er bod y fframwaith strategol newydd presennol yn dal yn berthnasol, ac yn ddigon hyblyg i ymdopi â newid yn y tymor byr, mae natur ddeinamig y sector cyfathrebu ar hyn o bryd yn golygu y bydd yn rhaid i ni ailystyried ein hagwedd at gynllunio strategol a datblygu ein rhaglen waith.

3.75 Bydd datblygu fframwaith strategol newydd yn edrych ar sut y bydd angen i'n rôl newid o bosibl yn y tymor hwy, a bydd yn ystyried goblygiadau'r gwaith y mae'r Llywodraeth wedi bod yn ei wneud drwy'r Seiat Syniadau Cydgyfeiriant (CTT) ac yn y prosiect Prydain Ddigidol i Ofcom.

3.76 Bydd y gwaith a fydd yn arwain at gyhoeddi fframwaith strategol newydd yn ystyried amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â'r newidiadau sy'n effeithio ar esblygiad hirdymor y sector cyfathrebu ac esblygiad y fframweithiau ar gyfer rheoleiddio. Rydym wedi derbyn nifer o ymatebion defnyddiol i'r ymgynghoriad ar y cynllun blynyddol drafft ac maent wedi amlygu materion i ni eu hystyried wrth i ni ddatblygu fframwaith strategol newydd. Ceir crynodeb o'r adborth hwn ar dudalen 58.

## Adran 4

# Darparu gwasanaethau i ddinasyddion a defnyddwyr

4.1 Yn ogystal â datblygu polisi, mae Ofcom yn darparu gwasanaethau allweddol i ddinasyddion, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill.

4.2 Bob blwyddyn, mae Ofcom yn derbyn tua 300,000 o geisiadau gan y cyhoedd yn gofyn am gyngor ynglŷn â materion defnyddwyr yn y farchnad gyfathrebu, yn cwyno am berfformiad gwael gan ddarparwr gwasanaeth, neu'n codi mater penodol yn ymwneud â chynnwys. Rydym yn cymryd camau gorfodi uniongyrchol ar ran amrywiaeth o randdeiliaid; er enghraifft, drwy gadw'r tonnau awyr yn rhydd rhag ymyrraeth.

4.3 Yn 2009, disgwyliwn gefnogi dros 220,000 o drwyddedau sbectrwm, gyda dros 150,000 o geisiadau newydd a cheisiadau adnewyddu, a fydd yn cynnwys lloeren, cysylltiadau sefydlog, radio busnesau preifat, defnyddwyr sbectrwm amatur, morwrol a defnyddwyr sbectrwm eraill. Rydym wrthi'n cyflwyno system gwasanaethau gwybodaeth newydd i reoli'r trafodion hyn.

4.4 Yn yr adran hon rydym yn rhoi trosolwg o'r gwasanaethau a ddarparwn i randdeiliaid fel rhan o'n busnes arferol, ac yn disgrifio'r cysylltiadau rhwng darparu gwasanaethau i randdeiliaid a chyflawni ein blaenoriaethau polisi.

### Cadw'r sbectrwm radio'n rhydd rhag ymyrraeth

4.5 Rydym yn monitro'r sbectrwm radio ac yn cymryd camau priodol i atal unrhyw ymyrryd niweidiol â'r sbectrwm. Mae'r galw cynyddol am sbectrwm yn arwain at ddefnydd mwy dwys ac at fwy o berygl o ymyrraeth, a rhagwelwn fwy o waith wrth i'r Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd yn Llundain agosáu (rhagor o fanylion yn ffigur 7), ynghyd â'n hymrwymiad parhaus i'r newid i'r digidol. Mae ein tîm Gweithrediadau Maes yn delio gydag oddeutu 17,000 o achosion y flwyddyn. Maent yn cymryd camau i:

- amddiffyn cyfathrebiadau diogelu bywyd, gan gynnwys y gwasanaethau brys a'r gwasanaeth rheoli traffig awyr;
- atal y sbectrwm radio rhag cael ei ddefnyddio'n anghyfreithlon;
- galluogi defnyddio sbectrwm yn gyfreithlon drwy, er enghraifft, ddarparu cyngor a chymorth i ddefnyddwyr sbectrwm; a
- sicrhau y caiff offer nad yw'n cydymffurfio ei dynnu oddi ar y farchnad.

4.6 Ein strategaeth fu canolbwyntio ein hadnoddau ar gadw'r sbectrwm radio yn rhydd rhag ymyrraeth niweidiol. Mae hyn wedi golygu trawsnewid ein tîm Gweithrediadau Maes yn helaeth, gan gynnwys y strwythur trefniadaethol, y strategaeth offer, cerbydau ac eiddo, maint a chymysgedd y gwaith, a rheoli pobl a diwylliant.

4.7 Yn 2009, byddwn yn adolygu'r offer technegol y bydd ei angen arnom er mwyn paratoi ar gyfer y Gemau Olympaidd yn Llundain. Yn benodol, gobeithiwn foderneiddio ein system fonitro awtomataidd bresennol (UMS) a'n galluoedd Monitro

a Chanfod Cyfeiriad O Bell (RMDF), a ddefnyddir ar gyfer canfod defnydd anghyfreithlon o sbectrwm; ac uwchraddio'r offer prawf a ddefnyddir gan ein peirianwyr maes.

4.8 Rydym yn adolygu ein gweithdrefnau gweithredol yn gyson er mwyn ymgyrraedd at ragoriaeth, a byddwn yn cyflawni achrediad ISO 9000:2000 yn 2009, a fydd yn ategu'r achrediad UKAS a adnewyddwyd yn 2008. Bydd ymrwymiad parhaus i ddatblygiad proffesiynol ein cydweithwyr a'r ffaith ein bod wedi cyflogi prentisiaid peirianyddol yn ddiweddar, yn cyflwyno gweithlu yn y maes a fydd yn "addas i'r pwrpas" yn 2009 a thu hwnt.

4.9 Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar adolygu ein dull o orfodi, i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian, a'r effeithiolrwydd gorau posibl, ym meysydd allweddol darlledu anghyfreithlon, cydymffurfiad offer, monitro sbectrwm a datrys ymyrraeth.

## Trwyddedu mynediad at y sbectrwm radio

4.10 Ofcom sy'n rheoli mynediad at y sbectrwm radio trwy gyhoeddi, adnewyddu a diddymu trwyddedau. Lle bo angen, rydym yn aseinio amledd, yn clirio safleoedd ac yn cydlynu'r defnydd o sbectrwm yn rhyngwladol.

4.11 Yn 2008, newidiasom hen systemau trwyddedu a etifeddwyd gennym oedd yn cefnogi cynnyrch Cysylltiadau Sefydlog a chynnyrch Trwyddedu Ysgafn a Radio Busnes, a gosod systemau newydd yn eu lle. Ar yr un pryd, aethom ati i symleiddio ein cynnyrch trwydded Radio Busnes ac addasu'r ffioedd oedd yn cael eu codi, gan roi gwasanaeth gwell i'n cwsmeriaid yn y meysydd hyn.

4.12 Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r porth gwe sy'n cefnogi trwyddedigion Amatur a Llongau, er mwyn gwella profiad y defnyddiwr a symleiddio prosesau.

4.13 Yn 2009, bwriadwn wella'r gwasanaeth trwyddedu eto fyth drwy:

- ychwanegu'r holl gynnyrch trwyddedu, gan gynnwys trwyddedau Gofod a Lloeren, a thrwyddedau a roddwyd drwy arwerthiant, i'r system drwyddedu newydd;
- galluogi rhanddeiliaid i wneud cais am drwyddedau Radio Busnes Preifat, a'u derbyn, ar-lein; a
- rhoi systemau ar waith sy'n galluogi dull gweithredu seiliedig-ar-y-farchnad ar gyfer sbectrwm yn y dyfodol.

4.14 Byddwn hefyd yn cyhoeddi ymgynghoriad ar gynllun sbectrwm drafft ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain yn 2012. Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â hyn yn ffigur 7 isod.

### Ffigur 7: Paratoi ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain yn 2012

Bydd Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain yn cael eu cynnal rhwng 27 Gorffennaf a 9 Medi 2012 mewn gwahanol leoliadau ar draws y DU. Mae Ofcom yn gyfrifol am drefnu cynllun sbectrwm llawn, ynghyd â thrwyddedu defnyddwyr a delio ag unrhyw ymyrraeth yn ystod y digwyddiad ei hun. Hwn fydd yr ymarfer rheoli sbectrwm mwyaf ers creu Ofcom, a'n prif amcan fydd sicrhau bod ein cylch gwaith ar gyfer y Gemau'n cael ei gyflawni'n llwyddiannus gan darfu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr sbectrwm presennol.

Mae gennym gyfrifoldebau mewn sawl maes:

- Llunio cynllun sbectrwm sy'n cyflawni gwarantau'r Llywodraeth i'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol, fel y'i nodwyd yng nghais Llundain 2012.
- Sicrhau system drwyddedu sbectrwm effeithiol, cyn y gemau ac yn ystod y gemau, sy'n bodloni anghenion y defnyddwyr sbectrwm Olympaidd.
- Sicrhau y bydd y Gemau'n mynd rhagddynt yn ddidrafferth. Bydd yn rhaid i'n tîm Gweithrediadau Maes reoli unrhyw ymyrraeth yn effeithiol ar sail amser real ar draws gwahanol leoliadau.

Ar hyn o bryd rydym yn gwneud gwaith ar gynllunio sbectrwm a bwriadwn gyhoeddi dogfen ymgynghori gyda chynllun drafft yn ystod gwanwyn 2009. Gan symud ymlaen, bydd angen i ni roi sylw i nifer o faterion polisi a materion gweithredol, yn cynnwys:

- dylunio ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer y dasg a phennu'r rhaniad llafur delfrydol rhwng Ofcom ac endidau eraill;
- diffinio ein dull gweithredu ar gyfer trwyddedu, rheoli ymyrraeth, gorfodaeth a materion cysylltiedig;
- sicrhau bod y bobl, yr offer, y seilwaith a'r systemau cywir ar gael;
- sicrhau bod ein cynllun gweithredol yn gadarn yng nghyswllt digwyddiadau heb eu cynllunio; a
- lleihau costau cysylltiedig i'r eithaf, o ran gweithgareddau gweithredol a'r defnydd o sbectrwm.

Bwriadwn weithio'n agos gyda chydweithwyr sydd wedi trefnu, neu sydd wrthi'n trefnu, digwyddiadau tebyg yn Melbourne, Beijing, Sydney, Athen a Gemau'r Gaeaf yn Vancouver. Byddwn hefyd yn ymgynghori a chydweithredu'n agos gyda'r holl randdeiliaid perthnasol.

Bydd ein canfyddiadau cychwynnol a'n dull gweithredu cyffredinol arfaethedig yn cael eu hamlinellu yn yr ymgynghoriad a gynhelir yng ngwanwyn 2009. Bydd rhagor o weithgareddau cynllunio yn cynnwys paratoi ar gyfer y digwyddiadau ymarfer, sydd i fod i gael eu cynnal o 2010 ymlaen.

## Delio gydag ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd

4.15 Mae tîm Gweithrediadau Canolog Ofcom yn delio gydag ymholiadau a chwynion gan ddefnyddwyr am wasanaethau telegyfathrebu, gwasanaethau teledu a radio, a'r defnydd o'r sbectrwm radio. Rydym yn ateb oddeutu 20,800 o alwadau ffôn, 3,300 o negeseuon drwy ein gwefan, 1,200 o negeseuon e-bost a 1,500 o lythyrau a ffacsys bob mis.

4.16 Yn aml mae defnyddwyr yn cwyno wrthym am faterion yn ymwneud â’r gwasanaeth telegyfathrebu am eu bod wedi cael ymatebion annigonol gan ddarparwyr gwasanaeth. Ein nod yw helpu defnyddwyr i ddatrys eu cwynion drwy eu cyfeirio at gyngor a gwybodaeth ddefnyddiol a chysylltu gyda darparwyr gwasanaeth.

4.17 Fel arfer, bydd pobl yn cwyno'n uniongyrchol i ni am raglenni teledu a radio. Rydym yn ystyried cwynion ynghylch nifer o feysydd megis diogelu pobl dan 18 oed, niwed a thramgwydd, tegwch a phreifatrwydd, a bod yn ddiduedd ac yn gywir wrth gyflwyno newyddion. Ond, nid ydym yn ystyried materion sy’n ymwneud â bod yn ddiduedd ac yn gywir yng nghyswllt rhaglenni’r BBC, gan mai cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth y BBC yw hynny. Rydym hefyd yn delio gyda chwynion am noddwyr rhaglenni a dylanwad masnachol honedig.

4.18 Rydym yn buddsoddi mewn systemau gwybodaeth i wella ein perfformiad wrth ddelio gyda galwadau yng nghyswllt ymholiadau a chwynion. Rydym hefyd yn ceisio hyrwyddo rôl Tîm Ymgynghorol Ofcom i’r eithaf ar gyfer darparu rhybudd cynnar am bryderon defnyddwyr, megis galwadau mud, slamio a cham-werthu. Mae hyn yn digwydd gyda marchnadoedd cyfathrebu sy’n newid yn gyflym yn gefndir iddo; mae mathau newydd o bryder yn dod i'r wyneb drwy'r amser ac yn creu cynnydd annisgwyl yn nifer y cwynion a gawn.

## Dyrannu amrediadau rhifau ffôn i ddarparwyr gwasanaeth

4.19 Mae gan Ofcom rôl bwysig i’w chwarae yng nghyswllt dyrannu amrediadau rhifau ffôn i ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu sydd, yn eu tro, yn dyrannu rhifau unigol i'w cwsmeriaid. Mae nifer y ceisiadau a dderbynnir gan ddarparwyr gwasanaeth yn tyfu'n gyson. Rydym yn awr yn prosesu dros 2,000 o geisiadau bob blwyddyn.

4.20 Fel rhan o’n hadolygiad strategol o rifau ffôn, rydym wedi sefydlu’r egwyddorion canlynol ar gyfer rhifo:

- dylai'r rhifau y mae ar gwsmeriaid eu heisiau fod ar gael pan fydd eu hangen;
- ni ddylid newid y rhifau y mae defnyddwyr yn eu defnyddio ar hyn o bryd os oes modd osgoi hynny;
- dylid cadw'r hyn y mae mathau penodol o rifau yn ei olygu i ddefnyddwyr - megis rhifau 080 yn cael eu cysylltu â galwadau am ddim;
- dylai prosesau dyrannu rhifau gefnogi cystadleuaeth ac arloesedd; a
- ni ddylai defnyddwyr fod yn agored i gamddefnydd.

4.21 Mae Ofcom wedi cymhwyso'r egwyddorion hyn i'r broses dyrannu rhifau ffôn i sicrhau bod ein proses yn effeithlon, yn seiliedig ar y defnyddiwr ac yn cael ei thywys gan y farchnad. Rydym wedi cyflwyno mesurau cadw rhifau mewn rhagor o ardaloedd daearyddol fel y gall darparwyr gwasanaeth ddefnyddio rhifau'n fwy effeithlon. Rydym hefyd yn cyflwyno prawf diogelu’r defnyddiwr i'n proses dyrannu rhifau er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o rifau ac i amddiffyn defnyddwyr yn well rhag sgamiau, twyll a mathau eraill o gamddefnyddio drwy ddefnyddio rhifau ffôn.

## Darparu gwasanaethau gwybodaeth

4.22 Mae Ofcom yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ddefnyddio'r sbectrwm radio. Mae hyn yn gyfraniad pwysig i gydlynu’r defnydd o sbectrwm yn effeithlon; ac mae

hefyd yn hwyluso masnachu trwyddedau sbectrwm gan randdeiliaid. Mae Ofcom yn bwriadu ymestyn yr wybodaeth sydd ar gael ar-lein i'r cyhoedd, a fydd yn cael ei ategu gan ein system drwyddedu newydd sy'n cael ei chyflwyno ar hyn o bryd.

## Cyhoeddi adroddiadau ymchwil marchnad ac adroddiadau ar y farchnad gyfathrebu

4.23 Byddwn yn cyhoeddi amrywiaeth eang o adroddiadau ar ddatblygiadau yn y sector cyfathrebu ac ar agweddau dinasyddion a defnyddwyr:

- bydd ein cyfres o *Adroddiadau ar y Farchnad Gyfathrebu* yn delio gyda datblygiadau ym meysydd teledu, radio, telegyfathrebiadau a'r rhyngrwyd ar draws y DU ac ar draws y byd;
- bydd ein *Hadroddiad Blynyddol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus* yn asesu cyflwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU ac i ba raddau y mae dibenion a nodweddion DGC yn cael eu bodloni; a
- byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar *Brofiad y Defnyddiwr* a fydd yn asesu dewisiadau mynediad defnyddwyr, grymuso a phryder defnyddwyr ar draws yr holl sectorau a reoleiddir gan Ofcom.

4.24 Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiadau *Cynnydd Digidol* am:

- deledu digidol, bob chwarter; a
- marchnadoedd eraill sy'n symud yn gyflym, ar sail *ad-hoc*.

4.25 Yn olaf, byddwn yn cyhoeddi'r holl ymchwil a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn i gefnogi prosiectau polisi Ofcom. Bydd ein hagwedd tuag at ymchwil yn sicrhau ein bod yn gallu casglu sylfaen dystiolaeth sy'n ein galluogi i gyflawni'r ymrwymiadau statudol rydym yn eu hwynebu o ran hyrwyddo cydraddoldeb.


## Cysylltiadau rhwng cyflwyno gweithrediadau a pholisi

4.26 Mae cyflwyno ein gwasanaethau gweithredol yn effeithiol wedi'i gysylltu'n agos â'r meysydd polisi allweddol a nodir yn ein fframwaith strategol. Er enghraifft:

- bydd *annog dull gweithredu sy'n seiliedig ar y farchnad ar gyfer sbectrwm* yn cael ei ategu drwy ddiwygio'r broses trwyddedu sbectrwm a rheoli ymyrraeth yn effeithiol;
- bydd *datblygu dulliau newydd ar gyfer cyflenwi canlyniadau i'r cyhoedd* yn cael ei gefnogi gan Dîm Ymgynghorol Ofcom, sy'n delio gyda chwynion am raglenni a ddarlledir ar y teledu ac ar y radio;
- bydd *gwella cydymffurfiad a grymuso defnyddwyr* yn elwa o'r system rhybuddio cynnar a ddarperir gan Dîm Ymgynghorol Ofcom, a chamau effeithiol i fynd i'r afael â darlledu anghyfreithlon; a
- bydd *hyrwyddo amodau ar gyfer cystadleuaeth ac arloesedd* yn cael ei gefnogi gan ddyrannu rhifau ffôn yn effeithlon a datblygu ac ymchwilio i dechnoleg.

4.27 Mae ffigur 8 isod yn rhoi rhai enghreifftiau o’r cysylltiadau pwysig rhwng y gwasanaethau a ddarparwn i randdeiliaid a’r meysydd polisi a nodir yn ein fframwaith strategol tair blynedd.

### Ffigur 8: Cysylltiadau rhwng cyflwyno gweithrediadau a pholisi




## Mabwysiadu arferion cynaliadwy

4.28 Mae Ofcom yn ceisio mabwysiadu arferion cynaliadwy yn ei holl waith polisi a gweithredol. Yng ngoleuni'r cynnydd ym mhryder y cyhoedd ynghylch materion amgylcheddol, rydym wedi penderfynu datblygu dull gweithredu cynhwysfawr fydd yn sicrhau bod ein gweithgareddau'n gyfeillgar i’r amgylchedd. Fel rhan o hyn, aethom ati i gynnal archwiliad cychwynnol o ôl troed carbon Ofcom yn 2007, gan nodi nifer o feysydd lle gallem wneud gwahaniaeth positif – er enghraifft, cymuno yng nghyswllt gweithwyr a’r ynni mae gwasanaethau data yn ei ddefnyddio.

4.29 Y llynedd, roeddem wedi ymrwymo i'r targed o ostwng allyriadau Ofcom 25% erbyn 2012/13, gyda’r nod tymor hwy o ostyngiad pellach o 25% erbyn 2020. Mae Ofcom yn gweithio gyda'r Llywodraeth, ymgynghorwyr amgylcheddol, a rheoleiddwyr mewn sectorau diwydiant eraill, i rannu arferion gorau.

## Adran 5

# Rhoi gwerth i randdeiliaid

5.1 Ers ei sefydlu, mae Ofcom wedi sicrhau gostyngiadau olynol mewn termau real yn ei gyllideb i roi gwerth am arian i randdeiliaid. Pennwyd ein cyllideb gweithredu ar gyfer 2009/10 ar £136.8 miliwn. O gymharu a'r cyllideb ar gyfer 2008/09 mae hyn gyfystyr â gostyngiad o 4% mewn termau real, ac yn 21% yn is na'n cyllideb gwreiddiol a osodwyd yn 2004/05.

5.2 Yn ystod 2008/09, bu Ofcom yn canolbwyntio ar nifer o gynlluniau i sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael gwell gwerth am arian, sef:

- parhau i adolygu ein portffolio eiddo gyda rhagor o resymoli eleni;
- cyflwyno proses dendro gystadleuol mewn perthynas â'n prif gontractau cyflenwyr, gan ddefnyddio dull targedu categorïau o weithredu er mwyn sicrhau gymaint ag y bo modd o gystadleurwydd masnachnol;
- mabwysiadu gweithgarwch caffael ar y cyd ar draws cymuned eang o reoleiddwyr a defnyddio methodoleg meincnodi ffurfiol ar gyfer pob contract yn erbyn ein grŵp cymheiriaid;
- lleihau nifer y cyhoeddiadau a argreffir, gan wneud yn siŵr yr un pryd fod holl gyhoeddiadau Ofcom ar gael yn hwylus ar ein gwefan, a
- gwella ansawdd gwasanaeth ac effeithlonrwydd ein tîm Gweithrediadau Maes. Mae cyfran uwch o'r achosion hyn bellach yn cael eu datrys yn y swyddfa yn hytrach na thrwy gyfrwng ymweliadau.

5.3 Rydym yn bwriadu rhoi rhaglen o fentrau pellach ar y gweill yn y flwyddyn i ddod er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliad, gan gynnwys:

- rhesymoli ein hystadau argraffu, llungopïo a gweinydd, i leihau cost a hefyd i gyfrannu at gyflawni ein targed ar gyfer lleihau ein hôl troed carbon.
- adolygu a diwygio ein system weinyddu graidd a chefnogi prosesau fel rhan o'n hymdrech barhaus i roi gwerth i randdeiliaid;
- adolygu'r fanyleb ar gyfer contractau prif gyflenwyr a'u trefniadau masnachol yn gyson ac yn barhaus; a
- cynnal adolygiad llawn o holl brosesau caffael Ofcom a'r gofynion o safbwynt hyrwyddo Amrywiaeth a chynnwys Busnesau Bach fel rhan o sylfaen gyflenwyr Ofcom.

## Atodiad 1

# Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid

### Sylwadau cyffredinol

A1.1 Yn ystod y cyfnod ymgynghori deng wythnos, roedd adborth rhanddeiliaid i'r Cynllun Blynyddol Drafft ar y cyfan yn cefnogi ein rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2009/10. Y farn gyffredinol oedd bod ein fframwaith strategol tair blynedd yn dal i fod yn berthnasol yn ei flwyddyn olaf. Yn yr un modd, roedd rhanddeiliaid yn cytuno mai'r prif flaenoriaethau a nodwyd oedd y rhai iawn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

A1.2 Rydym yn falch bod cynifer o randdeiliaid yn cytuno â'n blaenoriaethau polisi arfaethedig ar gyfer 2009/10 a bod ein fframwaith tair blynedd yn dal i fod yn berthnasol. Lluniwyd y rhaglen waith a gynigwyd yn y Cynllun Blynyddol Drafft ar ôl cynnal dadansoddiad helaeth o dueddiadau'r farchnad a thrafodaethau mewnol gyda chyrff cynghori Ofcom sy'n cynrychioli buddiannau amrywiaeth o ddefnyddwyr a grwpiau rhanddeiliaid.

A1.3 Roedd un ymatebydd yn cwestiynu'r drefn y cyflwynwyd pedair thema'r fframwaith strategol. Gofynnodd rhanddeiliad arall a oedd y blaenoriaethau wedi'u nodi mewn unrhyw drefn er mwyn adlewyrchu eu pwysigrwydd.

A1.4 Rydym yn fwriadol yn rhoi'r un gwerth i bob un o'r pedair thema yn y fframwaith strategol, gan fod bob un yr un mor bwysig â'i gilydd. Yn yr un modd, mae blaenoriaethau Ofcom yn cynrychioli'r meysydd gwaith hynny sydd, yn ein barn ni, bwysicaf yn y flwyddyn i ddod. Mae'r blaenoriaethau hyn mor bwysig â'i gilydd i Ofcom, felly nid ydym yn eu dosbarthu mewn unrhyw drefn.

A1.5 Nododd sawl ymatebydd i'r ymgynghoriad bod angen i Ofcom barhau i weithio er budd y defnyddiwr, yn enwedig mewn hinsawdd economaidd mwy heriol lle gallai'r perygl o golled i ddefnyddwyr gynyddu. Roedd un rhanddeiliad yn cwestiynu a oedd Ofcom bob amser yn gallu gweithredu er budd dinasyddion a defnyddwyr fel ei gilydd.

A1.6 Mae gan Ofcom ddyletswyddau i hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebu, a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol. Mae'r ddwy ddyletswydd hyn, sydd wedi'u nodi yn Neddf Cyfathrebiadau 2003, yn cydnabod ein bod i gyd yn ddinasyddion ac yn ddefnyddwyr.

A1.7 Fel defnyddwyr, rydym yn chwarae ein rhan yn y farchnad wrth i ni i gyd chwilio am y canlyniad gorau i ni o safbwynt pris ac ansawdd. Yn y mwyafrif o achosion, y ffordd orau o hyrwyddo buddiannau defnyddwyr yw trwy hybu cystadleuaeth a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u grymuso'n briodol yn y farchnad.

A1.8 Fel dinasyddion, rydym yn rhan o gymdeithas ddemocrataidd, gyda hawliau a chyfrifoldebau a sefydlwyd gan y Senedd a gweinyddiaethau datganoledig. Er y gall marchnadoedd gyflenwi rhai o fuddiannau dinasyddion, yn aml mae angen ymyriadau cyhoeddus ehangach. Yn aml, mae costau ynghlwm wrth ymyriadau o'r fath ac efallai na fyddant bob amser yn gyson â'n buddiannau unigol ni fel defnyddwyr.

A1.9 Trafodwyd y materion hyn yn fanylach ym mhapur trafod Ofcom, *Citizens, Communications and Convergence,* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008 ar gyfer ymgynghoriad. Fel y nodwyd gennym yn y papur hwnnw, nid yw rhai o’r canlyniadau a ddisgrifir yn y Ddeddf Cyfathrebiadau wedi cael eu diffinio'n fanwl ac, mewn rhai achosion, nid yw'r ffordd y dylid cyflawni'r canlyniadau'n cael ei nodi. Mae gennym ddisgresiwn o ran sut rydym yn cyflawni ein cylch gwaith, ond mae ein pwerau gweithredu hefyd yn gyfyngedig. Felly, mae angen i Ofcom weithredu mewn modd sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac mor dryloyw ac atebol â phosibl, gan geisio ystod eang o farn wrth wneud penderfyniadau polisi.

A1.10 Mae un rhanddeiliad wedi gofyn am ein sylwadau ar yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Llais Defnyddwyr, sef *Graddio Rheoleiddwyr*[25] sy’n pwyso ac yn mesur perfformiad chwech o reoleiddwyr y DU o safbwynt y defnyddiwr. Mae’r adroddiad yn cymeradwyo Ofcom am lwyddo i greu amgylchedd sy’n canolbwyntio ar y defnyddiwr ar draws y sefydliad ac yn cynnig argymhellion ar sut i wella hyn eto fyth. Croesawn yr astudiaeth hon gan ei bod yn rhoi'r cyfle i ni ddysgu o werthusiad o'n harferion ein hunain ac o arferion rheoleiddwyr eraill. Rydym yn awr yn y broses o adolygu canlyniadau'r adroddiad, a byddwn yn ystyried argymhellion yr adroddiad hwnnw er mwyn i ni allu darparu canlyniadau da i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion.

A1.11 Yn ystod ein digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus, gofynnodd un neu ddau o'n rhanddeiliaid am fwy o fanylion ynghylch cyflawniadau ac amserlenni yng nghyswllt blaenoriaethau penodol a meysydd gwaith.

A1.12 Yn ein proses gynllunio, y peth cyntaf a wnawn yw datblygu ac ymgynghori ar ddull gweithredu eang a rhaglen waith arfaethedig, ac yna byddwn yn cwblhau'r manylion o safbwynt amseru a chanlyniadau prosiectau penodol. Ochr yn ochr â’r cynllun blynyddol terfynol, rydym yn cyhoeddi tabl ar ein gwefan sy’n cynnwys disgrifiadau o’n holl brosiectau arfaethedig, manylion ynghylch canlyniadau a’r cyswllt priodol sy’n gyfrifol am bob canlyniad. Byddwn yn diweddaru’r tabl hwn o bryd i’w gilydd trwy'r flwyddyn fel bod modd i randdeiliaid weld pa bryd y byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriadau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt. Rydym wedi ymrwymo i adolygu a gwerthuso ein perfformiad, a gweithredu ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu. Mae nifer o becynnau ymarferol ar gael i’n galluogi i wneud hynny – gan gynnwys asesiadau o effaith, ein harolwg o randdeiliaid, a'n Hadroddiad Blynyddol.

A1.13 Gofynnodd un ymatebydd am fwy o fanylion ynghylch sut mae Ofcom yn bwriadu ymgynghori â rhanddeiliaid. O’n rhan ni, ystyr ymgynghoriad effeithiol yw gadael i bawb sydd â diddordeb yng nghanlyniad penderfyniad penodol gael dweud eu dweud cyn i ni wneud y penderfyniad hwnnw. Rydym wedi nodi egwyddorion ein hymgynghoriad yn fwy manwl yn www.ofcom.org.uk/consult/consult_method/ofcom_consult_guide

A1.14 Gofynnodd yr un ymatebydd am awgrym a fyddai defnyddio mwy o iaith ddealladwy a therminoleg dechnegol wedi'i ddiffinio yn rhan o'n gwaith yn 2009/10. Mae ein hegwyddorion ymgynghori yn cynnwys ymrwymiad i wneud dogfennau ymgynghori mor fyr ac mor syml â phosibl, gyda chrynodeb mewn iaith glir, hawdd ei deall. Os yw mater yn arbennig o gymhleth, byddwn yn darparu crynodeb byr mewn iaith sy'n hawdd ei deall ar gyfer sefydliadau bychain neu unigolion na fyddai, o bosibl, yn rhoi eu sylwadau, fel arall. Mae hwn yn ymrwymiad parhaus ar ran Ofcom, a bydd yn parhau i gael lle amlwg yn ein dogfennau yn 2009/10.

[25] http://www.consumerfocus.org.uk/en/content/cms/Consumer_Focus_Publi/Consumer_Focus_Publi.aspx

A1.15 Holodd un ymatebydd ynghylch newidiadau posibl i Fwrdd Ofcom fel bod materion perthnasol i'r Alban yn cael mwy o gynrychiolaeth. DCMS a BERR sy'n gwneud yr holl benodiadau i Fwrdd Ofcom, felly hwy sy'n ystyried materion yn ymwneud â chynrychiolaeth benodol i wledydd.

A1.16 Awgrymodd ymatebwr arall y dylid ymestyn amcanion Ofcom: 'sicrhau bod amrediad eang o wasanaethau cyfathrebu electronig, *a'r cynnwys, cymwysiadau a'r gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg arnynt,* ar gael ym mhob rhan o'r DU". Nodwyd dyletswyddau a chyfrifoldebau Ofcom yn Neddf Cyfathrebiadau 2003, felly byddai unrhyw newid i ddyletswyddau a chyfrifoldebau Ofcom yn galw am ddeddfwriaeth sylfaenol.

A1.17 Nododd un rhanddeiliad y dylai Ofcom ystyried effaith technolegau cyfathrebu amrywiol a chydgyfeirio ar allyriadau carbon. Roedd yr un rhanddeiliad wedi nodi y byddai hyn yn gyson â chylch gwaith Ofcom i wasanaethu dinasyddion yn ogystal â defnyddwyr.

A1.18 Er nad oes gan Ofcom unrhyw ddyletswyddau penodol ar hyn o bryd yng nghyswllt yr amgylchedd, rydym yn credu bod diogelu'r amgylchedd ymhlyg yn ein prif ddyletswyddau i ddiogelu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr o safbwynt cyfathrebu. Mae gwasanaethau cyfathrebu'n defnyddio ynni ac felly'n ysgogi allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond gallai cyfathrebu hefyd gyfrannu at ostyngiad cyffredinol mewn allyriadau, trwy gymryd lle teithio a chymudo i ryw raddau.

A1.19 Mae llawer o'r rhanddeiliaid a reoleiddir gennym yn arweinwyr yn y maes o safbwynt mynd i'r afael ag allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac rydym yn cydnabod eu cyfraniad a'u cynnydd yn wresog. Cynhaliodd Ofcom yr archwiliad cyntaf erioed o ôl troed carbon y sefydliad yn 2006/07, a'r llynedd, roeddem wedi ymrwymo i'r targed o ostwng allyriadau Ofcom 25% erbyn 2012/13, gyda'r nod tymor hwy o sicrhau gostyngiad pellach o 25% erbyn 2020. Mae Ofcom yn gweithio gyda'r Llywodraeth, cynghorwyr amgylcheddol, a rheoleiddwyr eraill yn sector y diwydiant, i rannu arferion gorau.

A1.20 Ar hyn o bryd rydym yn dechrau archwilio sut y gellir ystyried materion amgylcheddol yn ein gwaith o lunio polisïau rheoleiddiol. Rydym yn dechrau gwerthuso, gydag eraill, sut y gellir rhoi cyfrif am gostau a buddion amgylcheddol yn yr Asesiadau o Effaith rydym yn eu cynnal ar gyfer ein penderfyniadau rheoleiddiol. Rydym yn rhagweld y bydd materion amgylcheddol yn cael lle mwy amlwg yn ein gwaith yn y blynyddoedd nesaf.

A1.21 Mynegodd un rhanddeiliad bryder ynghylch y ffaith bod angen i ni wella effeithlonrwydd ein hymchwiliadau yng nghyswllt y Ddeddf Cystadleuaeth. Rydym yn ymdrechu'n barhaus i wella effeithlonrwydd ein prosiectau, ac rydym wedi ceisio'n benodol i leddfu'r perygl o waith nas cynlluniwyd ar ei gyfer trwy gadw cyfran o'n capasiti wrth gefn ar gyfer gwaith o'r fath.

## Prydain Ddigidol

A1.22 Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at bwysigrwydd adolygiad *Prydain Ddigidol* y Llywodraeth, a holi ynghylch goblygiadau'r adroddiad interim o ran rhaglen waith Ofcom. Ceir mwy o fanylion am hyn ar dudalen 15.

## Rheoleiddio'r post

A1.23 Gofynnodd un ymatebydd pa effaith a gaiff adroddiad Hooper ar raglen waith arfaethedig Ofcom yn 2009/10. I gael mwy o fanylion, edrychwch ar dudalen 15.

## Sbarduno dull gweithredu seiliedig-ar-y-farchnad ar gyfer sbectrwm

### Rhyddhau sbectrwm, gan gynnwys y difidend digidol

A1.24 Roedd y mwyafrif o randdeiliaid yn croesawu parodrwydd Ofcom i ryddhau sbectrwm i'r farchnad er mwyn cael ffyrdd newydd o'i ddefnyddio. Roedd un rhanddeiliad yn arbennig yn awyddus i sicrhau bod Ofcom yn mynd ati gyda'r arwerthiant mor fuan ag y bo modd. Rydym yn cytuno â'r safbwynt hwn: po gyflymaf y caiff sbectrwm ei ryddhau i'r farchnad, cyntaf y bydd dinasyddion a defnyddwyr yn gallu manteisio ar y gwasanaethau sy'n ei ddefnyddio.

A1.25 Awgrymodd un rhanddeiliad y dylai Ofcom gyhoeddi cynllun ar gyfer sbectrwm, yn nodi'r sbectrwm rydym yn bwriadu ei ryddhau, ynghyd â'r dyddiadau rhyddhau arfaethedig a'r dyddiadau y caiff ei ddefnyddio gyntaf. Byddai hyn yn rhoi gwybodaeth glir i'r holl gyfranogion dichonol cyn iddynt wneud cynnig.

A1.26 Credwn fod gan y rhai sy'n debygol o gymryd rhan yn ein dyfarniadau sbectrwm yn y dyfodol syniad go lew pa bryd fydd y dyddiadau rhyddhau arfaethedig a'r dyddiad y caiff y sbectrwm ei ddefnyddio gyntaf. Ceir manylion am ein holl ddyfarniadau ar dudalen dyfarniadau sbectrwm ein gwefan[26], ac yno hefyd ceir yr wybodaeth ddiweddaraf am y dyfarniadau hynny.

A1.27 Gwnaeth yr un rhanddeiliad gais bod Ofcom yn rhoi digon o rybudd cyn bwrw ymlaen â'r arwerthiannau, fel bod modd cael cymeradwyaeth a dod o hyd i ffynonellau credyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cyfnod economaidd heriol. Roedd yr ymatebydd hefyd yn ein cynghori i drefnu bod modd talu fesul dipyn dros oes y sbectrwm.

A1.28 Byddwn yn parhau i roi gymaint ag y gallwn o rybudd o ddyddiadau'r arwerthiannau. Rydym wedi ystyried caniatáu talu mewn rhandaliadau yng nghyswllt y difidend digidol. Mae manteision i ddull o'r fath o ran ei fod yn cynnal proses arwerthiant clir ac yn caniatáu cystadleuaeth lawn o safbwynt y ffyrdd o'i ddefnyddio. Mae'n gymharol syml i'w roi ar waith ac efallai na fydd yn galw am bennu meini prawf o ran cymhwysedd neu ôl-werthusiad gorfodol os caiff pob cynigydd y cyfle i dalu mewn rhandaliadau.

A1.29 Serch hynny, mae peryglon sylweddol posibl i'r dull hwn. Yn gyntaf, mae perygl mewn perthynas â chredyd i ni oherwydd y perygl o fethiant i dalu ar ran rhywun sydd wedi ymrwymo i ffrwd dalu. Yn ail, mae perygl y caiff sbectrwm ei ddychwelyd i ni os nad yw achos busnes y sawl sy'n ennill y bid yn profi i fod yn broffidiol ac nid oes modd cynnal y trefniant taliadau. Mewn achos o'r fath, ni fyddai'r drefn o ddychwelyd sbectrwm i ni er mwyn i ni ei ddyfarnu eto yn syml ac yn ddidrafferth, o gofio'r gofynion gweinyddol y byddai'n rhaid i ni eu bodloni.

A1.30 Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu ein cynigion diweddar i gysoni mwy o'r sbectrwm a ryddheir fel rhan o ddifidend digidol y DU â gwledydd eraill yn Ewrop. Tynnodd nifer debyg o ymatebwyr sylw at y ffaith bod y difidend digidol yn cynnig cyfle go iawn i weithredu dyletswydd gwasanaeth i bawb yng nghyswllt band eang. Aeth un rhanddeiliad ymhellach, gan ddadlau y gellid rhoi rhywfaint o sbectrwm, yn rhad ac am ddim, i bobl oedd yn buddsoddi mewn mynediad cenhedlaeth nesaf.

A1.31 Credwn mai'r ffordd orau o sicrhau gwerth cymdeithasol ehangach yw bod darparwyr gwasanaeth yn cael cyllid uniongyrchol i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir. Mae

[26] http://www.ofcom.org.uk/radiocomms/spectrumawards/

noddi sbectrwm yn lleihau'r ysgogiad i ddefnyddio'r adnodd prin hwn yn effeithlon ac yn atal eraill a fyddai, efallai, yn rhoi mwy o werth i ddinasyddion a defnyddwyr, rhag ei ddefnyddio; byddai hyn yn gosod costau a allai fod yn sylweddol ar gymdeithas. Dull mwy effeithlon fyddai defnyddio'r elw o arwerthiannau sbectrwm i gyllido darparwyr gwasanaeth sy'n bodloni gofyniad gwasanaeth i bawb yng nghyswllt band eang neu sy'n buddsoddi mewn mynediad cenhedlaeth nesaf. Wrth gwrs, mater i'r Llywodraeth yw penderfynu sut y defnyddir yr elw a geir o arwerthiannau sbectrwm.

A1.32 Roedd un rhanddeiliad yn dadlau y dylid cadw rhywfaint o'r sbectrwm sy'n cael ei ryddhau ar gyfer cyflenwyr llai; nid oedd mecanweithiau masnachu'n ddigon, gan fod gweithredwyr mawr yn annhebygol iawn o roi eu sbectrwm i gystadleuwyr bach.

A1.33 Nid ydym yn cytuno y dylid cadw sbectrwm ar gyfer cyflenwyr llai a chyflenwyr lleol fel mater o bolisi, oherwydd byddai hyn yn golygu na fyddai defnyddwyr eraill, a allai roi mwy o werth i ddinasyddion a defnyddwyr, yn gallu ei ddefnyddio. Fodd bynnag, lle mae perygl sylweddol na fydd dull seiliedig ar y farchnad yn rhoi'r gwerth cymdeithasol gorau, byddwn yn ystyried ymyrryd, yr un modd ag y gwnaethom pan aethom ati i ryddhau pecynnau sbectrwm rhyngddalennog daearyddol oedd yn addas ar gyfer cwmnïau teledu lleol.

A1.34 Nododd un ymatebydd y gallai'r dirywiad economaidd effeithio ar werth sbectrwm. Roedd hefyd yn dadlau y gallai ymateb Ofcom i hyn ddibynnu ar un o ddau beth, sef ai sicrhau'r incwm mwyaf posibl o ryddhau sbectrwm oedd ein hamcan ynteu sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.

A1.35 Amcan ein dyfarniadau sbectrwm yw sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Nid – ac, o gofio ein dyletswyddau statudol, ni all fod - i sicrhau y ceir cynifer o dderbyniadau â phosibl o'r arwerthiannau. Yn fwyaf diweddar, buom yn ystyried pa mor effeithlon fyddai'r defnydd ôl-ddyfarniad o sbectrwm yng nghyd-destun y sbectrwm difidend digidol. Rydym wedi ystyried caniatáu talu mewn rhandaliadau yng nghyswllt y difidend digidol. Byddwn yn trafod y mater hwn eto pan fyddwn yn ymgynghori ymhellach ar ddyluniad manwl y dyfarniad hwnnw yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn.

**Nodau sbectrwm rhyngwladol**

A1.36 Pwysleisiodd dau ymatebydd bwysigrwydd cysondeb, yn ddelfrydol ar lefel byd-eang, ond, os nad yw hynny'n bosibl, ar lefel Ewropeaidd. Rydym yn cytuno â pha mor bwysig yw cysondeb a'r manteision a allai ddeillio o hynny o safbwynt economi'r DU a dinasyddion a defnyddwyr.

A1.37 Mae Ofcom yn gweithio'n helaeth ar draws amrywiaeth o fforymau Ewropeaidd a rhyngwladol i hyrwyddo argaeledd sbectrwm, yn unol ag amodau cyffredin, i hwyluso cysondeb o'r fath. Credwn mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw sicrhau bod sbectrwm ar gael ar sail amodau cyffredin a sylfaenol, ac yn unol ag egwyddorion technoleg a gwasanaeth niwtral, sydd hefyd yn hyrwyddo arloesedd a chystadleuaeth. Yn y mwyafrif o achosion, y farchnad sydd yn y sefyllfa orau i gysoni'r defnydd o sbectrwm ar draws ffiniau cenedlaethol. Mae hyn yn tanlinellu manteision Aelod Wladwriaethau'r UE yn rhyddhau sbectrwm tebyg dan amgylchiadau tebyg hyblyg, fel yr amlygwyd gan ein cynigion diweddar i gysoni difidend digidol y DU â rhai gwledydd eraill yn Ewrop.

## Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio

### Hyrwyddo cystadleuaeth mewn telathrebu sefydlog

A1.38 Roedd gwahaniaeth barn ymysg rhanddeiliaid mewn perthynas â'r sgôp posibl ar gyfer mwy o ddadreoleiddio yng nghyswllt marchnadoedd telegyfathrebu sefydlog: mae rhai yn gweld cyfle sylweddol i ddadreoleiddio mewn marchnadoedd band cul, ond roedd eraill yn rhybuddio yn erbyn peryglon dadreoleiddio'n rhy gynnar.

A1.39 Ers yr Adolygiad Strategol o Telathrebu yn 2004/05, rydym wedi bod yn edrych i'r dyfodol pan fydd atebion cyfanwerthol wedi datblygu digon i gyfiawnhau dadreoleiddio yng nghyswllt marchnadoedd manwerthu ymhellach i lawr. Bydd ein hadolygiadau marchnad band cul yn ystyried a yw'r amser hwnnw bellach wedi cyrraedd yng nghyswllt yr amrywiol farchnadoedd manwerthu band cul sy'n destun rheoleiddio ex-ante ar hyn o bryd. Efallai fod rhywfaint o sgôp hefyd ar gyfer dadreoleiddio yng nghyswllt marchnadoedd cyfanwerthu. Fodd bynnag, ni fyddwn ond yn cynnig dadreoleiddio pan mae tystiolaeth yn dangos bod cyfiawnhad dros hynny, a phan na fydd cael gwared o reoleiddio yn arwain at niwed i ddefnyddwyr.

A1.40 Roedd dau ymatebydd yn pwysleisio, wrth lunio polisïau, na ddylai Ofcom ganolbwyntio gormod ar sefyllfa'r darparwyr gwasanaethau cyfathrebu mwy seiliedig ar seilwaith, ond yn hytrach rhoi'r un faint o sylw i rôl gweithredwyr llai a darparwyr gwasanaeth sydd heb eu rhwydweithiau eu hunain.

A1.41 Rydym yn sylweddoli bod gan ddarparwyr gwasanaeth llai rôl bwysig i'w chwarae yn y dirwedd gystadleuol, a'u bod yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i arloesedd a datblygiad y farchnad. Byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn rhoi'r sylw dyledus i fuddiannau'r gwahanol gategorïau o ddarparwyr wrth lunio a gweithredu polisïau ym maes marchnadoedd telathrebu sefydlog.

A1.42 Roedd un ymatebydd yn galw arnom i gynnal yr adolygiad o reoleiddio 0845 yr oeddem wedi bwriadu ei gynnal yn 2008. Rhoddwyd y gwaith hwn i'r naill ochr yn sgil oedi gyda gweithredu diwygiadau i broses reoleiddio'r ystod rhifau 0870, ond byddwn yn edrych eto ar yr achos dros gynnal adolygiad manwl o 0845 fel rhan o brosiect sydd gennym ar y gweill mewn perthynas â thryloywder prisiau a rhifo.

### Galluogi rheolaeth glir ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf

A1.43 Pwysleisiodd llawer o randdeiliad bwysigrwydd rhwydweithiau cenhedlaeth nesaf i dwf a chystadleurwydd economi'r DU yn y dyfodol. Rydym yn cytuno bod gan rwydweithiau cenhedlaeth nesaf rôl ddichonol bwysig i'w chwarae i ddefnyddwyr, dinasyddion, busnesau a'r economi. Rydym yn ystyried hyrwyddo buddsoddiad effeithiol yn un o brif amcanion ein polisïau ar rwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf.

A1.44 Mynegodd nifer debyg o randdeiliaid bryder ynghylch y posibilrwydd y byddai datblygiadau masnachol yng nghyswllt band eang cyflym iawn yn lledaenu'r bwlch digidol. Roedd un ymatebydd yn tanlinellu gwerth band eang o safbwynt cydlyniad economaidd a chymdeithasol, gan alw am ymyriad ar ran y sector cyhoeddus er mwyn gofalu bod mynediad cenhedlaeth nesaf ar gael i gynifer â phosibl o bobl. Roedd un arall yn annog Ofcom i ystyried y gwersi a ddysgwyd yn ystod datblygiad band eang cenhedlaeth gyntaf ac yn awgrymu efallai bod gwerth mewn defnyddio

cynlluniau ysgogi, wedi'u cydlynu gan y sector gyhoeddus ar wahanol lefelau, er mwyn dangos faint o alw sydd am fynediad cenhedlaeth nesaf mewn ardaloedd lleol.

A1.45 Er ein bod yn credu y gallai datblygiadau a arweinir gan y sector breifat ddarparu manteision go iawn i gyfran sylweddol o ddinasyddion a defnyddwyr y DU, rydym yn ymwybodol y bydd y defnydd masnachol a wneir o fynediad cenhedlaeth nesaf yn y DU ymhell o fod yn gyffredinol. Golyga hyn bod perygl y gall llawer o ardaloedd lleol yn dioddef anfanteision economaidd a chymdeithasol oherwydd diffyg seilwaith band eang ddatblygedig. Canolbwyntiodd ein datganiad diweddar yn bennaf ar alluogi cam cyntaf band eang cyflym iawn. Fodd bynnag, roedd hefyd yn tanlinellu y byddwn yn ymgysylltu â'n holl rhanddeiliaid gan gynnwys llywodraeth yn y flwyddyn i ddod i ofalu bod band eang cyflym iawn ar gael i'r gyfran helaethaf bosibl o ddinasyddion y DU.

A1.46 Credwn fod perygl uchel iawn y gallai ymyriad cyhoeddus uniongyrchol cyn amser rhagatal buddsoddiad preifat effeithlon. Fodd bynnag, wrth i'r farchnad ddatblygu, daw yn fwy amlwg fyth pa ardaloedd yn y DU fydd yn galw am weithredu ar ran y sector cyhoeddus i osgoi bwlch digidol. Mae'r achos o blaid y gymdeithas yn sicrhau bod gwasanaethau band eang cyflym iawn ar gael yn helaeth yn cryfhau a bydd yn parhau i gryfhau. Mater i'r llywodraeth yn ogystal ag Ofcom, yw mynd i'r afael â hyn. Bydd gennym rôl allweddol i'w chwarae o safbwynt canfod y cydbwysedd iawn rhwng buddsoddiad y sector preifat a gweithgareddau ehangach y sector cyhoeddus a'r gwaith reoleiddiol sy'n tanseilio'r ddau sector. Gallai'r sector cyhoeddus gyfrannu mewn sawl ffordd, ac mae cynlluniau ysgogi eisoes wedi profi i fod yn ddefnyddiol o safbwynt meithrin y defnydd o fynediad cenhedlaeth nesaf yn lleol dan arweiniad y gymuned mewn gwledydd eraill yn Ewrop.

A1.47 Roedd safbwyntiau rhanddeiliaid yn y diwydiant yn amrywio o ran a ddylai cefnogaeth Ofcom i ddefnydd masnachol cynnar fod yn "hyblyg ac yn bragmatig"[27], fel y nodwyd yn y Cynllun Drafft. Nododd un rhanddeiliad fod y pwynt hwn yn hanfodol os yw rheoleiddio'n mynd i ymateb yn effeithiol i ddatblygiadau yn y farchnad. Roedd rhanddeiliad arall yn pryderu y gallai'r geiriad hwn awgrymu bod Ofcom yn dymuno ymatal rhag ei egwyddorion rheoleiddiol i ddiogelu datblygiadau masnachol.

A1.48 Mae ein hagwedd at reoleiddio mynediad cenhedlaeth nesaf yn seiliedig ar egwyddorion allweddol, y bu i ni ymgynghori yn eu cylch am y tro cyntaf yn 2007, ac sydd, ers hynny, wedi ennill cefnogaeth rhanddeiliaid ar raddfa eang. Lluniwyd yr egwyddorion gyda'r nod o gyflawni dau amcan allweddol ein dull rheoleiddio: hyrwyddo cystadleuaeth gynaliadwy a chefnogaeth i fuddsoddi effeithlon. Yn y tymor byr, credwn y dylai rheoleiddio gefnogi datblygu a phrofi technolegau newydd, cydberthynas fasnachol a gwasanaethau. Byddai hyn yn helpu i leddfu'r ansicrwydd sylweddol ynghylch mynediad cenhedlaeth nesaf, a thrwy hynny gyd-fynd â galluogi buddsoddiad effeithlon. Credwn fod hyn yn gyson â'r egwyddorion sy'n tanategu'n dull rheoleiddio ac yn dal i'n galluogi ni i barhau i ganolbwyntio yn y tymor hir ar nodau rheoleiddio.

A1.49 Yn yr un modd, roedd gan randdeiliaid yn y diwydiant safbwyntiau gwahanol ynghylch pa mor rhagweithiol y dylai Ofcom geisio bod mewn perthynas â rhwydweithiau craidd mynediad cenhedlaeth nesaf: pwysleisiodd un ymatebydd y dylai rheoleiddio ganolbwyntio ar rwystrau parhaus yn unig, ond roedd darparwyr gwasanaethau cyfathrebu eraill yn dadlau y dylem fod yn fwy gweithgar yng nghyswllt sicrhau bod rhwydweithiau newydd yn datblygu mewn modd sy'n cefnogi

[27] Cynllun Blynyddol Drafft Ofcom 2009/10, tudalen 22,http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/nga_future_broadband/statement/

cystadleuaeth effeithiol yn y dyfodol. Pwysleisiodd un ymatebydd na ddylai gweithredwyr sydd wedi trosglwyddo'n amserol i rwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf fod dan anfantais oherwydd y cyfraddau terfynu galwadau y caniateir iddynt godi ar weithredwyr eraill. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at effaith rhwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf ar wasanaethau penodol, megis gwasanaethau cyfeiriadur.

A1.50 Rydym yn cydnabod yr angen i gael cydbwysedd rhwng hybu buddsoddiad a diogelu cystadleuaeth, er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr hyn sydd gan rwydweithiau cenhedlaeth nesaf i'w gynnig i ddefnyddwyr. Bydd hyn wrth galon ein gwaith yn ystod 2009/10.

**Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu**

A1.51 Roedd un ymatebydd yn dadlau y dylid ehangu diffiniad y farchnad o gynnwys chwaraeon premiwm i gwmpasu mwy na Phêl Droed Uwch Gynghrair. Roedd yr un ymatebydd hefyd yn ategu sylwadau penodol a wnaed mewn ymgynghoriadau teledu talu blaenorol mewn perthynas ag amodau cynorthwyol ar gyfer lansio gwasanaethau talu ar deledu daearol digidol.

A1.52 Bwriadwn gyhoeddi ymgynghoriad neu ddatganiad newydd mewn perthynas â theledu talu yn chwarter cyntaf 2009/10. Yn y ddogfen hon, bydd Ofcom yn ymdrin â sylwadau a wnaed gan y rhanddeiliaid hyn a rhanddeiliaid eraill mewn ymgynghoriadau blaenorol ynghylch teledu talu.

**Asesu ein dull rheoleiddio yng nghyswllt y sector symudol**

A1.53 Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith fod y farchnad symudol wedi rhoi gwasanaeth da i ddefnyddwyr trwy gystadleuaeth ac arloesedd. Er gwaethaf y materion a nodwyd gennym uchod, rydym yn cydnabod mai felly y mae i raddau helaeth, a bod bodlonrwydd cwsmeriaid â gwasanaethau symudol yn uchel iawn. Serch hynny, nid ydym yn bwriadu troi ein sylw oddi wrth y rhai hynny sydd ddim yn gallu elwa o wasanaethau yn yr un modd â phobl eraill, neu sydd wedi dioddef niwed fel defnyddwyr.

A1.54 Byddwn yn rhoi sylw i'r pwyntiau penodol mae ymatebwyr wedi'u gwneud yn eu hymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Blynyddol a'r Asesiad o'r Sector Symudol, e.e. o ran cystadleuaeth yn y farchnad (gan gydnabod nad ydym wedi cynnal adolygiad o'r farchnad), prisio gwasanaethau, ein hagwedd tuag at bolisïau defnyddwyr a'i nodau a'i amcanion. Byddwn hefyd yn edrych ar fynediad a chynhwysiant, gan ganolbwyntio ar bobl anabl a phobl hŷn, yn ogystal â hyd a lled derbyniad symudol.

A1.55 Rydym hefyd yn sylweddoli bod rhai rhanddeiliaid wedi gwneud cynigion penodol mewn perthynas â newidiadau i'r drefn terfynu gwasanaeth. Byddwn yn rhoi sylw i'r awgrymiadau hyn yn yr ymgynghoriad ar gyfraddau terfynu gwasanaeth symudol yr ydym yn bwriadu ei gyhoeddi yn chwarter cyntaf 2009/10.

**Defnyddwyr busnes**

A1.56 Roedd llawer o randdeiliaid yn croesawu cynllun Ofcom i edrych yn benodol ar anghenion defnyddwyr busnes. Cynigiodd rhai ymatebwyr i gydweithio ag Ofcom ar y mater hwn. Gofynnodd un ymatebydd i ni ddarparu mwy o fanylion ynghylch ein rhaglen waith yn y maes hwn.

A1.57 Mae Ofcom yn awr yn cynnal ymarfer cwmpasu mewn perthynas â rhaglen ymchwil fydd yn ceisio canfod a yw anghenion defnyddwyr busnes gwasanaethau telathrebu yn cael eu diwallu. Bydd casgliadau ein hymchwil yn gweithredu fel sail ar gyfer ein gwerthusiad fydd yn ceisio canfod a yw polisïau Ofcom yn canolbwyntio digon ar roi sylw i bryderon defnyddwyr neu bryderon ynghylch cystadleuaeth.

### Hygludedd rhifau ffôn symudol

A1.58 Nododd dau randdeiliad bod Ofcom yn awr yn y broses o adolygu hygludedd rhifau ffôn symudol, ond nad oedd y Cynllun Drafft yn sôn am y ffrwd waith honno.

A1.59 Yn dilyn apêl lwyddiannus Vodafone[28], ysgogodd Ofcom adolygiad newydd o'r trefniadau o ran hygludedd rhifau yn y DU yn ystod chwarter olaf 2008. Pwrpas yr adolygiad yw ystyried unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud i'r drefn o drosglwyddo rhifau ffôn symudol, a'r trefniadau ar gyfer llwybro galwadau a wneir i rifau ffôn sefydlog a symudol sy'n cael eu cludo.

A1.60 Mae Ofcom yn awyddus i sicrhau bod y broses o newid darparwr gwasanaeth symudol a chadw rhif mor syml a didrafferth â phosibl i ddefnyddwyr. Dylai feithrin cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad rhwng gweithredwyr, cynnig dull rhwydd i bobl sy'n terfynu gwasanaeth gadw eu rhif pan fyddant yn newid darparwr, a bod ar gael i bawb sy'n terfynu gwasanaeth fel hawl.

A1.61 Mae Ofcom hefyd yn awyddus i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i weithredwyr o safbwynt llwybro rhifau sy'n cael eu cludo'n effeithlon. Yn dilyn canlyniad yr adolygiad hwn, bydd Ofcom yn penderfynu a yw am weithredu, gan gynnwys cynnal ymgynghoriad ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig.

A1.62 Nododd un ymatebydd ei bod yn anodd iawn i gwmnïau symudol newydd llai gael gwasanaeth cludo rhifau ffôn symudol gan gwmnïau sydd wedi hen sefydlu. Yn anffodus, mae hwn wedi bod yn araf deg iawn yn cychwyn am amryw o resymau gwahanol, ac mae Ofcom wedi gorfod gweithredu mewn perthynas â rhai o'r rhesymau hynny. Fodd bynnag, mae'n galondid i weld bod cynnydd wedi bod yn ddiweddar; mae un o'r cwmnïau bychan sy'n newydd i'r farchnad wedi sicrhau hygludedd, ac mae newydd-ddyfodiaid sydd ond wedi dechrau trafod hygludedd yn ddiweddar yn gwneud cynnydd da. Rydym wedi dysgu llawer gydol y broses hon, ar ran y gweithredwyr mwy ac ar ran y newydd-ddyfodiaid, yn arbennig yng nghyswllt sefydlu'r trefniadau cludo technegol. Mae'r broses ar gyfer sefydlu hygludedd yn cael ei dogfennu gan y Grŵp Llywio Gweithredwyr a'r gobaith yw y bydd yn arf defnyddiol ar gyfer eraill sy'n ceisio sicrhau hygludedd yn y dyfodol.

## Cyflenwi budd y cyhoedd wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio

### Mynediad a chynhwysiant

A1.63 Roedd nifer fawr o randdeiliaid yn croesawu ein rhaglen waith arfaethedig mewn perthynas â mynediad a chynhwysiant yng nghynllun 2009/10. Gofynnodd sawl ymatebydd am eglurhad pellach ar fanylion y gwaith hwn, ac mae hwn i'w weld ar

[28] Dyfarniad CAT ar gael yn http://www.catribunal.org.uk/files/Judgment_1094_180908.pdf

dudalennau 25-26 y ddogfen hon ac yn y ddogfen ymgynghori ynghylch mynediad a chynhwysiant a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2009.[29]

A1.64 Pwysleisiodd un ymatebydd bod rhaid ystyried anghenion defnyddwyr anabl, a phobl ddall neu rannol ddall yn arbennig, yn llawn yn y gwaith hwn. Rydym wedi comisiynu gwaith ymchwil i dechnolegau cynorthwyol ym maes cyfathrebu a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2009[30]. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar anghenion sydd heb eu diwallu, technolegau newydd a rhaglenni ymchwil a datblygu sydd ar y gweill.

A1.65 Mae'n ddyletswydd ar Ofcom i hyrwyddo datblygiad ac argaeledd offer hawdd ei ddefnyddio ar gyfer y defnyddiwr, ond nid oes unrhyw bwerau ynghlwm â'r ddyletswydd hon. Mae defnyddioldeb yn fater sy'n effeithio ar bob dinesydd a defnyddiwr, ond mae'n effeithio'n arbennig ar ddefnyddwyr hŷn a defnyddwyr anabl. Byddai llawer o'r rhain yn hoffi cael offer prif ffrwd sy'n hawdd i'w ddefnyddio ac yn hawdd cael mynediad iddo yn hytrach na gorfod dibynnu ar offer arbenigol. Ni allwn ddatrys y problemau hyn ar ein pennau ein hunain, a byddwn yn parhau i weithio gyda grwpiau yn y diwydiant, grwpiau defnyddwyr ac ymchwil ac eraill i drafod a hyrwyddo arfer da yn y maes hwn.

A1.66 Holodd un ymatebydd gwestiynau am ein bwriad i adolygu'r *Côd Gwasanaethau Mynediad i Deledu,* gan ofyn yn benodol i ni gynyddu'r targed disgrifiad sain o'r cwota statudol cyfredol o 10% i 20%.

A1.67 Rydym yn credu mai dyma'r amser i ailystyried a ddylem argymell i'r llywodraeth bod y cwota disgrifiad sain yn cael ei gynyddu. Byddwn yn archwilio'r mater hwn fel rhan o'r adolygiad o'r *Côd Gwasanaethau Mynediad i Deledu* eleni a byddwn yn ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid. Bwriadwn asesu'r gost i ddarlledwyr a'r manteision i ddefnyddwyr o gynyddu'r cwota disgrifiad sain, yn ogystal â'r goblygiadau o safbwynt darparu gwasanaethau mynediad yn gyffredinol.

A1.68 Bydd yn bwysig osgoi sefyllfa lle gallai cwotâu cynyddol yn yr holl wasanaethau mynediad arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y darlledwyr sydd eu hangen i'w darparu. Byddwn yn asesu pa mor debygol yw hyn, ac yn ystyried ffyrdd y gallwn ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau mynediad, o fewn y ddeddfwriaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd.

A1.69 Holodd rhanddeiliad arall ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau cyfnewid testun yn y dyfodol. Bydd BT yn parhau i farchnata'r gwasanaeth cyfnewid testun sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae'n ddyletswydd ar bob darparwr gwasanaethau cyfathrebu i ddarparu mynediad i wasanaeth cyfnewid cymeradwy ar gyfer pobl fyddar a phobl â nam ar eu lleferydd yn ogystal â rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod gwasanaeth o'r fath ar gael. Rydym hefyd wedi comisiynu astudiaeth mewn perthynas â manteision cymdeithasol ac economaidd gwasanaethau cyfnewid ychwanegol, a byddwn yn ystyried casgliadau'r astudiaeth hon yn 2009/10.

A1.70 Gwnaeth rhanddeiliad arall y sylw bod cyflwyno gwasanaeth galwadau 999 ar ffonau symudol wrth grwydro yn galw am astudiaeth ddichonoldeb dechnegol fanwl. Credwn y bydd yr arbrawf rhanbarthol sydd gennym yn yr arfaeth gyda gweithredwyr ffonau symudol a'r awdurdodau brys yn sicrhau bod unrhyw broblemau technegol yn cael eu harchwilio'n llawn cyn cyflwyno gwasanaeth 999 crwydrol.

[29] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/access/

[30] http://www.ofcom.org.uk/research/usability/research/

A1.71 Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad ar waith Ofcom yng nghyswllt goblygiadau gwasanaeth cyffredinol. Yn ystod 2009, bydd Ofcom yn adolygu gweithrediad y Gorchymyn Gwasanaeth Cyffredinol presennol, gan gyfeirio at y fframwaith sy'n bodoli ar hyn o bryd, maint unrhyw faich a pha mor gynaliadwy yw'r trefniadau cyllido presennol.

**Darlledu gwasanaeth cyhoeddus**

A1.72 Roedd ymatebwyr yn croesawu'r ffaith y byddai gwasanaethau darlledu cyhoeddus yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Ofcom yn 2009/10. Wrth wneud hyn, pwysleisiodd un rhanddeiliad bod yn rhaid i ni barhau i gydnabod anghenion gwahanol cynulleidfaoedd yn y gwledydd datganoledig, a bod yn glir ynghylch y trefniadau amlblecs yn yr Alban. Roedd rhanddeiliad arall yn ategu’r sylwadau a wnaed ynghylch dyfodol rhaglenni crefyddol yng Ngogledd Iwerddon.

A1.73 Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod cynifer â phosibl o amleddau ar gael i'w defnyddio yn yr Alban ac mewn rhannau eraill o’r DU yn sgil y newid i’r digidol, a byddwn yn trafod hyn gyda llywodraeth y DU a rhanddeiliaid eraill yn y flwyddyn i ddod.

A1.74 Nododd dau randdeiliad mai da o beth fyddai gwneud mwy o waith ar ganfod yr heriau sy’n wynebu'r cyfryngau lleol, a theledu lleol yn benodol. Yn yr Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, daethom i'r casgliad y dylem wneud mwy o waith yng nghyswllt asesu ymarferoldeb cyfryngau lleol fel cyfangorff yn y dyfodol a nodi pa ddulliau polisi a fyddai'n addas ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny, teledu lleol.

A1.75 Bwriadwn gyhoeddi ymgynghoriad yn hwyrach ymlaen eleni, gan roi sylw i dri amcan cyffredinol, sef:

- pennu pa ddarpariaeth sydd ei hangen ar lefel leol o safbwynt cyfryngau i ddiwallu anghenion dinasyddion a defnyddwyr;
- asesu ymarferoldeb darparu cynnwys cyfryngau lleol yn y dyfodol, yng nghyd-destun y weledigaeth ar gyfer ban eang a nodwyd yn *Prydain Ddigidol;* ac
- asesu dulliau polisi dichonol ar gyfer cynnal sector cyfryngau lleol egnïol ac iach, gyda swyddogaeth sydd wrth wraidd democratiaeth leol yn y DU.

A1.76 Bydd y prosiect yn galw am ymchwil manwl, dadansoddi'r farchnad ac ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid.

## Cefnogi esblygiad radio

A1.77 Cododd nifer o randdeiliaid gwestiynau ynghylch gwaith Ofcom ar ddyfodol y sector radio, yn arbennig yng ngoleuni adroddiad interim *Prydain Ddigidol* a gwaith y Gweithgor Radio Digidol.

A1.78 Fel rhan o adroddiad interim Prydain Ddigidol, comisiynwyd adolygiad annibynnol o gynaliadwyedd radio lleol mewn byd digidol. Byddwn yn cefnogi’r adolygiad hwnnw, ac yn rhoi ein sylwadau ar adolygiad Prydain Ddigidol yr un pryd. Yna, byddwn yn ymgynghori ynghylch newidiadau posibl sydd o fewn cylch gwaith Ofcom ac yn rhoi unrhyw benderfyniadau ar waith cyn gynted ag y bo modd ar ôl cyhoeddi fersiwn derfynol adroddiad Prydain Ddigidol.

A1.79 Roedd un ymatebydd yn annog Ofcom i ystyried cynnig radio masnachol mewn perthynas â chael gwared o reolau perchnogaeth penodol i radio. Rydym i fod i gynnal adolygiad statudol o'r rheolau perchnogaeth cyn diwedd 2009 a byddwn yn gwneud ein hargymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, mater i'r llywodraeth yw unrhyw newidiadau.

A1.80 Teimlai rhanddeiliad arall y dylai dadreoleiddio gofynion 'bod yn lleol' fod yn flaenoriaeth yn 2009/10. Cafodd y rheolau mewn perthynas â 'bod yn lleol' eu llacio cryn dipyn ar ôl yr ymgynghoriad flwyddyn yn ôl. Roedd hyn yn lleihau'r ymrwymiad i ddarparu oriau darlledu radio lleol 50%, ac yn galluogi nifer o orsafoedd i gyd-leoli. Rydym yn adolygu lefel rheoleiddio'r sector radio yn barhaus er mwyn sicrhau bod unrhyw reoleiddiad yn gymesur â'r manteision a gynigir ganddo.

A1.81 Holodd rhai rhanddeiliaid gwestiynau am y llwyfan DAB, gan gynnwys cyllid yn y dyfodol a'i lwyddiant ledled y byd. Mater i'r llywodraeth yw unrhyw benderfyniadau ynghylch cyllid cyhoeddus i ehangu gwasanaeth DAB. Mae nifer o wledydd eisoes wedi mabwysiadu DAB, ac mae Ffrainc a'r Almaen wedi cyhoeddi cynlluniau i lansio gwasanaethau DAB o fewn y flwyddyn nesaf.

A1.82 Roedd ymatebydd arall yn annog Ofcom i ystyried cau llwyfan DAB ar lefel leol ac ymestyn trwyddedau FM lleol am 12 mlynedd arall. Credwn fod DAB yn cynnig manteision sylweddol i wrandawyr, ac mae'r llywodraeth wedi nodi ei hymrwymiad yn ddiweddar i wneud DAB yn llwyfan dosbarthu sylfaenol ar gyfer radio. Mater i'r llywodraeth yw unrhyw estyniad arall i gyfnod trwyddedau radio eraill - gan gynnwys trwyddedau analog ac amlblecs. Mae adroddiad interim Prydain Ddigidol wedi gwrthod galwadau i ymestyn trwyddedau FM ar hyn o bryd.

A1.83 Roedd llawer o randdeiliaid yn croesawu'r drefn sydd yn yr arfaeth ar gyfer ail-ddyfarnu trwyddedau radio cenedlaethol annibynnol (neu drwyddedau radio masnachol cenedlaethol). Ni fydd y drwydded radio cenedlaethol annibynnol yn cael ei hamserlennu tan y flwyddyn nesaf, a byddwn yn cyhoeddi'r amserlen a'r broses ar gyfer hysbysebu'r trwyddedau hyn cyn diwedd 2009.

### Cefnogi'r newid i'r digidol

A1.84 Roedd un ymatebydd yn cwestiynu dibynadwyedd a chywirdeb yr wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr ynghylch derbyniad darllediadau teledu digidol yng ngwahanol rannau'r DU.

A1.85 Mae gwybodaeth i ddefnyddwyr ynghylch y newid i'r digidol ar gael ar wefan Digital UK www.digitaluk.co.uk. Mae hwn yn cynnwys arf gwirio côd post sy'n caniatáu i ddefnyddwyr fewnbynnu eu côd post, ac, ymysg pethau eraill, cael gwybodaeth ynghylch pa bryd y byddant yn newid, ac amcan o ba mor debygol ydynt o gael derbyniad da o ran rhaglenni digidol, yn awr ac ar ôl newid. Mae'r wybodaeth yn y gwiriwr côd post yn seiliedig ar efelychiadau cyfrifiadurol manwl a bydd yr wybodaeth honno'n cael ei diweddaru'n gyson i adlewyrchu'r cynlluniau diweddaraf gydol cyfnod y newid.

## Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfiad rheoleiddiol lle bo angen

A1.86 Roedd ymatebwyr yn gweld gwerth uchel yn y flaenoriaeth hon, gyda llawer yn cytuno â'n sylw ni bod yr hinsawdd economaidd yn galw am roi mwy o sylw fyth i'r perygl o arferion niweidiol. Byddwn yn gwneud ein gorau glas yn y flwyddyn i ddod i sicrhau bod buddion dinasyddion a defnyddwyr yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu.

A1.87 Mynegodd un rhanddeiliad ei amheuon ynghylch rôl Ofcom yng nghyswllt costau ychwanegol, gan ddadlau y byddai’n fwy priodol pe bai OFT yn gyfrifol am hyn. Er ein bod yn deall y synergedd â gwaith OFT, mae'n ddyletswydd arnom i orfodi rheoliadau yn ein sector. Mae cyhoeddi canllawiau ar ein hagwedd tuag at orfodi'r UTCCR yn rhoi eglurder i'n holl randdeiliaid.

A1.88 Gwnaeth un rhanddeiliad y sylw, er fod y côd ymarfer diweddar ar gyflymderau band eang yn lleihau cam-werthu, nid yw'n gwella lefel yr wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr gymaint â hynny. Rydym yn cytuno y byddai defnyddwyr yn elwa o well gwybodaeth ynghylch ansawdd gwasanaeth band eang. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried sut orau y gallwn ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ynglŷn â hyn, er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwell ynghylch eu dewis o becyn a Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd.

**Llythrennedd yn y Cyfryngau**

A1.89 Roedd rhanddeiliaid yn croesawu cynnwys llythrennedd yn y cyfryngau fel blaenoriaeth ar gyfer 2009/10, ond yn codi nifer o gwestiynau ynghylch goblygiadau adroddiad interim y Llywodraeth ar Brydain Ddigidol yr un pryd. Pwysleisiodd llawer o randdeiliaid mor bwysig oedd sicrhau bod llythrennedd yn y cyfryngau’n ymestyn i bobl anabl ac i bobl dan anfantais, ac anghenion gwahanol defnyddwyr yn y gwledydd datganoledig.

A1.90 Gan weithio gyda Gweithgor Llythrennedd yn y Cyfryngau Prydain Ddigidol, byddwn yn cynnig Cynllun Cenedlaethol Llythrennedd yn y Cyfryngau. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys argymhellion ar ystod o gamau i'r llywodraeth, y diwydiant a'r trydydd sector eu cymryd er mwyn creu newid sylfaenol yng nghyswllt hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau. Byddwn yn sicrhau bod holl aelodau ein cymdeithas, ar hyd a lled y DU, yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael yn sgil technolegau cyfryngau a thechnolegau cyfathrebu digidol. Bydd hyn yn cynnwys y carfannau hynny o gymdeithas sydd ddim ar-lein hyd yma, sydd, efallai, yn anodd eu cyrraedd neu sydd â gofynion penodol o safbwynt mynediad.

A1.91 Mae Ofcom yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid yn y gwledydd datganoledig i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau. Rydym wedi sefydlu rhwydweithiau rhanddeiliaid yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac edrychwn ymlaen at barhau â'r drafodaeth hon yn 2009/10.

A1.92 Roedd un ymatebydd yn dadlau y dylai llythrennedd yn y cyfryngau anelu at ‘ruglder technolegol’ ymysg defnyddwyr. Mae gwaith Ofcom ym maes hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau yn cynnwys pob agwedd ar ei ddiffiniad o’r “gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfathrebiadau mewn amrywiol gyd-destunau”. Mae datblygu’r gallu i ddefnyddio technoleg yn effeithiol ac yn ddiogel yn elfen bwysig o lythrennedd unigolyn yn y cyfryngau.

A1.93 Pwysleisiodd un rhanddeiliad mor bwysig oedd cynnwys creadigol, megis ffilm a delweddau’n symud, i annog dinasyddion i feithrin mwy o lythrennedd yn y cyfryngau. Rydym hefyd yn sylweddoli mor bwysig yw cynnwys creadigol o safbwynt annog pobl i ymddiddori mewn technolegau digidol a'u defnyddio ac i wella eu llythrennedd yn y cyfryngau. Edrychwn ymlaen at weithio gyda’r diwydiannau creadigol, gan gynnwys aelodau'r Gweithlu Llythrennedd yn y Cyfryngau, i hyrwyddo argaeledd, defnydd a mwynhad yng nghyswllt ffilm a deunydd yn cynnwys delweddau sy'n symud.

A1.94 Awgrymodd rhanddeiliad arall y gallai rhwydwaith canghennau Swyddfa’r Post chwarae rhan allweddol mewn cynhwysiant digidol a llythrennedd yn y cyfryngau,

gan alluogi unigolion i gysylltu ag eraill. Edrychwn ymlaen at barhau â'n trafodaethau gyda Swyddfa'r Post er mwyn deall pa gyfraniad y gallai canghennau'r gwasanaeth hwnnw ei wneud i roi gwell mynediad a chefnogaeth i bobl sy'n dymuno datblygu eu llythrennedd yn y cyfryngau a'u hyder wrth ddefnyddio technolegau digidol.

### Gwybodaeth defnyddwyr a'r drefn newid darparwr

A1.95 Roedd tri ymatebydd wedi nodi pwysigrwydd bwrw ymlaen â'n gwaith mewn perthynas â symud a newid. Cyn bo hir, byddwn yn ymgynghori ymhellach ynglŷn â symud o un cynnyrch i'r llall ac, yn benodol, ynghylch yr achos o blaid cael mwy o gysondeb rhwng prosesau yng nghyswllt defnyddwyr sy'n newid eu gwasanaethau cyfathrebu. Fel rhan o hyn, byddwn yn edrych ar ystod o opsiynau posibl ar gyfer mynd â'r gwaith hwn rhagddo, gan gynnwys i ba raddau y gallai diwydiant fod mewn sefyllfa i gymryd yr awenau ym maes datblygu prosesau i wella profiad defnyddwyr o newid.

A1.96 Gofynnodd un ymatebydd a oedd Ofcom yn gwneud unrhyw waith mewn perthynas â galluogi cwsmeriaid band eang i fynd â'u cyfeiriadau e-bost gyda hwy pan fyddant yn newid darparwr band eang. Mae bodolaeth prosesau newid effeithiol yn cael lle blaenllaw ar ein rhestr o flaenoriaethau. Credwn ei bod yn hollbwysig i gefnogi gallu cwsmeriaid i newid cynnyrch a darparwr, fel bod defnyddwyr yn gallu ystyried yr opsiynau sydd ar gael a newid eu gwasanaeth a'u darparwr cyfredol pan maent yn dymuno gwneud hynny, yn rhwydd a chyda cyn lleied â phosibl o darfu. Yn ein gwaith hyd yma, nid ydym wedi nodi hygludedd e-bost fel rhwystr mawr i newid darparwr band eang. Yn wir, nodwn fod defnyddwyr eisoes yn rhydd i greu cyfeiriadau e-bost y gellir eu cludo os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Byddwn yn parhau i fonitro a gwerthuso'r mater hwn.

A1.97 Holodd un ymatebydd am ein gwaith yng nghyswllt cam-werthu gwasanaethau llais llinell-sefydlog. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n awgrymu gwneud nifer o newidiadau yn raddol i'r rheoliadau presennol gyda'r nod o roi sylw i rai gwendidau penodol o safbwynt y ffordd maent yn cael eu drafftio. Rydym yn ymgynghori ynghylch cynigion i gael gwared â'r Cyfarwyddyd a wnaed ym mis Gorffennaf 2005 ynglŷn â defnydd BT o 'ddileu'r llall' ac i ymgorffori gofynion llai yn y Telerau Cyffredinol sy'n berthnasol i bawb sy'n darparu gwasanaethau llais llinell-sefydlog.

## Darparu gwasanaethau

A1.98 Nododd un rhanddeiliad yr angen i ganfod atebion newydd posibl i'r broblem o sut i ostwng lefelau gweithgareddau darlledu radio heb drwydded. Rydym yn ymwybodol o'r problemau a achosir gan ddarlledwyr anghyfreithlon ac rydym yn cymryd camau'n gyson yn erbyn darlledwyr o'r fath ac yn chwilio am atebion tymor hwy. Croesawn unrhyw gynigion sydd gan randdeiliaid mewn perthynas ag atebion o'r fath, a byddwn yn falch o ymgysylltu â rhanddeiliaid unigol ynghylch y materion hyn.

### Hyfforddiant mewn telathrebu

A1.99 Roedd un rhanddeiliad yn awgrymu y dylai fod yn ofyniad rheoleiddiol bod cyflogwyr yn darparu hyfforddiant yn y sector telathrebu, tebyg i'r hyn a gynigir yn y sector darlledu.

A1.100 Mae Deddf Cyfathrebu 2003 yn mynnu bod Ofcom yn hyrwyddo hyfforddiant a datblygiad ar draws y diwydiant darlledu, ac yn sicrhau bod y trefniadau a wneir gan ddarlledwyr yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes gennym bwerau penodol o'r fath yng nghyswllt y sector telathrebu. Efallai bod hwn yn rhywbeth y byddai'r llywodraeth a'r

Senedd yn dymuno ei ystyried mewn diwygiadau i ddeddfwriaeth cyfathrebu yn y dyfodol.

A1.101 Serch hynny, Ofcom a ysgogodd ffurfio'r Rhwydwaith Amrywiaeth Telathrebu, a gafodd ei lansio ar 8 Medi 2008. Grŵp gwirfoddol o ddarparwyr telathrebu yw'r rhwydwaith sydd wedi cytuno i gydweithio fel sector i archwilio ffyrdd o ddefnyddio manteision amrywiaeth yn eu busnesau a rhannu arferion gorau. Mae Ofcom yn gweithredu fel hwylusydd yn y lle cyntaf, er mwyn sefydlu'r rhwydwaith trwy gynnal digwyddiadau a rhannu gwybodaeth. Mae cynhadledd arall i'w chynnal ym mis Medi 2009.

## Hyrwyddo i'r eithaf ein heffaith ar ddatblygiadau polisi Ewropeaidd a rhyngwladol ehangach

A1.102 Mae llawer o randdeiliaid wedi awgrymu y dylai Ofcom barhau i hyrwyddo dulliau wedi'u cysoni mewn perthynas â rheoleiddio er cystadleuaeth ar hyd a lled Ewrop. Roedd un ymatebydd hefyd wedi nodi y dylai Ofcom, o gofio ei adnoddau cyfyngedig, ganolbwyntio ar faterion rheoleiddiol Ewropeaidd yn hytrach na rhannu arferion gorau y tu hwnt i Ewrop.

A1.103 Ar Ewrop y byddwn yn canolbwyntio'n bennaf o hyd, o gofio effaith uniongyrchol polisïau a datblygiadau deddfwriaethol yr UE ar ein gwaith, a'r angen am weithredu mewn modd cydgysylltiedig a chyson ar lefel ranbarthol. Bydd Ofcom yn parhau i weithio'n agos â rheoleiddwyr eraill i rannu arferion gorau, yn ogystal â gyda'r llywodraeth i fynd ar drywydd datblygu marchnad agored a rhyddfrydoledig ar lefel yr UE.

A1.104 Ond, mae hefyd yn bwysig y sylweddolir bod gan Ofcom rôl i'w chwarae mewn rhai achosion o safbwynt ymyrryd neu gynrychioli'r DU ar lefel ryngwladol (er enghraifft yn yr ITU a'r OECD). Mae gweithredwyr a buddsoddwyr yn gweithredu ar lefel fyd-eang, a gall y penderfyniadau a wneir gan sefydliadau a chyfundrefnau gweinyddol rhyngwladol mewn gwledydd eraill effeithio ar ddarparwyr a defnyddwyr y DU ym maes cyfathrebu. Yn y cyd-destun hwn mae'n bwysig bod Ofcom yn ymwybodol o ddatblygiadau pwysig dramor ac yn trafod gyda rheoleiddwyr ynghylch materion o bwys allweddol.

## Fframwaith strategol newydd Ofcom

A1.105 Mae llawer o randdeiliaid wedi gwneud awgrymiadau a sylwadau defnyddiol o safbwynt llunio fframwaith strategol nesaf Ofcom. Un o'r themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg yn sgil digwyddiadau gyda rhanddeiliaid yw'r angen i ni ystyried yn llawn effaith technolegau cyfathrebu gwahanol ar y dinesydd a'r defnyddiwr. Bydd dadansoddi'r tueddiadau yn y farchnad ac mewn ymchwil defnyddwyr yn elfen ganolog o'n sylfaen dystiolaeth yn y gwaith hwn. Byddwn hefyd yn cynnal arolwg o arferion gorau mewn rheoleiddio, yn y DU ac ar lefel ryngwladol, er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu o farchnadoedd a rheoleiddwyr eraill.

A1.106 Awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylai fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol geisio sicrhau cysondeb rheoleiddiol ar draws y gwahanol lwyfannau a gwasanaethau. Roedd un ymatebydd yn dadlau bod rheoleiddio cyfryngau traddodiadol - megis teledu a radio - yn anachronistig a gor-ymyraethol o'i gymharu â dulliau mwy newydd o ddarparu cyfryngau. Teimlai rhanddeiliad arall y dylem wahaniaethu mwy rhwng darparwyr seilwaith cyfathrebiadau a darparwyr cyfathrebiadau sy'n darparu gwasanaethau a chynnwys. Roedd ymatebydd arall yn dadlau y dylai fframwaith cydgyfeiriedig newydd Ofcom ar gyfer rheoleiddio ganolbwyntio ar gystadleurwydd ac

argaeledd gwasanaethau defnyddiwr terfynol, ac y dylem fabwysiadu agwedd gyfannol tuag at reoleiddio'r marchnadoedd sy'n sail i hyn, er mwyn sicrhau'r buddion gorau bosibl i ddefnyddwyr.

A1.107 Roedd un ymatebydd yn awgrymu y dylai fframwaith strategol newydd gadw ymrwymiad i gydbwyso amcanion budd y cyhoedd â chydnabod manteision agwedd seiliedig ar y farchnad tuag at reoleiddio. Yn yr un modd, roedd rhanddeiliaid eraill yn pwysleisio bod yn rhaid i ymrwymiad i wasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr fod wrth wraidd unrhyw fframwaith newydd.

A1.108 Codwyd pwyntiau penodol eraill gan randdeiliaid eraill a byddwn yn ystyried y rhain yn ystod y misoedd i ddod. Ymysg y materion hyn mae cyllido ymrwymiadau gwasanaeth i bawb, dyrannu sbectrwm i weithredwyr bach, anghenion defnyddwyr busnes, o dan ba amgylchiadau y dylai Ofcom ymyrryd mewn materion yn ymwneud â defnyddwyr, a'r mecanweithiau sydd ar gael ar gyfer cwynion. Gwnaeth un rhanddeiliad gais ein bod yn ystyried dibynnu mwy ar drefniadau llywodraethu sy'n cael eu harwain gan y diwydiant, a chyfundrefnau hunan-reoleiddio a rheoleiddio ar y cyd.

A1.109 Roedd rhai rhanddeiliaid yn ein hannog i aros am ganlyniad yr adolygiad *Prydain Ddigidol* cyn llunio fframwaith newydd. Rydym yn cytuno bod yn rhaid i unrhyw ddull newydd o bennu ein rhaglen waith yn y tymor canolig adlewyrchu datblygiadau yn y sector, ac mae *Prydain Ddigidol* yn fenter bwysig fydd yn gweithredu fel sail i'n penderfyniadau ac yn cyfrannu at y gwaith o siapio ein fframwaith strategol newydd.

A1.110 Wrth lunio ein fframwaith strategol nesaf, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid Ofcom yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn, ac yn ceisio mewnbwn ynghylch cyfeiriad ehangach Ofcom yn ogystal â'n dull gweithredu mewn perthynas â meysydd polisi a blaenoriaeth penodol. Bydd hwn yn sail i gynllun blynyddol Ofcom yn 2010/11, a byddwn yn cyhoeddi hwn ar gyfer ymgynghoriad tua diwedd y flwyddyn hon.